



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 16 Mawrth 2011
Wednesday, 16 March 2011**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Questions to the Minister for Business and Budget
- 25 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions to the Minister for Heritage
- 41 Cynnig i Gymeradwyo'r Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl
Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011
Motion to Approve the Flood and Coastal Erosion Risk Management Information
Appeal Regulations 2011
- 42 Cynigion i Gymeradwyo Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu
Cymeradwyo) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru)
2011
Motions to Approve the Student Fees (Approved Plans) (Wales) Regulations 2011
and the Student Fees (Amounts) Regulations 2011
- 47 Datganiad: Adroddiad Ailarolygu Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Ynys
Môn
Statement: Welsh Audit Office Re-inspection Report on Anglesey Council
- 65 Gohirio'r Rheolau Sefydlog
Suspension of Standing Orders
- 65 Cynnig mewn Cysylltiad ag Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
2015
Motion in Relation to the National Assembly for Wales General Election 2015
- 68 Cynnig i Benodi Archwilwyr ar gyfer Cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru
Motion to Appoint Auditors to the Accounts of the Auditor General for Wales
- 69 Cynnig i Ail-wneud y Rheolau Sefydlog
Motion to Remake the Standing Orders
- 71 Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Bolisiau Cynllunio yng Nghymru
The Sustainability Committee's Report on Planning in Wales
- 86 Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr Agenda Wyddoniaeth, Technoleg,
Peirianneg a Mathemateg (STEM)
The Enterprise and Learning Committee's report on the Science, Technology,
Engineering and Mathematics (STEM) Agenda
- 106 Dadl Fer: S4C—Fe Fydd y Chwyldro ar y Teledu
Short Debate: S4C—The Revolution Will Be Televised

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget

Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

I. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystod y pedair wythnos diwethaf. OAQ(3)1340(BB)*

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): I have had correspondence in recent weeks with the Chief Secretary to the Treasury on end-year flexibility, taking forward the Holtham commission recommendations on fair funding and other matters.

William Graham: Thank you very much for that answer, Minister. Given your responsibility for ensuring the most effective use of the Welsh Government's budget, what assessment have you made of the criticism that has been levelled at aspects of the Assembly Government's civil service by Simon Gibson, the chief executive of Sir Terry Mathews's Wesley Clover International Corporation, that the organisation is too monolithic in its control structure? Furthermore, he argues that the merger of the Welsh Development Agency with the Assembly Government has resulted in grant applications taking far too long. Given the importance of boosting the wealth-producing private sector, to ensure that Wales and the United Kingdom recover from the economic malaise, would you accept that your Government needs to put in place major changes to work practices and management structures?

Jane Hutt: We have responded to the Gibson review, which was a robust piece of work, and all those recommendations were taken on board by the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport with

Discussions with the UK Government

I. William Graham: *Will the Minister provide an update on discussions held with the UK Government within the last four weeks. OAQ(3)1340(BB)*

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Dros yr wythnosau diwethaf rwyf wedi gohebu â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch hyblygrwydd diwedd blwyddyn, gan fwrw ymlaen ag argymhellion comisiwn Holtham ar gyllid teg a materion eraill.

William Graham: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. O gofio eich cyfrifoldeb dros sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o gyllideb Llywodraeth Cymru, pa asesiad a wnaed gennych o'r feirniadaeth o agweddau ar wasanaeth sifil Llywodraeth y Cynulliad gan Simon Gibson, prif weithredwr cwmni Wesley Clover International Corporation Syr Terry Mathews fod y sefydliad yn rhy fonolithig o ran ei strwythur rheoli? Hefyd, mae'n dadlau bod uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth y Cynulliad wedi arwain at lawer gormod o oedi o ran ceisiadau am grant. O ystyried pwysigrwydd rhoi hwb i'r sector preifat, sector sy'n cynhyrchu cyfoeth, er mwyn sicrhau bod Cymru a'r Deyrnas Unedig yn goresgyn y diflastod economaidd, a fydddech yn derbyn y dylai eich Llywodraeth wneud newidiadau mawr i arferion gwaith a strwythurau rheoli?

Jane Hutt: Rydym wedi ymateb i adolygiad Gibson, a oedd yn ddarn o waith trylwyr, a nodwyd yr holl argymhellion hynny gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth o ran

regard to his implementation of 'Economic Renewal: a new direction'. The Deputy First Minister has responded to this issue on several occasions, in the Chamber and in committee. We have had a good response from the private sector with regard to the way in which we have managed our capital programme. That has been against cuts from the UK Conservative-led coalition Government, including cuts of 40 per cent in next year's capital programme, which has a huge impact on the construction industry. I am sure that you will have welcomed yesterday's statement, which included important funding for the Royal Gwent Hospital's infrastructure works in your area. We are therefore playing our part, against the backdrop of the worst cuts that the Government in Wales has had to face, as a result of UK Government cuts. We are investing in infrastructure, which is what the private sector wants to see, in terms of transport, housing, education and health.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I wish to take you back to your correspondence with Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury. You have rightly written to him in relation to the Holtham, or Barnett, floor. That is supported by the coalition Government, although it needs to be considered and acted upon by the Chancellor and the Prime Minister, as well as by the Chief Secretary to the Treasury. I wish to ask about the related issue of the Calman-like process, which is contained in the coalition document at Westminster. There is a commitment in that document to look at the powers on taxation, which is supported by the Prime Minister and the Chancellor. What is this Government's attitude to that, because you have not been pursuing it? What is the Government's stance on this issue—I know what it is on fair funding, but what is it on seeking taxation powers?

Jane Hutt: The whole Assembly backed the motion that we jointly agreed last year, when we accepted the final and full report from Gerry Holtham and his independent commission. Part 1 of that report covers fair funding, and part 2 includes issues relating to tax-varying powers, which is a matter for a

gweithredu'r rhaglen 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb i'r mater hwn ar sawl achlysur, yn y Siambr ac mewn pwyllgorau. Rydym wedi cael ymateb da gan y sector preifat o ran y ffordd yr ydym wedi rheoli ein rhaglen gyfalaf. Digwyddodd hynny mewn cyfnod o doriadau gan Lywodraeth glymblaid y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr, gan gynnwys toriadau o 40 y cant yn rhaglen gyfalaf y flwyddyn nesaf, sy'n effeithio'n ddirfawr ar y diwydiant adeiladu. Rwy'n siŵr eich bod wedi croesawu'r datganiad ddoe, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am gyllid pwysig ar gyfer seilwaith Ysbyty Brenhinol Gwent yn eich ardal chi. Rydym yn chwarae ein rhan felly, yn y cyfnod hwn gyda'r toriadau gwaethaf y bu'n rhaid i'r Llywodraeth yng Nghymru eu hwynebu, o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Rydym yn buddsoddi mewn seilwaith, o ran trafnidiaeth, tai, addysg ac iechyd, yn ôl dymuniad y sector preifat,.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Hoffwn eich atgoffa o'ch gohebiaeth â Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae'n iawn eich bod wedi ysgrifennu ato ynglŷn â llawr Holtham, neu Barnett. Cefnogir hynny gan y Llywodraeth glymblaid, er bod angen iddo gael ei ystyried gan y Canghellor a Phrif Weinidog y DU, yn ogystal â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, a bod angen iddynt ei roi ar waith. Hoffwn ofyn am fater cysylltiedig, sef y broses sy'n ymdebygu i un Calman, a gynhwysir yn nogfen y glymblaid yn San Steffan. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys ymrwymiad i edrych ar y pwerau ar drethu, a gefnogir gan y Prif Weinidog a'r Canghellor. Beth yw agwedd y Llywodraeth hon yn hyn o beth, oherwydd ni fuoch yn dilyn y mater? Beth yw safbwynt y Llywodraeth ar y mater hwn? Gwn beth yw eich safbwynt am ariannu teg, ond beth ydyw o ran ceisio cael pwerau trethu?

Jane Hutt: Cefnogodd y Cynulliad cyfan y cynnig y cytunwyd arno ar y cyd gennym y llynedd, pan y derbyniom yr adroddiad terfynol a llawn gan Gerry Holtham a'i gomisiwn annibynnol. Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwnnw yn ymdrin â chyllid teg, ac mae rhan 2 yn cynnwys materion yn

future Government in Wales. I am pleased to see that Professor Holtham states in today's edition of the *Western Mail* that the Welsh Assembly Government should stand its ground on Barnett funding reform. He makes it clear—and I agree with him—that, first of all, we need to look at the Holtham floor in terms of fair funding before holding discussions with the Chief Secretary to the Treasury, and before we, and any future Government, consider tax-varying powers.

You will also recall that we sought other flexibilities, and that Gerry Holtham advised us on this issue and recommended that we should take this forward. Those flexibilities include opportunities for borrowing, which is critical, bearing in mind the constrained times in which we find ourselves. They also include end-year flexibilities, which we have lost, in terms of the end of the EYF arrangements that have helped us. However, I wish to thank the Chancellor for what he said a few weeks ago in Cardiff. He said that, following the referendum on Assembly powers, which was delivered during the coalition Government's first year of office—as promised—and following the emphatic 'yes' result, we can look at the financing arrangements and the Holtham floor. That is what I seek to discuss with the Chief Secretary to the Treasury.

Nick Bourne: I thank the Minister very much indeed for that warm endorsement of the Conservative Chancellor; I am sure he will be very flattered. You answered an awful lot of questions that I did not ask, but you did not answer the very specific, important question that I did ask. I know where you stand on the Barnett floor, but what I do not know is where you stand as a Government on seeking taxation powers. I strongly suspect that half of the Government—the Plaid Cymru half—is in favour of it, but that the Labour part is not. I have yet to hear you say that this is something that you want. It is in the coalition document; will you be absolutely clear now and say that that is what you want?

ymwneud â phwerau amrywio trethi, sy'n fater ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Rwy'n falch o weld bod yr Athro Holtham yn nodi yn rhifyn heddiw o'r *Western Mail* y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddal ei thir ynghylch diwygio cyllid Barnett. Mae'n nodi'n glir, ac rwyf yn cytuno ag ef, bod angen inni, yn gyntaf oll, edrych ar lawr Holtham o ran cyllid teg, cyn cynnal trafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, a chyn i ni, ac unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol, ystyried pwerau amrywio trethi.

Fe gofiwch hefyd ein bod wedi gofyn am fathau eraill o hyblygrwydd, ac i Gerry Holtham ein cynghori ar y mater hwn ac iddo argymhell y dylem fynd ymlaen â hyn. Mae'r hyblygrwydd hwnnw'n cynnwys cyfleoedd i fenthyca, sy'n hanfodol, o gofio'r cyfyngiadau amser sydd gennym. Maent hefyd yn cynnwys hyblygrwydd diwedd blwyddyn, yr ydym wedi eu colli, o ran y trefniadau hyblygrwydd diwedd blwyddyn, sydd wedi ein helpu, yn dod i ben. Fodd bynnag, hoffwn ddiolch i'r Canghellor am yr hyn a ddywedodd ychydig wythnosau'n ôl yng Nghaerdydd. Dywedodd, yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad, a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn waith gyntaf y Llywodraeth glymblaid, fel yr addawyd, ac yn dilyn y canlyniad 'ie' pendant, y gallwn edrych ar y trefniadau ariannu a llawr Holtham. Dyna beth yr wyf eisiau ei drafod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Nick Bourne: Diolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am y gefnogaeth gynnes honno i'r 'r Canghellor Ceidwadol; rwy'n siŵr y bydd wrth ei fodd. Rydych wedi ateb llawer iawn o gwestiynau nad oeddwn wedi eu gofyn, ond ni wnaethoch ateb y cwestiwn penodol iawn a phwysig a ofynnais. Gwn beth yw eich safbwynt ar lawr Barnett, ond yr hyn nad wyf yn ei wybod yw, beth yw eich safbwynt fel Llywodraeth ar geisio pwerau trethu. Rwy'n amau'n gryf bod hanner y Llywodraeth, sef hanner Plaid Cymru, o blaid hynny, ond nad yw'r rhan Lafur o blaid. Nid wyf wedi eich clywed yn dweud eto bod hyn yn rhywbeth yr ydych ei eisiau. Mae wedi'i gynnwys yn y ddogfen glymblaid; a wnewch chi fod yn hollol glir yn awr a dweud mai dyna beth yr ydych ei eisiau?

Jane Hutt: I made it quite clear in my answer to your question. We seek, first, to deliver on fair funding, and the Holtham floor would be the way in which we can halt that convergence, which I know you support. You will realise that, in terms of any tactical position, we have to start dealing with the fair funding formula before we look at any further tax-varying powers. That, as we said, is a matter for a future Government.

Nick Bourne: You say you have made it clear; let us just have a 'yes' or 'no' to this then. Once you have dealt with the Barnett floor, will you seek taxation powers?

Jane Hutt: That is a matter for a future Government.

Brian Gibbons: Even though it was not on the ballot paper, there was a very clear understanding in the recent referendum that the referendum was not about tax-raising powers, or about raising the number of Assembly Members here in the Assembly. Indeed, it is both disingenuous and despicable that the UK Government is trying to bounce us into a Calman-type review following the two Holtham reports that we have had in Wales. The bouncing efforts of the UK Government are a direct insult to the overwhelming decision of the people who voted 'yes' in our recent referendum.

Jane Hutt: I recall, Brian, when the issue of the referendum was raised as a reason why we could not progress with implementing the recommendations of the Holtham Commission in terms of the Barnett floor, we were surprised—and I acknowledged this in the Chamber—that the Chief Secretary to the Treasury, and indeed the UK coalition Government, stated that they would not do anything until after the referendum. We have had the referendum now and I have paid tribute to the Chancellor's words, recognising that we got an emphatic, resounding 'yes', but they made a promise that they would then look at our financing arrangements and the Holtham floor. I would have thought that that is the next step, and I am awaiting a positive response to my very constructive letter to the Chief Secretary to the Treasury asking for an

Jane Hutt: Gwneuthum hynny'n gwbl glir yn fy ateb i'ch cwestiwn. Yn gyntaf, rydym eisiau gweithredu o ran ariannu teg, a llawr Holtham fyddai'r ffordd y gallwn atal y cydgyfeirio hwnnw, y gwn eich bod yn ei gefnogi. Byddwch yn sylweddoli, o ran unrhyw sefyllfa dactegol, bod yn rhaid i ni ddechrau ymdrin â'r fformiwla ariannu teg cyn i ni edrych ar unrhyw bwerau amrywio trethi pellach. Mae hynny, fel y nodwyd gennym, yn fater i Lywodraeth yn y dyfodol.

Nick Bourne: Rydych yn dweud eich bod wedi nodi'n glir; beth am gael 'ie' neu 'na' yn ateb i'r cwestiwn hwn. Unwaith y byddwch wedi ymdrin â llawr Barnett, a fyddwch yn gofyn am bwerau trethu?

Jane Hutt: Mae hynny'n fater i Lywodraeth yn y dyfodol.

Brian Gibbons: Er nad oedd wedi'i nodi ar y papur pleidleisio, roedd dealltwriaeth glir iawn yn y refferendwm diweddar nad oedd y refferendwm yn ymwneud â phwerau codi trethi, nac yn ymwneud â chynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad yma yn y Cynulliad. Yn wir, mae'n dwyllodrus ac yn warthus bod Llywodraeth y DU yn ceisio ein gorfodi i fod yn destun adolygiad tebyg i un Calman yn dilyn y ddau adroddiad Holtham a gawsom yng Nghymru. Mae ymdrechion gorfodi Llywodraeth y DU yn sarhad uniongyrchol ar benderfyniad pendant y bobl a bleidleisiodd 'ie' yn ein refferendwm diweddar.

Jane Hutt: Rwy'n cofio, Brian, pan nodwyd y refferendwm fel rheswm dros beidio â bwrw ymlaen â gweithredu argymhellion Comisiwn Holtham, o ran llawr Barnett, ein bod yn synnu—a bu i mi gydnabod hyn yn y Siambr—fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac yn wir Llywodraeth glymblaid y DU, wedi dweud na fyddent yn gwneud unrhyw beth tan ar ôl y refferendwm. Mae'r refferendwm wedi'i gynnal erbyn hyn ac rwyf wedi talu teyrnged i eiriau'r Canghellor, gan gydnabod ein bod wedi cael 'ie' pendant a chroch, ond gwnaethant addewid y byddent wedyn yn edrych ar ein trefniadau cyllido ac ar lawr Holtham. Byddwn wedi tybio mai dyma'r cam nesaf, ac rwyf'n disgwyl ymateb cadarnhaol i fy llythyr adeiladol iawn at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gofyn am gyfarfod brys yn ystod yr wythnosau nesaf.

urgent meeting in the next couple of weeks. That is the first question that you asked the First Minister last week when he made his statement on the referendum. The first thing I believe the leader of the opposition asked was how we were going to progress in terms of our fair funding arrangements.

Twyll Ariannol a'r Gyllideb

2. David Melding: *Yn ôl yr amcangyfrifon, faint mae twyll ariannol yn ei gostio i gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1328(BB)*

Jane Hutt: We operate a zero-tolerance policy for any reported or detected frauds and work closely with police forces to pursue such cases.

David Melding: What response will you give to the Auditor General for Wales's call for the national fraud initiative to be extended throughout the public sector in Wales? While commending current co-operation, he says that in the current financial climate, there is a need to spend every Welsh pound effectively and properly, to ensure that those in receipt of benefits and public services are indeed entitled to those services, and that the various services for which we are responsible are delivered effectively and are not themselves open to fraud from practitioners or other potential public servants who, in a very small minority of cases, are intent on self-gain.

Jane Hutt: Clearly, we need to respond to that, David, and I take the opportunity, in response to your important question, to remind colleagues that, last year, we appointed a counter-fraud specialist, who is a former head of the South Wales Police fraud squad. We have established a constructive relationship with all police forces on counter-fraud activity, and the Welsh Assembly Government is actively participating in the national fraud initiative. That is run on a biannual basis by the Wales Audit Office. Designated as the Welsh Assembly Government's counter-fraud champion, the head of the Assembly's corporate governance and assurance division has given a clear steer

Dyna'r cwestiwn cyntaf i chi ei ofyn i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf pan wnaeth ei ddatganiad ar y refferendwm. Credaf mai'r peth cyntaf i arweinydd yr wrthblaid ei ofyn oedd sut yr ydym am symud ymlaen o ran ein trefniadau ariannu teg.

Fraud and the Budget

2. David Melding: *What is the estimated cost of fraud to the Welsh Assembly Government's budget. OAQ(3)1328(BB)*

Jane Hutt: Rydym yn gweithredu polisi dim goddefgarwch gydag unrhyw achosion o dwyll a gofnodwyd neu a ganfuwyd, a gweithiwn yn agos gyda heddluoedd i fynd ar drywydd achosion o'r fath.

David Melding: Pa ymateb a roddwch i alwad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r fenter twyll genedlaethol gael ei hymestyn ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru? Er ei fod yn cymeradwyo'r cyd-weithredu presennol, dywed bod angen gwario pob punt yn effeithiol ac yn briodol yng Nghymru, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cael budd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus â hawl i'r gwasanaethau hynny, ac y darperir y gwasanaethau amrywiol yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn effeithiol, ac nad ydynt yn agored i dwyll gan ymarferwyr neu weision sifil posibl eraill sydd, mewn lleiafrif bach iawn o achosion, yn benderfynol o gymryd mantais er eu budd hwy eu hunain.

Jane Hutt: Yn amlwg, mae angen inni ymateb i hynny, David, ac rwy'n cymryd y cyfle, mewn ymateb i'ch cwestiwn pwysig, i atgoffa cydweithwyr ein bod, wedi penodi arbenigwr gwrth-dwyll y llynedd, sy'n gynbennaeth sgwad twyll Heddlu De Cymru. Rydym wedi sefydlu perthynas adeiladol gyda'r holl heddluoedd o ran gweithgarwch gwrth-dwyll, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y fenter twyll genedlaethol. Caiff honno ei rhedeg ddwywaith y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ac yntau wedi ei ddynodi yn hyrwyddwr gwrth-dwyll Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae pennaeth is-adran llywodraethu corfforaethol a sicrwydd y

to our intentions to ensure that the Government in Wales is at the forefront on this issue. I hope that this sets a standard for the rest of the public sector in Wales.

Cyllid Preifat

3. Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cyllid preifat gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1324(BB)*

Jane Hutt: We have no intention of returning to the early days of the private finance initiative. However, we remain committed to exploring the use of innovative forms of investment in public infrastructure in Wales, subject to delivering value for money and protecting the position of the workforce.

Jenny Randerson: That was an interesting answer, Minister, as there has been little use of other forms of private finance by this Government; in fact, virtually none have been used in the last four years. We all know about your commitment not to use private finance in the health service, but I notice that, in a recent exchange with Leanne Wood, the Minister for education was anxious to point out that he was open to ways to maximise investment in public service infrastructure. I assume that you are looking at public-private partnerships as a way of financing future projects. Are you also looking at the third sector as a way of providing alternative models for public investment, and will you spell out the situation in relation to the education budget? Many local authorities will not be able to fulfil their obligations under the transformation agenda without additional capital.

Jane Hutt: It is not the case that we have not been looking for innovative ways of accessing finance. The JEREMIE and JESSICA initiatives, for example, are developing strong partnerships across the public and private sectors to lever in European structural funds. The waste procurement programme is another clear example of public-private partnership

Cynulliad wedi rhoi arweiniad clir i'n bwriad i sicrhau bod y Llywodraeth yng Nghymru ar flaen y gad ar y mater hwn. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn gosod safon ar gyfer gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Private Finance

3. Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on the use of private finance by the Welsh Assembly Government. OAQ(3)1324(BB)*

Jane Hutt: Nid oes gennym unrhyw fwriad i ddychwelyd at ddyddiau cynnar y fenter cyllid preifat. Fodd bynnag, rydym yn parhau yn ymrwymedig i ymchwilio i'r defnydd o ffurfiau arloesol o fuddsoddi yn y seilwaith cyhoeddus yng Nghymru, yn amodol ar ddarparu gwerth am arian ac ar ddiogelu sefyllfa'r gweithlu.

Jenny Randerson: Roedd hwnnw'n ateb diddorol, Weinidog, gan mai ychydig o ddefnydd o ffurfiau eraill o gyllid preifat a fu gan y Llywodraeth hon; yn wir, ni ddefnyddiwyd bron ddim yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Gwyddom oll am eich ymrwymiad i beidio â defnyddio cyllid preifat yn y gwasanaeth iechyd, ond sylwaf, mewn trafodaeth ddiweddar â Leanne Wood, fod y Gweinidog addysg yn awyddus i nodi ei fod yn barod i ystyried ffyrdd o sicrhau cymaint o fuddsoddiad â phosibl yn y seilwaith gwasanaethau cyhoeddus. Tybiaf eich bod yn ystyried partneriaethau cyhoeddus-preifat fel ffordd o ariannu prosiectau yn y dyfodol. A ydych hefyd yn ystyried y gall y trydydd sector ddarparu modelau amgen ar gyfer buddsoddi cyhoeddus, ac a wnewch chi egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r gyllideb addysg? Ni fydd modd i lawer o awdurdodau lleol gyflawni eu cyfrifoldebau o dan yr agenda trawsnewid, heb gael cyfalaf ychwanegol.

Jane Hutt: Nid yw'n wir nad ydym wedi bod yn chwilio am ffyrdd arloesol o gael gafael ar gyllid. Mae mentrau JEREMIE a JESSICA, er enghraifft, yn datblygu partneriaethau cryf ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddenu arian strwythurol Ewropeaidd. Mae'r rhaglen caffael gwastraff yn enghraifft amlwg arall o gyswllt partneriaethau cyhoeddus-preifat ar

engagement at local, regional and national level. Today, we have been updated on the benefits of that programme on a sectoral basis, looking at the opportunities to work closely with registered social landlords in the housing sector to enable us to access finance.

Let us be clear about our approach and how we can ensure that we source finance appropriately by working in partnership with the private sector. We recognise that our approach is fundamentally different from that of the UK Government. Public services are driving and delivering our approach and have a key role to play in delivering economic renewal, responding to individual communities and providing public-sector jobs. The cuts that have been instigated fly in the face of our intentions and objectives. It is clear that we want to work with our public services to protect them; we did this by not making cuts to revenue and capital funds last year following the UK budget cuts. It is also clear that we can work with the third sector, as we already do, through the voluntary sector scheme, and at a local level to enable the sector not only to champion causes but to provide services; that is the direction that the One Wales Government has taken as the way to access finance and work in partnership with the third sector as well as the private sector.

Leanne Wood: Minister, I welcome your statement in favour of public services. The legacy of the private finance initiative in English NHS trusts is well documented after the Department of Health in Westminster calculated that more than £50 billion will be paid back eventually for buildings worth just £11 billion. This month, it has emerged that people in Scotland are facing a council tax time bomb as they try to pay back the money that was borrowed to fund new schools there. We have done well in Wales to avoid the worst excesses of the private finance initiative. Do you agree that this form of debt is extremely costly and only shifts a huge burden of debt onto future generations and is much better left well alone?

lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Heddiw, cawsom y wybodaeth ddiweddaraf am fanteision y rhaglen honno ar sail sectoraidd, gan edrych ar y cyfleoedd i weithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y sector tai er mwyn ein galluogi i gael gafael ar gyllid.

Gadewch inni fod yn glir ynghylch ein dull gweithredu a sut y gallwn sicrhau ein bod yn chwilio am gyllid yn y modd priodol drwy weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat. Rydym yn cydnabod bod ein hagwedd yn sylfaenol wahanol i un Llywodraeth y DU. Y gwasanaethau cyhoeddus sy'n llywio ac yn darparu ein dull gweithredu, ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae o ran adnewyddu'r economi, gan ymateb i gymunedau unigol a darparu swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae'r toriadau sydd ar waith yn gwbl groes i'n bwriadau a'n hamcanion. Mae'n amlwg ein bod am weithio gyda'n gwasanaethau cyhoeddus i'w diogelu; gwnaethom hyn drwy beidio â gwneud toriadau i gronfeydd refeniw a chyfalaf y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn toriadau cyllideb y DU. Mae hefyd yn amlwg y gallwn weithio gyda'r trydydd sector, fel yr ydym yn ei wneud eisoes, drwy'r cynllun sector gwirfoddol, ac ar lefel leol i alluogi'r sector, nid yn unig i hyrwyddo achosion, ond i ddarparu gwasanaethau; dyna'r cyfeiriad a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru'n Un fel y ffordd i gael mynediad at gyllid ac i weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector yn ogystal â'r sector preifat.

Leanne Wood: Weinidog, croesawaf eich datganiad o blaid gwasanaethau cyhoeddus. Mae hanes y fenter cyllid preifat yn ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr wedi ei gofnodi'n glir ar ôl i Adran Iechyd San Steffan gyfrifo y telir dros £50 biliwn yn ôl yn y pen draw ar gyfer adeiladau sydd werth £11 biliwn yn unig. Daeth yn amlwg y mis hwn, bod pobl yn yr Alban yn wynebu bom amser o ran y dreth gyngor wrth iddynt geisio ad-dalu'r arian a fenthycwyd i ariannu ysgolion newydd yno. Rydym wedi gwneud yn dda yng Nghymru i osgoi eithafion gwaethaf y fenter cyllid preifat. A gytunwch fod y math hwn o ddyled yn hynod o gostus, ac ond yn symud baich enfawr o ddyled i genedlaethau'r dyfodol a'i bod yn llawer gwell ei adael lle y mae?

1.45 p.m.

Jane Hutt: As I said, had we followed the example of the outmoded PFI projects that had been taken forward in England, then we would be spending £80 million to £100 million per year on PFI. That is what we would have had to pay back. We are paying back money on those few PFI projects that we had in education, which is money that we would want to spend in patient care and education on the front line.

We get these questions from the opposition. Why can they not praise the fact that this Assembly Government has this year delivered, as a result of careful financial management, a statement that included 8 per cent more on the final capital budget, which we approved only a few weeks ago, which is an additional £105 million that will build schools, hospitals and improve our transport infrastructure? That is public money, and we are putting it where it needs to be.

Angela Burns: Minister, I listened carefully to your answer to Leanne Wood, and I am not quite sure why we spend so much time talking about something that we have not done. Private finance initiatives are very different to public-private partnerships. As you will be aware, the cross-party Finance Committee produced a report that was explicit about the possible use of PPP, and I know that many of the initiatives that you spoke about earlier in response to Jenny Randerson would come under the PPP umbrella. Do you have any intention of recreating or instigating a department to specialise in PPP, so that we can ensure that we have best practice, that we follow the right contracts and get the right kind of financial advice, and that we push that good practice out to local authorities and people who may be looking to bring in private investment to support our capital infrastructure programmes? We need that private investment, but we need to ensure that it done exceptionally well. I therefore draw the Assembly's attention to that cross-party report, which was exceptionally clear on that issue.

Jane Hutt: Fel y dywedais, pe baem yn dilyn yr enghraifft hen ffasiwn o brosiectau mentrau cyllid preifat a ddatblygwyd yn Lloegr, yna byddem yn gwario rhwng £80 miliwn a £100 miliwn y flwyddyn arnynt . Dyna fyddai'n rhaid i ni ei ad-dalu. Rydym yn ad-dalu arian ar yr ychydig o brosiectau PFI a oedd ar waith gennym ym maes addysg, sef arian y byddem am ei wario ar ofal cleifion ac addysg ar y rheng flaen.

Mae'r cwestiynau hyn yn cael eu gofyn i ni gan yr wrthblaid. Pam na allant ganmol y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad eleni, o ganlyniad i reoli arian yn ofalus, wedi cyhoeddi datganiad a oedd yn cynnwys 8 y cant yn fwy ar y gyllideb gyfalaf derfynol, a gymeradwywyd gennym dim ond ychydig wythnosau yn ôl, sy'n £105 miliwn ychwanegol a fydd yn adeiladu ysgolion, ysbytai ac yn gwella ein seilwaith trafniadaeth? 'Arian cyhoeddus yw hwn, a byddwn yn ei ddefnyddio lle mae ei angen.

Angela Burns: Weinidog, gwrandewais yn astud ar eich ateb i Leanne Wood, ac nid wyf yn siŵr iawn pam rydym yn treulio cymaint o amser yn siarad am rywbeth nad ydym wedi ei wneud. Mae mentrau cyllid preifat yn wahanol iawn i bartneriaethau cyhoeddus-preifat. Fel y gwyddoch, lluniodd y Pwyllgor Cyllid trawsbleidiol adroddiad a oedd yn sôn yn glir am y defnydd posibl o bartneriaethau cyhoeddus-preifat, a gwn fod llawer o'r mentrau roeddech yn sôn amdanynt yn gynharach mewn ymateb i Jenny Randerson yn dod o dan ambarél partneriaethau cyhoeddus-preifat. A oes gennych unrhyw fwriad i ail-greu neu gychwyn adran i arbenigo mewn partneriaethau cyhoeddus-preifat, fel y gallwn sicrhau bod gennym arfer gorau, ein bod yn dilyn y contractau iawn a chael y math cywir o gyngor ariannol, a'n bod yn dosbarthu'r arfer da hwnnw i awdurdodau lleol a phobl a allai fod yn ystyried denu buddsoddiad preifat i gefnogi ein rhaglenni seilwaith cyfalaf? Mae angen y buddsoddiad preifat hwnnw arnom, ond mae angen inni sicrhau y gweithredir hyn yn eithriadol o dda. Rwyf felly'n tynnu sylw'r Cynulliad at yr adroddiad trawsbleidiol hwnnw, a oedd yn eithriadol o glir ar y mater hwnnw.

Jane Hutt: Thank you, Angela, for acknowledging the ways in which we are levering in private sector funding, which I will not repeat. Although it may be on a sectoral basis, in relation to waste management and housing, in particular, as we have mentioned, lessons have been learned and experiences shared at a strategic level. We have spent much time in the Finance Committee talking about the importance of developing our national infrastructure plan. That is the direction that the Treasury was taking in Westminster, before the UK coalition Government came into power. It was incorporating Partnership UK into an infrastructure planning unit within the Treasury, and I believe that that is the way forward in ensuring that we can enhance every source of funding. This goes back to the fact that we need to lever in borrowing power, which was one of Gerry Holtham's recommendations, and which is an important lever for us in Wales in securing sources of funding. The third sector, to return to Jenny's point, has been very effective in levering funding from the lottery funds, and there is also the important contribution of European structural funds.

Proses Pennu'r Gyllideb

4. Eleanor Burnham: *Sut mae cyrff allanol yn cyfrannu at broses pennu'r gyllideb. OAQ(3)1346(BB)*

Jane Hutt: We have a long-standing commitment to operating in a spirit of openness and transparency. This has been reflected throughout the budget setting process, where we have been working within Government and across the full range of delivery partners and stakeholders.

Eleanor Burnham: I am absolutely delighted at your reply. I ask this question because we all receive a considerable amount of documents, Ministers in particular. I have asked twice about a particular Mind Cymru consultation, namely the 'Welsh Youth Consultation on Suicide and Help-seeking Behaviours', which was commissioned by the National Assembly in 2008—rather I suspect that it might have been commissioned by the Welsh Government, but

Jane Hutt: Diolch, Angela, am gydnabod y ffyrdd rydym yn denu cyllid sector preifat, ac nid wyf am ailadrodd y manylion hynny. Er y gall fod ar sail sectoraidd, mewn perthynas â rheoli gwastraff a thai, yn enwedig, fel rydym wedi crybwyll, mae gwersi wedi'u dysgu a phrofiadau wedi'u rhannu ar lefel strategol. Rydym wedi treulio llawer o amser yn y Pwyllgor Cyllid yn sôn am bwysigrwydd datblygu ein cynllun seilwaith cenedlaethol. I'r cyfeiriad hwnnw yr oedd y Trysorlys yn San Steffan yn mynd, cyn i Lywodraeth glymblaid y DU ddod i rym. Roedd yn ymgorffori'r UK Partnership yn uned cynllunio seilwaith o fewn y Trysorlys, a chredaf mai dyna'r dull gorau er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o bob ffynhonnell o gyllid. Yn y bôn, mae angen inni gael y pŵer i fenthycu, a oedd yn un o argymhellion Gerry Holtham, ac sy'n arf pwysig i ni yng Nghymru o ran sicrhau ffynonellau cyllid. I ddychwelyd at bwynt Jenny, bu'r trydydd sector yn effeithiol iawn wrth ddenu arian o'r cronfeydd loteri, a hefyd mae cyfraniad pwysig y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i'w nodi.

The Budget-setting Process

4. Eleanor Burnham: *What contributions do external organisations make to the budget setting process. OAQ(3)1346(BB)*

Jane Hutt: Mae gennym ymrwymiad hirsefydlog i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Mae hyn wedi ei adlewyrchu drwy gydol y broses o bennu cyllideb, lle buom yn gweithio o fewn y Llywodraeth ac ar draws yr ystod lawn o bartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid.

Eleanor Burnham: Roedd yn bleser mawr gennyf glywed eich ateb. Gofynnaf y cwestiwn hwn oherwydd rydym i gyd yn derbyn nifer sylweddol o ddogfennau, yn enwedig y Gweinidogion. Gofynnais ddwywaith am gynnal ymgynghoriad penodol gan Mind Cymru, sef 'Ymgynghoriad Ieuenctid Cymru ar Hunanladdiad a Chwilio am Help', a gomisiynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2008—er fy mod yn amau iddo gael ei

I am sure that you can correct me on that. This is just one of the many thousands of documents that land on your desk. Therefore, what mechanisms are in place so that all evidence, particularly the meaningful and important evidence provided by these external organisations, is properly assessed before budget and policy decisions are made?

Jane Hutt: That is an important factor with regard to the way in which we set our budgets. There is the opportunity in relation to the draft budget for scrutiny in committees and consultation with our partners, particularly in the third sector. As you know, we also published our equality impact assessment of the draft budget on 8 February. That came about as a result of extensive consideration and consultation on the impact of budgetary proposals, particularly on vulnerable people, and as a result of making sure that promoting equality is considered at the beginning of our budgetary decisions. Inclusive policy making has been developed by the Welsh Assembly Government, which has helped with our delivery of an equality impact assessment. That had a particular impact on the way in which the Minister for Social Justice and Local Government and all Ministers with public-service-led portfolios looked at the impact on such things as mental health services and the third sector in its delivery of those services.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, a fyddech yn cytuno mai un o lwyddiannau mawr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac, yn wir, Llywodraeth Cymru, yw'r modd y mae'r trydydd sector wedi cael ei chynnwys a'r modd y mae'r Llywodraeth wedi llwyddo i gydweithredu â hi? A fyddech yn cytuno mai un o'r pethau pwysicaf sydd wedi digwydd yw sicrhau bod cytundebau'r mudiadau gwirfoddol, i raddau helaeth, yn ymestyn dros dair blynedd erbyn hyn, o ystyried eu bod, yn y gorffennol, yn ei chael yn eithradol o anodd i weithio yn seiliedig ar gytundebau 12 mis? Yr oedd hynny'n golygu eu bod yn gorfod apwyntio ac, weithiau, diswyddo o fewn 12 mis, ac felly mai ychydig o gyfraniad oedd y gweithwyr hynny'n gallu ei wneud.

gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, ond rwyf yn siŵr y gallwch fy nghywiro am hynny. Mae hwn yn ddim ond un o'r miloedd lawer o ddogfennau sy'n cyrraedd eich desg. Felly, pa ddulliau sydd ar waith, fel bod yr holl dystiolaeth, yn enwedig y dystiolaeth ystyrllon a phwysig a ddarperir gan y sefydliadau allanol hyn, yn cael ei hasesu'n briodol cyn y gwneir penderfyniadau ynghylch y gyllideb a pholisi?

Jane Hutt: Mae hwnnw'n ffactor pwysig o ran y ffordd rydym yn pennu ein cyllidebau. Mae cyfle o ran y gyllideb ddrafft i graffu mewn pwyllgorau ac ymgynghori â'n partneriaid, yn enwedig yn y trydydd sector. Fel y gwyddoch, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein hasesiad effaith cydraddoldeb o'r gyllideb ddrafft ar 8 Chwefror. Digwyddodd hynny o ganlyniad i ystyriaeth ac ymgynghori helaeth ar effaith cynigion y gyllideb, yn enwedig ar bobl sy'n agored i niwed, ac o ganlyniad i sicrhau bod hybu cydraddoldeb yn cael ei ystyried ar ddechrau'r broses o wneud ein penderfyniadau cyllidebol. Datblygwyd y gwaith o lunio polisi cynhwysol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae hwnnw wedi helpu gyda'n gwaith o ddarparu asesiad effaith cydraddoldeb. Cafodd hynny effaith benodol ar y modd y mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r holl Weinidogion sydd â phortffolios gwasanaethau cyhoeddus wedi ystyried yr effaith ar bethau fel gwasanaethau iechyd meddwl a'r trydydd sector o ran darparu'r gwasanaethau hynny.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, would you agree that one of the great successes of the National Assembly for Wales, and, indeed, of the Welsh Government, is the way in which the third sector has been included and the way in which the Government has succeeded in collaborating with it? Do you agree that one of the most important things that has happened is ensuring that the contracts of voluntary organisations, to a great extent, now extend over three years, given that, in the past, they found it very difficult to work on the basis of 12-month contracts? That meant that they had to recruit and, sometimes, dismiss, staff within 12 months, and therefore those workers could make very little contribution.

Jane Hutt: Our voluntary sector partnership scheme is unique and pioneering, and the third sector partnership council meets regularly. Part of the scheme is that all third sector organisations, sectorally, can and do meet Ministers to discuss their concerns. That has had an impact on the budget-setting process. Indeed, the engagement with the voluntary sector has extended to my efficiency and innovation board, on which the Wales Council for Voluntary Action sits. It is a partnership that is delivering for the people of Wales, and it is a partnership in relation to which the voluntary sector has very much signed up to our objectives for the delivery of services. The approach that we have taken in our budget setting, through equality impact assessments, and the decisions that we have made to protect public services and to ensure that we did not hit our local government services in the way in which the Welsh Conservatives would have done, has meant that we have not been in the position of having to slash funding to local government, as we would have been had the Welsh Conservatives had the opportunity to take forward their so-called alternative budget. That would have had an impact on the third sector, which is very dependent on local government in relation to its priorities.

Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

5. Chris Franks: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1349(BB)*

Jane Hutt: The UK Government's spending review resulted in the worst budget settlement for the Assembly Government since devolution. There is no doubt that it is a difficult settlement, but we are determined to deliver high-quality public services with the resources that are available to us.

Chris Franks: Minister, could you indicate which capital projects in Rhondda Cynon Taf, the Vale of Glamorgan and Cardiff have been delayed because of the comprehensive spending review? Could you also provide an

Jane Hutt: Mae ein cynllun sector gwirfoddol yn bartneriaeth unigryw ac arloesol, ac mae'r cyngor partneriaeth trydydd sector yn cwrdd yn rheolaidd. Rhan o'r cynllun yw bod yr holl sefydliadau trydydd sector, yn sectoraidd, yn gallu cwrdd â Gweinidogion i drafod eu pryderon, a'u bod yn gwneud hynny. Effeithiodd hynny ar y broses o bennu'r gyllideb. Yn wir, mae'r gwaith o ymgysylltu â'r sector gwirfoddol wedi ymestyn i fy mwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, y mae'r Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol yn rhan ohono. Mae hon yn bartneriaeth sy'n cyflawni ar gyfer pobl Cymru, ac mae'n bartneriaeth y mae'r sector gwirfoddol wedi ymrwymo'n gadarn iawn i'w hamcanion ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae ein dull gweithredu wrth bennu'r gyllideb, drwy'r asesiadau effaith cydraddoldeb, a'r penderfyniadau a wnaethom i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau nad oeddem effeithio'n andwyol ar ein gwasanaethau llywodraeth leol fel y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig wedi'i wneud, wedi golygu na fuom mewn sefyllfa i orfod torri cyllid i lywodraeth leol, fel y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ei wneud pe baent wedi cael y cyfle i ddatblygu eu cyllideb amgen fondigrybwyll. Byddai hynny wedi effeithio ar y trydydd sector, sy'n ddibynnol iawn ar lywodraeth leol o ran ei flaenoriaethau.

The Comprehensive Spending Review

5. Chris Franks: *Will the Minister make a statement on the impact of the Comprehensive Spending Review on the Welsh Assembly Government's budget. OAQ(3)1349(BB)*

Jane Hutt: Arweiniodd adolygiad o wariant Llywodraeth y DU at y setliad cyllideb gwaethaf i Lywodraeth y Cynulliad ers datganoli. Yn sicr, mae'n setliad anodd, ond rydym yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Chris Franks: Weinidog, a allech ddweud pa brosiectau cyfalaf yn Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Chaerdydd a ohiriwyd oherwydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant? A allech hefyd roi'r wybodaeth

update on your talks to ensure fair funding for Wales? What progress has been made with the Government at Westminster regarding end-of-year flexibility and the housing revenue grant?

Jane Hutt: I refer you to the written statement that the First Minister, the Deputy First Minister and I published yesterday. It gives the detail of our capital spending plans for 2011-12, and shows where the Assembly Government is funding specific projects directly. I also refer you to annex B, which lists those that will be delayed or re-profiled. I have answered questions already on progress with regard to the discussions with the UK coalition Government on our expectations for fair funding. Indeed, I have paid tribute to the statement that was made by the Chancellor when he gave us hope that we could get on with the job. I met Danny Alexander, Chief Secretary to the Treasury, in January, after he appeared before the Finance Committee. As a result of that meeting, meetings between our officials have commenced. There has already been one official-level meeting, and there is another planned to look at the Holtham floor. I am hopeful that I will have a meeting before the end of this Assembly with the Chief Secretary to the Treasury in order to assess progress.

Regarding the housing revenue account subsidy, work is being done to support the Deputy Minister for Housing and Regeneration on this issue. We have had official-level discussions, and a proposal on the way forward is being considered at Treasury level.

Angela Burns: Minister, given that members of the Government are always saying how dreadful the new capital spending limits are, following the CSR, did the Government consider withdrawing some of the £1.3 billion of capital funds currently due to be spent in 2011 under various portfolios and putting it back into the centrally retained capital fund so that it could be spent in a more strategic and effective way in order to get better value for the Welsh pound? Also, who sits on the centrally retained capital

ddiweddaraf am eich trafodaethau ynghylch sicrhau bod cyllid teg i Gymru? Pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r Llywodraeth yn San Steffan ynghylch hyblygrwydd diwedd blwyddyn a'r grant refeniw tai?

Jane Hutt: Fe'ch cyfeiraf at y datganiad ysgrifenedig y cyhoeddodd y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog a minnau ddoe. Mae'n rhoi manylion am ein cynlluniau gwariant cyfalaf am 2011-12, ac yn dangos lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu prosiectau penodol yn uniongyrchol. Fe'ch cyfeiraf hefyd at atodiad B, sy'n rhestru cynlluniau y bydd oedi yn eu cylch neu y byddant yn cael eu hail-broffilio. Rwyf wedi ateb cwestiynau eisoes ar y cynnydd a wnaed yn y trafodaethau â Llywodraeth glymblaid y DU ar ein disgwyliadau o ran ariannu teg. Yn wir, rwyf wedi talu teyrnged i'r datganiad a wnaethpwyd gan y Canghellor pan roddodd obaith i ni y gallem fwrw ymlaen â'r gwaith. Cwrddais â Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, ym mis Ionawr, ar ôl iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, mae cyfarfodydd rhwng ein swyddogion wedi dechrau. Eisoes bu un cyfarfod ar lefel swyddogion, a bwriedir cynnal un arall i edrych ar y llawr Holtham. Gobeithio y byddaf yn cynnal cyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys cyn diwedd y Cynulliad hwn, er mwyn asesu cynnydd.

O ran y cymhorthdal cyfrif refeniw tai, mae gwaith yn cael ei wneud i gefnogi'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio ar y mater hwn. Rydym wedi cael trafodaeth ar lefel swyddogion, ac mae cynnig o ran y ffordd ymlaen yn cael ei ystyried ar lefel y Trysorlys.

Angela Burns: Weinidog, o gofio bod aelodau o'r Llywodraeth bob amser yn dweud pa mor ofnadwy yw'r terfynau gwariant cyfalaf newydd, yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, a wnaeth y Llywodraeth ystyried tynnu'n ôl rhywfaint o'r £1.3 biliwn o gyllid cyfalaf sydd i fod i gael ei wario yn 2011 o dan bortffolios amrywiol a'i roi yn ôl yn y gronfa gyfalaf, a gedwir yn ganolog, fel y byddai modd ei wario mewn ffordd fwy strategol ac effeithiol er mwyn cael gwell gwerth am y bunt yng

fund, and who, ultimately, makes the decisions on where the money in that fund goes?

Jane Hutt: I was expecting to get some of these questions in the Finance Committee meeting this morning. However, this is another opportunity to ask them. As a result of a 40 per cent reduction in our capital spend from the UK coalition Government, with a cut of 25 per cent scheduled for next year, we have had a very difficult budget-setting process with regard to capital. We decided to retain some funding centrally: £50 million this year, and £50 million for each of the three years of the spending review, starting from 1 April. You will also know that I have managed to enhance that figure by £57 million next year; hence, our statement yesterday regarding the additional £105 million in capital funds.

Angela, I do not believe that you or anyone else in this Chamber would want to see the projects that were announced yesterday suddenly scrapped and the funds pulled back into the centrally retained capital fund. As was discussed in committee this morning, this is an important issue in terms of having a strategic grip on the development of a national infrastructure. Portfolio Ministers have been planning their capital programmes for some time. You will know that the twenty-first century schools programme is a partnership with local government, and there is a partnership board that approves priorities in terms of recommendations on what goes forward. Regarding the centrally retained capital fund, proposals were made by portfolio Ministers. The evidence was considered at official-level meetings chaired by Michael Hearty, the director general of my department, against the criteria that we set in respect of the CRC fund. Then, the officials considered their recommendations, based on value for money, business case, strategic intent, and the likelihood of mitigating the impact of cuts on the capital programme, protecting the vulnerable and helping the construction industry. Those considerations all fed through to the recommendations that were submitted to the budget planning committee, and they resulted in the announcement that we made yesterday.

Nghymru? Hefyd, pwy sy'n gwarchod y gronfa gyfalaf a gedwir yn ganolog, a phwy, yn y pen draw, sy'n penderfynu ble mae'r arian yn y gronfa honno'n mynd?

Jane Hutt: Roeddwn yn disgwyl cael rhai o'r cwestiynau hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid y bore yma. Fodd bynnag, dyma gyfle arall i'w gofyn. O ganlyniad i ostyngiad o 40 y cant yn ein gwariant cyfalaf gan Lywodraeth glymblaid y DU, a' bwriad i dorri 25 y cant y flwyddyn nesaf, cawsom broses pennu cyllideb anodd iawn o ran cyfalaf. Rydym wedi penderfynu cadw peth arian yn ganolog: £50 miliwn eleni, a £50 miliwn ar gyfer pob un o'r tair blynedd o gyfnod yr adolygiad o wariant, gan ddechrau o 1 Ebrill. Byddwch hefyd yn gwybod fy mod wedi llwyddo i wella'r ffigur hwnnw o £57 miliwn y flwyddyn nesaf; felly, dyna yw sail ein datganiad ddoe ynghylch y £105 miliwn ychwanegol mewn cronfeydd cyfalaf.

Angela, nid wyf yn credu y byddech chi nag unrhyw un arall yn y Siambr hon am weld y prosiectau a gyhoeddwyd ddoe yn cael eu dileu'n sydyn, a bod yr arian yn mynd yn ôl i'r gronfa gyfalaf a gedwir yn ganolog. Fel y trafodwyd yn y pwyllgor y bore yma, mae hwn yn fater pwysig o ran cael gafaél strategol ar y gwaith o ddatblygu seilwaith cenedlaethol. Bu'r Gweinidogion Portffolio yn cynllunio eu rhaglenni cyfalaf ers peth amser. Gwyddoch fod rhaglen yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer ysgolion yn bartneriaeth gyda llywodraeth leol, ac mae bwrdd partneriaeth, sy'n cymeradwyo blaenoriaethau o ran argymhellion ar yr hyn sy'n cael ei weithredu. O ran y gronfa gyfalaf a gedwir yn ganolog, gwnaed cynigion gan y Gweinidogion portffolio. Ystyriwyd y dystiolaeth mewn cyfarfodydd rhwng swyddogion, a-gadeiriwyd gan Michael Hearty, y cyfarwyddwr cyffredinol yn fy adran, yn ôl y meini prawf a bennwyd gennym mewn cysylltiad â'r gronfa CRC. Yna, ystyriodd swyddogion eu hargymhellion, ar sail gwerth am arian, achos busnes, bwriad strategol, a'r tebygolrwydd bod modd lliniaru effaith y toriadau ar y rhaglen gyfalaf, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a helpu'r diwydiant adeiladu. Roedd yr ystyriaethau hynny i gyd yn cyfrannu at yr argymhellion a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar gynllunio'r gyllideb, ac wedi arwain at y

I think that the process is robust and strategic, and it is against a backdrop of a 40 per cent cut in our capital programme.

Rhodri Morgan: Apropos of the answers that you just gave to Angela Burns and Chris Franks on the question of how to extract the last shilling from the Welsh pound at a time of severe cutbacks in capital spending, and the excellent announcement that you have made on how you managed to lever an extra £100 million to be spent next year and the year after, I commend that approach. I also wish to commend one particular project, on top of the good news about the hundreds of projects in the health field that will go ahead in the Cardiff area, such as phase 2 of the children's hospital and the linear accelerators at Felindre. I refer to a long-awaited project where the tender envelope for the successful building company is being opened about now, I think. The severe autism centre at the Bishop of Llandaff Church in Wales High School is worth £5.5 million to the building industry but is of incalculable value to the families of the 42 children who will be able to attend it. It follows a line whereby you produce a better service at a lower cost, because the alternative for those children with severe autism is frequently out-of-county placement. So, it will save money, as well as avoiding the trauma and other problems that are involved when children have to be separated from their families and sent well away from Cardiff. I commend her for approving that scheme.

2.00 p.m.

Jane Hutt: Thank you. That scheme was being planned when I was the Minister for education. Now, the current Minister for education, as we have said, has had to consider which projects were ready to go forward against a constrained budget settlement. Now, Rhodri Morgan has been able to tell us—fresh from contact with the school and, I am sure, the authority—that the contract is being signed this afternoon. Not only will that provide an autistic unit, which we embrace in the autism plan, it will also provide jobs in the construction industry.

cyhoeddiad a wnaethom ddoe. Credaf fod y broses yn gadarn ac yn strategol, ac fe'i cynhaliwyd mewn sefyllfa o doriadau o 40 y cant yn ein rhaglen gyfalaf.

Rhodri Morgan: Wrth sôn am yr atebion yr ydych newydd eu rhoi i Angela Burns a Chris Franks o ran sut i gael y swllt olaf o'r bunt Gymreig mewn cyfnod o doriadau difrifol mewn gwariant cyfalaf, a'r cyhoeddiad rhagorol a wnaethpwyd gennych ar sut y gwnaethoch lwyddo i ddenu

£100 miliwn yn ychwanegol i'w wario'r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn, cymeradwyaf y dull gweithredu hwnnw. Hoffwn hefyd ganmol un prosiect penodol, yn ychwanegol at y newyddion da am y cannoedd o brosiectau ym maes iechyd a ddatblygir yn ardal Caerdydd, fel ail gam yr ysbyty plant a'r cyflymwyr llinellol yn Felindre. Cyfeiriaf at brosiect hirdisgwylidig lle yr agorir yr amlen tendr y funud hon bron, fe gredaf, ar gyfer y cwmni adeiladu llwyddiannus. Mae'r ganolfan awtistiaeth ddifrifol yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru yn werth £5.5 miliwn i'r diwydiant adeiladu, ond mae'n amhrisiadwy i deuluoedd y 42 o blant a fydd yn gallu ei mynychu. Mae'n dilyn trywydd lle rydych yn darparu gwasanaeth gwell am gost is, gan mai'r dewis amgen i'r plant hynny sydd ag awtistiaeth ddifrifol yn aml yw lleoliad tu allan i'r sir. Felly, bydd yn arbed arian, yn ogystal ag osgoi'r trawma a'r problemau cysylltiedig eraill pan fydd plant yn gorfod cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a'u hanfon ymhell i ffwrdd o Gaerdydd. Rwyf yn ei chanmol am gymeradwyo'r cynllun hwnnw.

Jane Hutt: Diolch yn fawr. Roedd y cynllun hwnnw yn yr arfaeth pan roeddwn yn Weinidog dros addysg. Bellach, mae'r Gweinidog addysg presennol, fel y dywedasom, wedi gorfod ystyried pa brosiectau a oedd yn barod i'w cyflwyno yn wyneb setliad cyllideb cyfyngedig. Bellach, mae Rhodri Morgan wedi gallu dweud wrthym—yn syth ar ôl cyswllt â'r ysgol ac, mae'n siŵr, yr awdurdod—bod y contract yn cael ei lofnodi y prynhawn yma. Bydd hyn nid yn unig yn darparu uned awtistig, yr ydym yn ei groesawu yn y cynllun

Every pound that I announced yesterday relates to more than one job in the construction industry. That is our responsibility in taking this forward. Today, we have seen the headlines about the huge extra pot for roads, the NHS and small business schemes. That is Wales's response to our capital statement yesterday.

Dyranriad Cyllideb i Bortffolio'r Economi a Thrafnidiaeth

6. Darren Millar: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyranriad cyffredinol y gyllideb i'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth. OAQ(3)1335(BB)*

Jane Hutt: That is what we have just been discussing, Darren. Included in the Assembly Government's final budget for 2011-12 is an allocation of over £841 million for the economy and transport portfolio.

Darren Millar: Thank you for that response. You will be aware that we have recently seen some damning figures showing that parts of west Wales and the Valleys are poorer and falling further behind the rest of the United Kingdom. They are even falling behind parts of Europe such as Bulgaria and Portugal in terms of their GDP per head. Today sees the publication of a manufacturing strategy by the Wales manufacturing forum, which is welcome, but we have yet to see a manufacturing strategy from your Government. Such a strategy would not cost a great deal to publish; it would simply set out a vision for manufacturing in Wales. When will we see a manufacturing strategy from your Government? What are you going to do to take advantage of the European aid that will now be available as a result of your party's failure in Government to deliver the much-improved prosperity that our country so desperately needs?

Jane Hutt: I am glad that you welcome the strategy from the manufacturing forum, which is a key partner with the Welsh Assembly Government. It is working with us and playing a lead role, particularly in

awtistiaeth, ond hefyd yn creu swyddi yn y diwydiant adeiladu. Mae bob punt a gyhoeddais ddoe yn cyfateb i fwy nag un swydd yn y diwydiant adeiladu. Dyna ein cyfrifoldeb wrth fwrw ymlaen â hyn. Heddiw, gwelsom y penawdau am y gronfa ychwanegol enfawr ar gyfer ffyrdd, y GIG a chynlluniau busnes bach. Dyna yw ymateb Cymru i'n datganiad cyfalaf ddoe.

Budget Allocation for the Economy and Transport Portfolio

6. Darren Millar: *Will the Minister make a statement regarding the overall budget allocation for the Economy and Transport portfolio. OAQ(3)1335(BB)*

Jane Hutt: Dyna'r hyn rydym newydd ei drafod, Darren. Yn gynnwysedig yng nghyllideb derfynol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12 mae dyranriad o dros £841 miliwn ar gyfer y portffolio economi a thrafnidiaeth.

Darren Millar: Diolch am yr ymateb hwnnw. Gwyddoch ein bod wedi gweld rhai ffigurau damniol yn ddiweddar sy'n dangos bod rhannau o orllewin Cymru a'r Cymoedd yn dlotach ac yn syrthio ymhellach y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig. Maent hyd yn oed yn syrthio y tu ôl i rannau o Ewrop megis Bwlgaria a Phortiwgal yn nhermau eu CMC y pen. Mae strategaeth gweithgynhyrchu gan fforwm gweithgynhyrchu Cymru yn cael ei gyhoeddi heddiw, sydd i'w groesawu, ond rydym eto i weld strategaeth gweithgynhyrchu gan eich Llywodraeth. Ni fyddai strategaeth o'r fath yn costio llawer iawn i'w gyhoeddi; dim ond gosod gweledigaeth ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru y byddai. Pryd y gwelwn strategaeth gweithgynhyrchu gan eich Llywodraeth? Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i fanteisio ar y cymorth Ewropeaidd a fydd yn awr ar gael o ganlyniad i fethiant eich plaid mewn Llywodraeth i ddarparu'r ffyniant llawer gwell sydd ei angen mor daer ar ein gwlad?

Jane Hutt: Rwyf yn falch eich bod yn croesawu'r strategaeth gan y fforwm gweithgynhyrchu, sydd yn bartner allweddol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n gweithio gyda ni ac yn chwarae rôl arweiniol,

relation to 'Economic Renewal: a new direction'. To answer your question, we need to recognise the investment that we are making in the economy and transport. I am sure that you will be pleased to see the investment that is being made in transport, particularly in your part of the world, as a result of our capital spending programme, which was announced yesterday.

Last week, First Minister Carwyn Jones, the Deputy First Minister and I met with representatives from the private sector. The First Minister chaired the economic council and we had the private sector around the table. The Confederation of British Industry, the Federation of Small Businesses, the manufacturing forum and the Wales Trades Union Congress, our social partners, were all involved. We discussed progress in tackling issues in relation to procurement, our difficult budget settlement and the economic renewal programme. In this Government, we work in partnership with the private sector to deliver economic renewal. We lever in the European structural funds, which we were denied by the former Tory Government. We managed to take control, thank goodness, back in 1997 and through the setting up of the Assembly in 1999.

Gareth Jones: Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod buddsoddi yn yr amrediad llawn o wasanaethau trafndiaeth modern, seilwaith a band eang yn ffordd sicr ac amlwg o dyfu economi Cymru, ac yn rhywbeth y byddai gogledd Cymru'n enwedig yn elwa arno? A ydych hefyd yn cytuno bod toriadau llym i wario cyhoeddus, cyfalaf a refeniw fel ei gilydd, ac effaith ddinistriol y toriadau mewn budd-daliadau a orfordir ar gymunedau lleol gan y Ceidwadwyr a'u cyfeillion y Democratiaid Rhyddfrydol yn debygol o gael effaith gwbl groes, sef diweithdra a diflastod i bobl a chrebachu yn economi'r gogledd?

Jane Hutt: Diolch yn fawr, Gareth. Clearly, you will have been pleased with the statement made yesterday, not just on a regional level, but at a national level, on spending plans for 2011-12, particularly in relation to ICT and next generation

yn enwedig mewn perthynas ag 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. I ateb eich cwestiwn, mae angen inni gydnabod y buddsoddiad a wnaethom yn y maes economi a thrafnidiaeth. Rwyf yn siŵr y byddwch yn falch o weld y buddsoddiad sy'n cael ei wneud mewn trafndiaeth, yn enwedig yn eich rhan chi o'r byd, o ganlyniad i'n rhaglen gwariant cyfalaf, a gyhoeddwyd ddoe.

Yr wythnos diwethaf, cyfarfu Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a minnau â chynrychiolwyr o'r sector preifat. Cadeiriodd y Prif Weinidog y cyngor economaidd ac roedd gennym y sector preifat o amgylch y bwrdd. Roedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach, y fforwm gweithgynhyrchu a Chyngres Undebau Llafur Cymru, ein partneriaid cymdeithasol, i gyd yn cymryd rhan. Buom yn trafod cynnydd wrth fynd i'r afael â materion mewn perthynas â chaffael, ein setliad cyllideb anodd a rhaglen adnewyddu'r economi. Yn y Llywodraeth hon, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i adnewyddu'r economi. Rydym yn denu cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, a wrthodwyd gan Lywodraeth flaenorol y Torïaid. Gwnaethom lwyddo i gymryd rheolaeth, diolch byth, nôl yn 1997 a thrwy sefydlu'r Cynulliad yn 1999.

Gareth Jones: Minister, do you agree with me that investing in the full range of modern transport, infrastructure and broadband services is a certain and obvious means of growing the economy in Wales, and something that north Wales in particular would benefit from? Do you also agree that drastic cuts to public spending, capital and revenue alike, and the devastating impact the welfare cuts inflicted on local communities by the Conservatives and their Liberal Democrat friends, would bring about the very opposite, namely unemployment and misery for people and a shrinking economy in the north?

Jane Hutt: Diolch yn fawr, Gareth. Yn amlwg, byddwch wedi bod yn falch o glywed y datganiad a wnaed ddoe, nid yn unig ar lefel ranbarthol, ond ar lefel genedlaethol, ar gynlluniau gwario ar gyfer 2011-12, yn enwedig mewn perthynas â TGCh a band

broadband, the broadband support scheme and Fibrespeed, the Pwllheli infrastructure and so on. These are all important announcements on investment that we have managed to lever in. We have the hand we have been dealt, which is as a result of the UK Government cutting too fast and too far, risking the fragile economic recovery, as we see from the shrinking of the economy. Looking now at the huge extra burdens on families as a result of tax increases and benefit cuts, amounting to £700 per household, with the greatest impact on the poorest at a time when real incomes are falling anyway and economic recovery is fragile, we are playing a responsible part economically and socially to address those needs, providing a shield for business as well as the most vulnerable people in our communities.

Peter Black: Minister, you talk about the cuts that the Government is facing as though they have absolutely nothing to do with you, when we all know that the £800 billion debt and the £109 billion structural deficit that your previous Labour Government left behind are the direct reasons why the cuts have to be made. We also know that the Welsh Government is cutting less than Alistair Darling had planned, so you are crying crocodile tears in this regard. We all know that Wales is struggling economically and that there is a need to create more jobs and particularly high-quality jobs in Wales. Given that you rejected the Welsh Liberal Democrat budget proposal to create an innovation fund to try to pump-prime those sorts of jobs and research and bring that research to fruition as businesses that will create jobs and wealth, what plans do you have to deal with the need for innovation in our economy?

Jane Hutt: I thought that you had a bit more integrity, Peter, than to join your friends over the way on this well-worn and ill-judged mantra about why we are in this situation. I was quite interested to hear that even Mervyn King, the Governor of the Bank of England, was prepared to start laying the blame at the doors of the bankers. As you know absolutely, Peter, the financial crisis was a global downturn, and the fact is that it was a

eang y genhedlaeth nesaf, y cynllun cymorth band eang Fibrespeed, seilwaith Pwllheli ac yn y blaen. Mae'r rhain i gyd yn gyhoeddiadau pwysig ar fuddsoddi rydym wedi llwyddo i'w denu. Mae gennym yr arian sydd gennym, sy'n ganlyniad i Lywodraeth y DU yn torri'n rhy gyflym ac yn rhy bell, yn peryglu'r adferiad economaidd bregus, fel y gwelwn o grebachu'r economi. Gan edrych yn awr ar y beichiau enfawr ychwanegol ar deuluoedd o ganlyniad i gynnydd yn y dreth a thoriadau budd-daliadau, sy'n cyfateb i £700 y cartref, gyda'r effaith fwyaf ar y tlotaf ar adeg pan fo incwm go iawn yn disgyn beth bynnag ac adferiad economaidd yn fregus, rydym yn chwarae rhan gyfrifol yn economaidd ac yn gymdeithasol i fynd i'r afael â'r anghenion hynny, gan ofalu am fusnesau yn ogystal â'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Peter Black: Weinidog, rydych yn siarad am y toriadau y mae'r Llywodraeth yn eu hwynebu fel pe na bai'n unrhyw beth o gwbl i'w wneud â chi, pan rydym i gyd yn gwybod mai'r ddyled o £800 biliwn a'r diffyg strwythurol o £109 biliwn a adawodd eich Llywodraeth Lafur flaenorol ar ôl yw'r rhesymau uniongyrchol pam roedd yn rhaid gwneud y toriadau. Gwyddom hefyd fod Llywodraeth Cymru yn torri llai nag y cynlluniodd Alistair Darling, felly mae'ch dagrau yn ffug yn hyn o beth. Rydym i gyd yn gwybod bod Cymru yn cael trafferth yn economaidd a bod angen creu mwy o swyddi ac yn enwedig swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru. O ystyried eich bod wedi gwrthod cynnig cyllideb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i greu cronfa arloesi i geisio ysgogi'r mathau hynny o swyddi ac ymchwil a dod â'r ymchwil i ffrwyth fel busnesau a fydd yn creu swyddi a chyfoeth, pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â'r angen am arloesedd yn ein heconomi?

Jane Hutt: Tybiais fod gennych fwy o anrhydedd, Peter, nag i ymuno â'ch ffrindiau dros y ffordd ar y bregeth dreuliedig ac annoeth hon ynghylch pam rydym yn y sefyllfa hon. Roedd gennyf ddiddordeb garw clywed bod hyd yn oed Mervyn King, Llywodraethwr Banc Lloegr, yn barod i ddechrau rhoi'r bai ar y bancwyr. Fel y gwyddoch yn iawn, Peter, roedd yr argyfwng ariannol yn ddirywiad byd-eang, a'r ffaith

Labour Government, led by Gordon Brown and Alistair Darling, that had to move in and bail out the banks and rescue the economy. We played a role in Wales in terms of fiscal stimulus, but we do not hear that phrase. That is what we are doing now, but we do not hear that from your side of the Chamber or your Government, which is having this impact on hard-working families and creating a danger to our businesses.

On your question about how we can support growth and innovation, you will have been pleased to see in my statement yesterday that we are making available an additional £15 million for the new growth capital fund, which will provide the initial investment for a fund to support small and medium-sized enterprises, pending the outcome of our market testing exercise. That has been welcomed by business and will clearly have a huge impact in terms of stimulus for SME development.

Peter Black: Minister, I am not going to take any lessons on integrity from a deficit denier and a member of a party that failed to regulate the banks and ran a deficit in the economy every year since 2001. Nor am I going to take lessons on the economy from a Minister who thinks that the drop in growth in the last quarter was due to cuts when, in fact, public expenditure went up in that quarter. On your fund for SMEs, I very much welcome the support that you are giving to them. However, that does not address my question, which is how you get research carried out in our universities into patent and then into business to create jobs. You are helping small and medium-sized companies but you are not doing anything to get innovative and high-quality jobs coming out of our universities, to create wealth in our economy. What do you have planned for that?

Jane Hutt: That is being driven by the Minister for education in relation to higher education policy and investment. We are protecting investment, while ensuring that there is reform in the higher education sector. Their role is in relation to third mission

amdani yw mai Llywodraeth Lafur, a arweiniwyd gan Gordon Brown ac Alistair Darling, a fu'n rhaid gweithredu i achub y banciau a'r economi. Gwnaethom chwarae rhan yng Nghymru o ran ysgogiad ariannol, ond nid ydym yn clywed yr ymadrodd hwnnw. Dyna'r hyn rydym yn ei wneud yn awr, ond nid ydym yn clywed hynny o'ch ochr chi o'r Siambr na'ch Llywodraeth, sydd yn cael yr effaith hon ar deuluoedd sy'n gweithio'n galed a chreu perygl i'n busnesau.

O ran eich cwestiwn am sut y gallwn gefnogi twf ac arloesedd, byddwch wedi bod yn falch o weld yn fy natganiad ddoe ein bod yn rhyddhau swm ychwanegol o £15 miliwn ar gyfer y gronfa gyfalaf twf newydd, a fydd yn darparu'r buddsoddiad cychwynnol ar gyfer cronfa i gefnogi mentrau bach a chanolig eu maint, yn amodol ar ganlyniad ein hymarfer profi'r farchnad. Cafodd hynny ei groesawu gan fusnes a bydd yn amlwg yn cael effaith enfawr o ran symbyliad ar gyfer datblygu mentrau bach a chanolig.

Peter Black: Weinidog, nid wyf yn mynd i gymryd unrhyw wersi ar anrhydedd gan rywun sy'n gwadu'r rheswm dros y diffyg ac sy'n aelod o blaid a fethodd â rheoleiddio'r banciau ac a redodd ddiffyg yn yr economi bob blwyddyn ers 2001. Nid wyf ychwaith am gymryd gwersi ar yr economi gan Weinidog sy'n credu mai'r rheswm dros y gostyngiad mewn twf yn y chwarter diwethaf oedd toriadau pan aeth gwariant cyhoeddus, mewn gwirionedd, i fyny yn y chwarter hwnnw. O ran eich cronfa i fusnesau bach a chanolig, rwyf yn croesawu'n fawr y cymorth rydych yn ei roi iddynt. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ateb fy nghwestiwn, sef sut byddwch yn cael ymchwil a wnaed yn ein prifysgolion yn batent ac yna i mewn i fusnes i greu swyddi. Rydych yn helpu cwmnïau bach a chanolig, ond nid ydych yn gwneud dim i gael swyddi arloesol o ansawdd uchel allan o'n prifysgolion, i greu cyfoeth yn ein heconomi. Beth ydych chi wedi ei gynllunio ar gyfer hynny?

Jane Hutt: Mae hynny'n cael ei yrru gan y Gweinidog dros addysg mewn perthynas â pholisi a buddsoddi mewn addysg uwch. Rydym yn gwarchod buddsoddiad, tra'n sicrhau bod diwygio yn y sector addysg uwch. Mae eu rôl mewn perthynas â

activities, research and development and innovation, and the role of the Deputy Minister for Science, Innovation and Skills demonstrates that we are working at the forefront and ensuring that higher education is up to the task of delivering highly-skilled graduates and research opportunities with the private sector.

Mick Bates: Minister, I was pleased to hear you describe your engagement with the private sector, to discuss transport in particular and to provide fiscal stimulus to help that sector. For many years, I have campaigned for a Newtown bypass, and I am delighted by the progress that has been made, although the current traffic chaos is appalling. The Minister for transport recently advised that the national transport plan is being reviewed following the UK Government's comprehensive spending review, and that he would make a statement to describe what rescheduling of the transport plan would be necessary. Have you discussed with him when the statement will be given on his budget priorities? It is vital that we have an announcement before the end of term so that the Members who have campaigned for so long on many transport issues can examine any rescheduling that will be necessary.

Jane Hutt: I draw your attention, Mick, to the statement that was made yesterday by the First Minister, the Deputy First Minister and me. It also relates to trunk road schemes, local road schemes and rail schemes in relation to the economy and transport portfolio, and not only those that are going ahead, but those that are being delayed, deferred or reprofiled. You have to recognise the pressures that we are under from the cuts in the capital programme, as a result of the UK Government's cuts. I am sure that you would applaud the fact that we have levered an additional £57 million out of this year's spend and made the difficult decision of moving revenue to capital, because we knew from the scrutiny of our budget that pressures on capital were going to be considerable. As regards our infrastructure, the national transport plan is vital for the future economic renewal of Wales.

gweithgareddau trydedd genhadaeth, ymchwil a datblygu ac arloesi, ac mae rôl y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau yn dangos ein bod yn gweithio ar flaen y gad ac yn sicrhau bod addysg uwch yn gallu cyflawni'r dasg o ddarparu graddedigion hynod fedrus a chyfleoedd ymchwil gyda'r sector preifat.

Mick Bates: Weinidog, rwyf yn falch o'ch clywed yn disgrifio eich ymgysylltiad â'r sector preifat, i drafod trafndiaeth yn arbennig, ac i ddarparu ysgogiad ariannol i helpu'r sector hwnnw. Am flynyddoedd lawer, bûm yn ymgyrchu am ffordd osgoi y Drenewydd, ac rwy'n falch iawn o'r cynnydd a wnaed, er bod yr anhrefn traffig ar hyn o bryd yn warthus. Dywedodd y Gweinidog dros drafndiaeth yn ddiweddar fod y cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn cael ei adolygu yn dilyn adolygiad gwariant cynhwysfawr Llywodraeth y DU, ac y byddai'n gwneud datganiad i ddisgrifio pa ad-drefnu o'r cynllun trafndiaeth fyddai ei angen. A ydych wedi trafod ag ef pryd y bydd y datganiad yn cael ei roi ar ei flaenoriaethau cyllidebol? Mae'n hanfodol ein bod yn cael cyhoeddiad cyn diwedd y tymor er mwyn i'r Aelodau a fu'n ymgyrchu cyhyd ar faterion cludiant archwilio unrhyw aildrefnu a fydd ei angen.

Jane Hutt: Tynnaf eich sylw, Mick, at y datganiad a wnaethpwyd ddoe gan y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog a minnau. Mae hefyd yn berthnasol i gynlluniau cefnffyrdd, cynlluniau ffyrdd lleol a chynlluniau rheilffordd mewn perthynas â'r portffolio economi a thrafndiaeth, ac nid dim ond i'r rhai sy'n mynd yn eu blaen, ond y rhai sy'n cael eu gohirio neu eu hailbroffilio. Mae'n rhaid i chi gydnabod y pwysau sydd arnom yn sgîl y toriadau i'r rhaglen gyfalaf, o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Rwyf yn siŵr y byddech yn cymeradwyo'r ffaith ein bod wedi denu £57 miliwn ychwanegol allan o wariant eleni ac wedi gwneud y penderfyniad anodd i symud refeniw i gyfalaf, oherwydd gwyddom o graffu ar ein cyllideb y bydd y pwysau ar gyfalaf yn sylweddol. O ran ein seilwaith, mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn hanfodol i adnewyddu economaidd Cymru yn y dyfodol.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7, **The Presiding Officer:** Question 7,

OAQ(3)1330(BB), yn ôl.

Cynnydd mewn TAW a'r Gyllideb

8. Sandy Mewies: *Beth yw asesiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o effaith y cynnydd mewn TAW ar ei chyllideb. OAQ(3)1332(BB)*

Jane Hutt: I regularly monitor the financial pressures faced by all parts of the public sector in Wales. The VAT increase is an additional pressure that many organisations across Wales—both public and private—will face over the coming years, at a time when budgets are at their tightest.

Sandy Mewies: The VAT increase imposed by the Conservative-led Government—ably supported by their fall guys, the Liberal Democrats—has had a big impact on businesses and hard-working families. It has put almost 3p on the price of a litre of petrol. Welsh Labour has launched a campaign to call on the Conservative chancellor, George Osborne, to reverse the Government's rise on fuel by using the bank levy. Like me, would you agree with the First Minister, Carwyn Jones, that the VAT increase will put further pressure on Welsh businesses and families, and should be reversed immediately?

Jane Hutt: I do, and I believe that this is the subject of a debate in Westminster today, in which Labour is calling for this to be removed. The VAT increase that was imposed at the start of the year has meant an extra 3p on a litre of unleaded fuel. The price of fuel is of great concern, given that pump prices are at a record, all-time high. That has a considerable impact on businesses, as well as on the cost of living for families. Therefore, we join Carwyn Jones, the First Minister, and our colleagues in Westminster in calling for the VAT increase to be removed from fuel.

2.15 p.m.

Mark Isherwood: The previous Labour Chancellor, Alistair Darling admitted that he wanted to put up VAT, and did not rule out a

OAQ(3)1330(BB), has been withdrawn.

VAT Increases and the Budget

8. Sandy Mewies: *What assessment has the Welsh Assembly Government made of the effect of the VAT increase on its budget. OAQ(3)1332(BB)*

Jane Hutt: Rwyf yn monitro'r pwysau ariannol y mae pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu. Mae'r cynnydd mewn TAW yn bwysau ychwanegol y bydd llawer o gyrff ar draws Cymru—cyrff cyhoeddus a phreifat—yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ar adeg pan fo cyllidebau ar eu mwyaf caeth.

Sandy Mewies: Mae'r cynnydd mewn TAW a osodwyd gan y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr—wedi eu cefnogi yn abl gan eu bychod dihangol, y Democratiaid Rhyddfrydol—wedi cael effaith fawr ar fusnesau a theuluoedd sy'n gweithio'n galed. Mae wedi ychwanegu bron 3c at bris litr o betrol. Lansiodd Llafur Cymru ymgyrch i alw ar ganghellor y Ceidwadwyr, George Osborne, i wydroi cynnydd y Llywodraeth ar danwydd drwy ddefnyddio'r ardoll banc. Fel fi, a fydddech yn cytuno â'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, y bydd y cynnydd mewn TAW yn rhoi pwysau ychwanegol ar fusnesau a theuluoedd Cymru, ac y dylid ei wydroi ar unwaith?

Jane Hutt: Rwyf yn cytuno, ac rwyf yn credu bod hyn yn destun dadl yn San Steffan heddiw, lle mae Llafur yn galw am ddileu hyn. Mae'r cynnydd mewn TAW a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi golygu 3c ychwanegol ar litr o danwydd di-blwm. Mae pris tanwydd yn peri pryder mawr, o ystyried bod prisiau pwmp ar eu uchaf erioed. Mae hynny'n cael effaith sylweddol ar fusnesau, yn ogystal ag ar gost byw i deuluoedd. Felly, rydym yn ymuno â Carwyn Jones, y Prif Weinidog, a'n cydweithwyr yn San Steffan i alw bod y cynnydd mewn TAW yn cael ei dynnu o danwydd.

Mark Isherwood: Cyfaddefodd y Canghellor Llafur blaenorol, Alistair Darling, ei fod yn dymuno codi TAW, ac ni

rise at the last general election. In fact, reduced rates, zero rates and exemptions are not affected by the increase, and the reduced rate of 5 per cent will continue to apply to supplies of gas and electricity. An increase will raise £13 billion that would otherwise have to be found from cuts or other tax rises, possibly even from an additional national insurance rise, which would be a tax on jobs. Therefore, if you did not implement this, as Alistair Darling said that he might, where would you find the £13 billion? What would you cut or which additional taxes would you impose? Unless you can give an alternative, you have zero credibility.

Jane Hutt: Your Chancellor put up VAT on fuel, as well as driving the deepest cuts to public spending plans in a generation. I can tell you where we would find the funding—we would find it from the tax on banks that we need to implement. That is what Ed Miliband will be saying today in Westminster. It is a simple matter of fairness. At a time when everyone else is facing tax rises, it is completely wrong for this Tory-led Government to choose to cut taxes for the banks. The banks who have helped to create the financial crisis must now help to return our economy to growth. If you are not hearing people on the doorstep complaining about bankers' bonuses, I can assure you that you are out of touch with public opinion. That will provide the revenue that we need.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 9, OAQ(3)1345(BB), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Dyraniad y Gyllideb i'r Portffolio Materion Gwledig

10. David Lloyd: *Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynglyn â dyraniad y gyllideb i'r portffolio Materion Gwledig. OAQ(3)1333(BB)*

Jane Hutt: Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidogion sy'n

ddiystyriodd cynnydd yn yr etholiad cyffredinol diwethaf. Mewn gwirionedd, nid yw cyfraddau gostyngedig, cyfraddau sero ac eithriadau yn cael eu heffeithio gan y cynnydd, a bydd y gyfradd ostyngol o 5 y cant yn parhau i fod yn gymwys i gyflenwadau nwy a thrydan. Bydd cynnydd yn codi £13 biliwn a fyddai fel arall yn gorfod dod o doriadau neu gynnydd arall yn y dreth, o bosibl hyd yn oed o gynnydd yswiriant gwladol ychwanegol, a fyddai'n dreth ar swyddi. Felly, os na wnaethoch chi weithredu hyn, fel y dywedodd Alistair Darling y gallai wneud, lle byddech yn dod o hyd i'r £13 biliwn? Beth fyddech chi'n ei dorri neu pa drethi ychwanegol y byddech chi'n eu gosod? Oni bai y gallwch roi dewis arall, nid oes gennych unrhyw hygredd.

Jane Hutt: Mae eich Canghellor wedi cynyddu TAW ar danwydd, yn ogystal â gyrru'r toriadau dyfnaf i gynlluniau gwariant cyhoeddus mewn cenhedlaeth. Gallaf ddweud wrthyfch ble y byddem yn dod o hyd i'r arian—byddem yn ei ganfod o'r dreth ar fanciau y mae angen inni ei gweithredu. Dyna beth fydd Ed Miliband yn ei ddweud heddiw yn San Steffan. Mae'n fater syml o degwch. Ar adeg pan fydd pawb arall yn wynebu cynnydd mewn treth, mae'n hollol anghywir i'r Llywodraeth hon a arweinir gan y Torïaid ddewis torri trethi i'r banciau. Mae'n rhaid i'r banciau, sydd wedi helpu i greu yr argyfwng ariannol, helpu yn awr i ddychwelyd ein heconomi i dwf. Os nad ydych yn clywed pobl ar garreg y drws yn cwyno am daliadau bonws bancwyr, gallaf eich sicrhau nad oes gennych syniad beth yw barn y cyhoedd. Bydd hynny'n darparu'r refeniw sydd ei angen arnom.

The Presiding Officer: Question 9, OAQ(3)1345(BB), has been transferred for written answer.

Budget Allocation for the Rural Affairs Portfolio

10. David Lloyd: *What recent discussions has the Minister had regarding the budget allocation for the Rural Affairs portfolio. OAQ(3)1333(BB)*

Jane Hutt: I have regular discussions with my ministerial colleagues about budget

cydweithio â mi ar faterion sy'n gysylltiedig â'r gyllideb. issues.

David Lloyd: Further to that, will you make a statement on the future of the common agricultural policy single payment scheme? What discussions have you had as Minister with your counterparts in the Westminster Government regarding this scheme? Does the Minister also agree that the Westminster Government's total disregard for rural areas of Wales is shocking, and that the CAP single payment scheme provides £280 million annually in direct payments, and therefore provides a lifeline for the rural industry? Perhaps the Conservatives here who were enthusiastic backers of this plan should remember that.

Jane Hutt: The Minister for Rural Affairs has responded to the European Commission consultation on behalf of Wales and jointly with Ministers from the other devolved administrations to set our views on CAP reform. We also debated this important issue in the Chamber on 1 March. There is no question that the rural economy has been hit hard by the decisions of the UK coalition Government.

David Melding: To bring you back to your duties as Minister for Business and Budget, it is important when we look at the delivery of public services in rural areas that we have a robust system that calculates for the costs of rurality. There has been concern in all the Assemblies in which I have served—particularly the last one—that when you have looked at how formulae are calculated, it has not been done effectively enough, and there is certainly no confidence among many people living in rural areas that this Assembly Government is responding to their acute concerns.

Jane Hutt: This is factored into funding formulae, as it should be. I would also draw your attention to the various studies that have taken place over the past four years, particularly on the impact on services, not just in terms of the economy but also the study that was done on the health service in terms of impacts on rural communities. As a result, decisions have been made in terms of funding allocation.

David Lloyd: Yn ychwanegol at hynny, a wnewch chi ddatganiad ar ddyfodol cynllun taliad sengl y polisi amaethyddol cyffredin? Pa drafodaethau a gawsoch fel Gweinidog â'ch cymheiriaid yn Llywodraeth San Steffan am y cynllun hwn? A yw'r Gweinidog hefyd yn cytuno bod diystyriaeth lwy'r Llywodraeth San Steffan o ardaloedd gwledig yng Nghymru yn syfrdanol, a bod y taliad sengl PAC yn darparu £280 miliwn bob blwyddyn mewn taliadau uniongyrchol, ac felly'n darparu cymorth allweddol i'r diwydiant gwledig? Efallai y dylai'r Ceidwadwyr yma a oedd yn gefnogwyr brwd o'r cynllun hwn gofio hynny.

Jane Hutt: Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar ran Cymru ac ar y cyd â Gweinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i roi ein barn ar ddiwygio PAC. Rydym hefyd yn trafod y mater pwysig hwn yn y Siambr ar 1 Mawrth. Nid oes amheuaeth bod yr economi wledig wedi ei tharo'n galed gan benderfyniadau Llywodraeth glymblaid y DU.

David Melding: I ddychwelyd at eich dyletswyddau fel Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, mae'n bwysig pan fyddwn yn edrych ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig fod gennym system gadarn sy'n cyfrifo am gostau natur wledig. Bu pryder ym mhob Cynulliad y bûm yn gwasanaethu ynnddynt—yn enwedig yr un olaf—pan rydych wedi edrych ar sut mae fformiwlâu yn cael eu cyfrifo, ni chafodd ei wneud yn ddigon effeithiol, ac yn sicr nid oes hyder ymysg llawer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig bod Llywodraeth y Cynulliad hwn yn ymateb i'w pryderon dwys.

Jane Hutt: Mae hwn yn cael ei gynnwys mewn fformiwlâu cyllido, fel y dylai fod. Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at y gwahanol astudiaethau a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf, yn enwedig ar yr effaith ar wasanaethau, nid yn unig o ran yr economi, ond hefyd yr astudiaeth a wnaed ar y gwasanaeth iechyd o ran effeithiau ar gymunedau gwledig. O ganlyniad, mae penderfyniadau wedi eu gwneud o ran

dyrannu cyllid.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

Blaenoriaethau ar gyfer Chwaraeon

1. Mohammad Asghar: *A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yn yr wythnosau sy'n weddill yn y Cynulliad hwn. OAQ(3)1448(HER)*

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): We will continue to work closely with key partners and build on our achievements linked to our 'One Wales' commitments. We will also continue to drive forward the specific actions contained within 'Creating an Active Wales'.

Mohammad Ashgar: Thank you very much for that answer, Minister. It gave me enormous pleasure to attend an Asda-sponsored event earlier today, where I met a number of aspiring Welsh athletes. I am pleased that the Asda athletics programme has provided around £50,000-worth of investment for Welsh athletes through SportsAid Wales since 2008. Will you join me in congratulating the work that this programme does alongside the charity SportAid? How can the Assembly Government engage in initiatives like this to ensure that our young, aspiring Welsh athletes have the maximum possible support in the future?

Alun Ffred Jones: I am happy to endorse any scheme that supports Welsh athletes or Welsh sportspeople. The Welsh Assembly Government supports action in this field through Sport Wales and its powerful vision for the future of sport in Wales in terms of including as many young people as possible in sporting activity and in achieving excellence on the international stage.

Y Cynllun Nofio am Ddim Cenedlaethol

2. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog*

Priorities for Sport

1. Mohammad Asghar: *Will the Minister confirm his priorities for sport for the remaining weeks of this Assembly. OAQ(3)1448(HER)*

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol ac yn adeiladu ar ein llwyddiannau yn gysylltiedig â'n hymrwymiaidau yn 'Cymru'n Un'. Byddwn hefyd yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu penodol a geir yn 'Creu Cymru Egnïol'.

Mohammad Ashgar: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rhoddodd bleser mawr i mi fynychu digwyddiad a noddwyd gan Asda yn gynharach heddiw, lle cyfarfûm â nifer o athletwyr uchelgeisiol o Gymru. Rwy'n falch bod rhaglen athletau Asda wedi darparu gwerth tua £50,000 o fuddsoddiad i athletwyr Cymru drwy SportsAid Cymru ers 2008. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y gwaith y mae'r rhaglen hon yn ei gwneud ochr yn ochr ag elusen SportAid? Sut gall Llywodraeth y Cynulliad gymryd rhan mewn mentrau fel hyn er mwyn sicrhau bod ein hathletwyr ifanc, uchelgeisiol o Gymru yn cael y cymorth mwyaf posibl yn y dyfodol?

Alun Ffred Jones: Rwy'n hapus i gefnogi unrhyw gynllun sy'n cefnogi athletwyr neu bobl yn y maes chwaraeon o Gymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi camau yn y maes hwn drwy Chwaraeon Cymru a'i weledigaeth bwerus ar gyfer dyfodol chwaraeon yng Nghymru o ran cynnwys cymaint o bobl ifanc â phosibl mewn gweithgarwch chwaraeon a rhagori ar y llwyfan rhyngwladol.

The National Free Swimming Initiative

2. William Graham: *Will the Minister*

ddweud faint o bobl bob dydd ar gyfartaledd sy'n defnyddio'r Cynllun Nofio am Ddim Cenedlaethol. OAQ(3)1454(HER)

Alun Ffred Jones: There are two elements to the free swimming initiative—16 years and under and 60 plus—which operate under different arrangements. Based on annual participation rates for each scheme during 2009-10, the free swims per day average for 16 years and younger is 1,819, and for 60 plus it is 1,942.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You will be well aware of the worrying statistic that almost three out of five people in Wales are considered to be overweight, with one in five being clinically obese. The problem is, sadly, most prevalent in Wales in Torfaen, which, last November, was awarded £1.5 million by the British Heart Foundation to tackle heart disease in the borough. Have you directed your department to work more closely in partnership with the local health board and community groups to maximise the uptake of the free swimming initiative?

Alun Ffred Jones: Being able to swim is a fundamental physical skill and teaching that is the direction that the free swimming initiative has now taken. Over 664,000 free public swims and structured activities were taken up by those aged 16 and under. The new focus for the under-16 scheme is to ensure that every child is able to swim by the time that they are 11 years old. The fact that they are able to swim will then, hopefully, lead them to do that later in life. The new focus of the free swimming initiative is the right one, and we are engaged with a number of partners in promoting a healthy, active life in Wales, and that work is being carried forward at the moment.

Rhodri Glyn Thomas: Fel yr ydych chi a William Graham wedi dweud, mae'r cynllun hwn yn eithriadol o bwysig o ran iechyd cyffredinol pobl hŷn a phobl dan 16 mlwydd oed. Manteisiodd dros 40,000 o bobl ifanc a phlant yn sir Gaerfyrddin ar y cynllun hwn a

indicate the daily average number of people who use the National Free Swimming Initiative. OAQ(3)1454(HER)

Alun Ffred Jones: Mae dwy elfen i'r fenter nofio am ddim—16 oed ac iau a 60 oed a throsodd—sy'n gweithredu o dan drefniadau gwahanol. Yn seiliedig ar gyfraddau cyfranogi blynyddol ar gyfer pob cynllun yn ystod 2009-10, y sesiynau nofio am ddim bob dydd ar gyfartaledd ar gyfer rhai 16 oed ac iau yw 1,819, ac 1,942 ar gyfer rhai 60 oed a throsodd.

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol iawn o'r ystadegyn sy'n peri pryder bod bron i dri o bob pump o bobl yng Nghymru yn cael eu hystyried yn rhy drwm, gydag un o bob pump yn glinigol ordew. Mae'r broblem, yn anffodus, yn fwyaf cyffredin yng Nghymru yn Nhor-faen, a gafodd, fis Tachwedd diwethaf, £1.5 miliwn gan Sefydliad Prydeinig y Galon i fynd i'r afael â chlefyd y galon yn y fwrdeistref. A ydych wedi cyfeirio eich adran i weithio'n agosach mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol a grwpiau cymunedol i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl yn manteisio ar y fenter nofio am ddim?

Alun Ffred Jones: Mae gallu nofio yn sgil corfforol sylfaenol ac addysgu hynny yw'r cyfeiriad y mae'r fenter nofio am ddim wedi ei gymryd yn awr. Manteisiwyd ar dros 664,000 o sesiynau nofio cyhoeddus am ddim a gweithgareddau strwythuredig gan y rhai sy'n 16 oed ac iau. Y ffocws newydd i'r cynllun o dan 16 oed yw sicrhau bod pob plentyn yn gallu nofio erbyn eu bod yn 11 mlwydd oed. Bydd y ffaith eu bod yn gallu nofio wedyn, gobeithio, yn eu harwain at wneud hynny yn nes ymlaen mewn bywyd. Ffocws newydd y fenter nofio am ddim yw'r un cywir, ac rydym yn ymwneud â nifer o bartneriaid yn hyrwyddo bywyd iach ac egniol yng Nghymru, ac mae'r gwaith hwnnw'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Rhodri Glyn Thomas: As you and William Graham have said, this scheme is extremely important in terms of the general health of older people and people under 16 years of age. Over 40,000 young people and children in Carmarthenshire took advantage of this

dros 42,000 o bobl dros 60 mlwydd oed—nid wyf yn siŵr os ydych chi'n gallu bod yn rhan o'r cynllun hwn yn bersonol, Weinidog, ond mae'n siŵr eich bod yn agos ati os nad ydych eisoes yn gallu. A fyddech yn annog pawb, yn bobl ifanc a phlant neu oedolion dros 60 mlwydd oed, i fanteisio ar y cynllun eithriadol o bwysig hwn a sicrhau ei fod yn parhau i gyfrannu at iechyd corfforol a chyffredinol yng Nghymru?

Alun Ffred Jones: Byddwn, wrth gwrs. Diolch am eich ymholiad ynglŷn â'm hoed, fe gaf air gyda chi nes ymlaen. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, mae'n un o nifer o bethau sy'n cael eu cynnwys o fewn strategaeth gyffredinol y Llywodraeth i gael mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Yr ymdrech ddiweddaraf o dan y strategaeth newydd yw cael pobl i gynyddu eu gweithgarwch gan un diwrnod; hynny yw, ychwanegu diwrnod o weithgarwch bob wythnos. Y pryder mwyaf yw'r drydedd rhan o'r boblogaeth a ystyrir yn amharod i gymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgaredd corfforol. Fodd bynnag, mae'r cynllun arbennig hwn wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r ffocws newydd er mwyn cael pobl i ddysgu sgil nofio yn un eithriadol o bwysig, nid yn unig o ran iechyd, ond hefyd o ran diogelwch, wrth iddynt dyfu a datblygu.

Llyfelloedd Cymru

3. Christine Chapman: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi llyfrgelloedd Cymru. OAQ(3)1446(HER)*

Alun Ffred Jones: The Welsh Government has invested a record £10.5 million in the modernisation and development of library services in Wales under its Libraries for Life programme. The initiatives include major capital refurbishments, investment in the online resources that are available, staff development and campaigns to promote the use of libraries.

Christine Chapman: That is welcome information. I am sure that you will agree that libraries serve a vital function in our communities. However, to protect local libraries, people must use them. I welcome

scheme, as did over 42,000 people over 60 years of age—I am not sure whether you fit into that category, Minister, but it is likely that you are close to qualifying even if you do not already. Would you encourage everyone, whether they are young people and children or adults over the age of 60, to take advantage of this exceptionally important scheme and to ensure that it continues to contribute to the physical and general health of the population of Wales?

Alun Ffred Jones: Yes, indeed. Thank you for your inquiry regarding my age; I shall have a word with you later on. [*Laughter.*] However, it is one of many activities that are included within the Government's general strategy to get more young people to take part in physical activity. The latest campaign as part of the new strategy is to get people to increase their activity by a day; that is, by adding one day of activity a week. The greatest cause for concern is the third of the population that is considered to be unwilling to take part in any kind of physical activity. However, this particular scheme has been a success and the new focus on teaching people how to swim is exceptionally important, not only for their health but also for their safety, as they grow and develop.

Welsh Libraries

3. Christine Chapman: *What is the Welsh Assembly Government doing to support Welsh libraries. OAQ(3)1446(HER)*

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £10.5 miliwn, y swm uchaf erioed, yn y broses o foderneiddio a datblygu gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru o dan ei rhaglen Llyfrgelloedd am Oes. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys adnewyddu cyfalaf mawr, buddsoddi yn yr adnoddau ar-lein sydd ar gael, datblygu staff ac ymgyrchoedd i hyrwyddo'r defnydd o lyfrgelloedd.

Christine Chapman: Mae hynny'n wybodaeth i'w chroesawu. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod llyfrgelloedd yn cyflawni swyddogaeth hanfodol yn ein cymunedau. Fodd bynnag, i ddiogelu

recent figures, which show that 15 million people visited Welsh libraries last year. Councils and libraries also need to offer innovative ways to engage with their communities. Will you therefore join me in applauding Rhondda Cynon Taf County Borough Council's approach, which offers a range of half-term activities for children, and regular events for adults, including coffee mornings and poetry readings? Do you also agree that this approach is vital to ensure that people continue to support their local libraries?

Alun Ffred Jones: Yes, indeed. I was recently involved in launching the Fancy That library campaign at Monmouth library, where I was able to see at first hand the wide range of activities that take place in libraries. Rhondda Cynon Taf council has been successful in attracting money in order to modernise its library service. I applaud all the work that you have mentioned. There is apparently a new facility for teenagers in Treorchy library, which involved local schoolchildren in its design and development; that is an example of good practice in our libraries. The success of this scheme is borne out by the increase in the number of people visiting Welsh libraries, and in the number of active borrowers, which has shown an increase of over 5 per cent over the previous years.

Darren Millar: I listened carefully to that answer. I believe that everyone in the Chamber would agree with you that libraries are an important facility for many communities across Wales. Those communities include Kinmel Bay and Cerrigydrudion in my constituency. You will be aware that both those libraries are threatened with closure by Conwy County Borough Council, yet they both serve relatively deprived communities, with lower than average educational standards. Given the impact of a library on someone's education, and their ability to access books that they would not be able to afford otherwise—as well as other services, such as access to the internet, and so on—what

llyfrgelloedd lleol, rhaid i bobl eu defnyddio. Rwy'n croesawu ffigurau diweddar, sy'n dangos bod 15 miliwn o bobl wedi ymweld â llyfrgelloedd Cymru y llynedd. Mae angen i gynghorau a llyfrgelloedd hefyd gynnig ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'u cymunedau. Felly, a wnewch ymuno â mi i ganmol dull gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n cynnig ystod o weithgareddau hanner tymor i blant, a digwyddiadau rheolaidd i oedolion, gan gynnwys boreau coffi a darlleniadau barddoniaeth? A ydych hefyd yn cytuno bod y dull hwn yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn dal i gefnogi eu llyfrgelloedd lleol?

Alun Ffred Jones: Ydw, yn wir. Cymerais ran yn ddiweddar wrth lansio'r ymgyrch 'Fancy That' yn llyfrgell Trefynwy, lle'r oeddwn yn gallu gweld dros fy hun yr amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n digwydd mewn llyfrgelloedd. Bu cyngor Rhondda Cynon Taf yn llwyddiannus wrth ddeni arian i foderneiddio ei wasanaeth llyfrgell. Rwy'n cymeradwyo'r holl waith rydych wedi sôn amdano. Ymddengys fod cyfleuster newydd ar gyfer plant yn eu harddegau yn llyfrgell Treorci, a oedd yn cynnwys plant ysgol lleol yn y gwaith o'i dylunio a datblygu, sy'n enghraifft o arfer da yn ein llyfrgelloedd. Mae llwyddiant y cynllun hwn wedi ei gadarnhau gan y cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â llyfrgelloedd Cymru, ac yn nifer y benthyccwyr gweithredol, sydd wedi dangos cynnydd o dros 5 y cant dros y blyneddau blaenorol.

Darren Millar: Gwrandewais yn astud ar yr ateb hwnnw. Credaf y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno â chi bod llyfrgelloedd yn gyfleuster pwysig i lawer o gymunedau ledled Cymru. Mae'r cymunedau hynny yn cynnwys Bae Cinmel a Cherrigydrudion yn fy etholaeth. Gwyddoch fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bygwth cau'r llyfrgelloedd hynny, ond maent yn gwasanaethu cymunedau cymharol ddifreintiedig, gyda safonau addysgol is na'r cyfartaledd. O ystyried effaith llyfrgell ar addysg rhywun, a'u gallu i gael gafael ar lyfrau na fyddent yn gallu eu fforddio fel arall—yn ogystal â gwasanaethau eraill, megis mynediad i'r rhyngwrwd, ac yn y blaen—pa arweiniad allwch ei roi i

guidance are you able to give to local authorities that are considering closing library facilities, to ensure that it will not impact those people who are most disadvantaged and who benefit the most from their local libraries if libraries close in their communities?

Alun Ffred Jones: My officials are in constant communication with local authorities. This is the case with Conwy council, where I do not believe that the final plans have been put out for consultation. The Welsh public library standards are currently out for consultation. I encourage you to respond to those standards, through that consultation, before 31 March, if I remember correctly. The Welsh public library standards do not specifically refer to libraries in deprived areas, but we suggest in those standards that it is important that local authorities maintain a comprehensive service throughout the area that they serve.

2.30 p.m.

Rhodri Morgan: A wnewch chi agor trafodaeth â Chyngor Caerdydd i ddwyn perswâd arno i wrthdroi'r penderfyniad i ganslo'r prosiect i adeiladu llyfrgell newydd ym mhentre fy mebyd—nid bod hynny'n cyfrif am ddim—yn Radyr a Threforgan, yn enwedig gan fod hanner y gost ar gael oddi wrth y sector breifat drwy gytundeb 106? Nid yw ychwaith wedi ymgynghori o gwbl cyn canslo'r prosiect gyda chyngor plwyf Radyr a Threforgan.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn hapus iawn i ofyn i fy swyddogion edrych ar yr achos arbennig hwnnw. Fel y dywedais, mae fy swyddogion mewn cyswllt cyson gyda swyddogion mewn cynghorau ar draws Cymru sy'n ystyried newid patrwm eu darpariaeth. Rhaid cydnabod bod newid patrwm mewn llyfrgelloedd wedi digwydd ar draws y blynyddoedd, ond mae'n bwysig eu bod yn talu sylw i'r safonau sydd eisoes mewn lle a'r safonau newydd a fydd yn dod i rym yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Yr wyf yn hapus felly i argymhell i'm swyddogion i wneud cysylltiad, yn enwedig os oes arian ychwanegol ar gael er mwyn

awdurdodau lleol sy'n ystyried cau cyfleusterau llyfrgell, er mwyn sicrhau na fydd yn effeithio ar y bobl hynny sydd fwyaf difreintiedig ac sy'n elwa fwyaf ar eu llyfrgelloedd lleol os yw llyfrgelloedd yn cau yn eu cymunedau?

Alun Ffred Jones: Mae fy swyddogion mewn cysylltiad parhaus ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn wir yn achos cyngor Conwy, lle nad wyf yn tybio bod y cynlluniau terfynol wedi cael eu cyflwyno i ymgynghori arnynt. Ymgynghori ar safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd allan. Rwy'n eich annog i ymateb i'r safonau hynny, drwy'r ymgynghoriad hwnnw, cyn 31 Mawrth, os cofiaf yn iawn. Nid yw safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn cyfeirio'n benodol at lyfrgelloedd mewn ardaloedd difreintiedig, ond rydym yn awgrymu yn y safonau hynny ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cynnal gwasanaeth cynhwysfawr ar draws yr ardal y maent yn ei gwasanaethu.

Rhodri Morgan: Would you start a discussion with Cardiff Council to persuade it to reverse the decision to cancel the project to build a new library in the village of my birth—not that that counts for anything—in Radyr and Morganstown, especially given that half of the cost is available from the private sector through a section 106 agreement? It has also not consulted Radyr and Morganstown parish council before cancelling the project.

Alun Ffred Jones: I am happy to ask my officials to look at this particular case. As I said, my officials are in regular contact with officials in councils across Wales that are considering changing their pattern of provision. It must be recognised that changes in the pattern of library provision have happened over the years, but it is important that they pay attention to the standards already in place and the new standards that will come into force during the coming year. I am happy therefore to suggest to my officials that they make contact, especially as there is additional money available to secure this valuable service which, if provided

sicrhau'r gwasanaeth gwerthfawr hwn sydd, o'i gyflwyno'n iawn, yn amlwg yn boblogaidd ac yn gallu bod yn galon i gymuned.

Jenny Randerson: Minister, before you send your officials off looking too hard, in the budget for Cardiff Council the week before last, approval was given for money for the refurbishment of Radyr library. The Labour Party voted against that, but the budget went through. My question relates to other issues connected with Cardiff's libraries. As you will probably know, five libraries have been fully refurbished and five have been rebuilt, including the award-winning Cardiff Central Library. The most recent addition to the suite of libraries in Cardiff has been the refurbished Cathays library. The figures for this beautiful Carnegie library, which had been allowed to fall into total disrepair some years ago, shows that the number of visits is up 84 per cent, the borrowing of children's books is up 39 per cent and that there is a 14 per cent increase in the use of IT equipment. I am sure you will join me in congratulating Cardiff Council on having such an ambitious programme. Do you agree that those figures show that the investment in libraries is important and crucial to us all, and, therefore, do you have any plans to review and update the library standards so that they keep ahead of developments in library use throughout Wales?

Alun Ffred Jones: I am happy to endorse the work that has gone on in Cardiff and elsewhere. The figures that you mentioned are in line with what very often happens immediately after a refurbishment. They tend to settle down a bit, but the fact is that there is progress and more people use the libraries. In terms of the library standards, the new set is out to consultation, and that consultation closes at the end of this month. During the four to five years that the standards will be in place, there will be an opportunity to review them in the light of changing circumstances. One stated aim of the standards is to protect library services from disproportionate resource reductions.

properly, is clearly popular and can be at the heart of the community.

Jenny Randerson: Weinidog, cyn i chi anfon eich swyddogion i ffwrdd i chwilio'n rhy galed, yn y gyllideb ar gyfer Cyngor Caerdydd yr wythnos cyn y ddiwethaf, cymeradwywyd arian i adnewyddu llyfrgell Radur. Pleidleisiodd y Blaid Lafur yn erbyn hynny, ond aeth y gyllideb drwyddo. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â materion eraill am lyfrgelloedd Caerdydd. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae pum llyfrgell wedi'u hadnewyddu'n llwyr a phump wedi eu hailadeiladu, gan gynnwys Llyfrgell Ganolog arobryn Caerdydd. Yr ychwanegiad diweddaraf i lyfrgelloedd yng Nghaerdydd fu llyfrgell Cathays ar ei newydd wedd. Mae'r ffigurau ar gyfer y llyfrgell Carnegie hyfryd hwn, a adawyd i fynd i gyflwr gwael iawn rai blynyddoedd yn ôl, yn dangos bod nifer yr ymweliadau wedi cynyddu 84 y cant, mae benthyca llyfrau plant wedi cynyddu 39 y cant ac mae cynnydd o 14 y cant yn y defnydd o offer TG. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i longyfarch Cyngor Caerdydd ar gael rhaglen mor uchelgeisiol. A gytunwch fod y ffigurau hynny'n dangos bod y buddsoddiad mewn llyfrgelloedd yn bwysig ac yn hanfodol i ni i gyd, ac, felly, a oes gennych unrhyw fwrriad i adolygu a diweddarau'r safonau llyfrgell fel eu bod yn cadw ar y blaen i ddatblygiadau yn nefnydd llyfrgelloedd ledled Cymru?

Alun Ffred Jones: Rwy'n hapus i gymeradwyo'r gwaith a aeth ymlaen yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill. Mae'r ffigurau a grybwyllwyd gennych yn unol â'r hyn sy'n aml iawn yn digwydd yn syth ar ôl gwaith adnewyddu. Maent yn tueddu i setlo i lawr ychydig, ond y ffaith yw bod cynnydd a mwy o bobl yn defnyddio'r llyfrgelloedd. O ran y safonau llyfrgelloedd, mae'r gyfres newydd yn destun ymgynghori, sy'n cau ar ddiwedd y mis hwn. Yn ystod y pedair i bum mlynedd y bydd y safonau yn eu lle, bydd cyfle i'w hadolygu yn sgîl amgylchiadau newidiol. Un o nodau'r safonau yw diogelu gwasanaethau llyfrgell rhag gostwng adnoddau yn anghymesur.

Gweithgareddau Chwaraeon

4. Christine Chapman: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu gweithgareddau chwaraeon. OAQ(3)1447(HER)*

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government's strategic document 'Creating an Active Wales' contains specific actions that we and our key partners will aim to deliver over the next five years to encourage people to participate more in sport and physical activity.

Christine Chapman: Thank you for your response, Minister. In many ways, getting people to take part in sporting activity may be the easy part. It is perhaps more difficult to persuade people to carry on with those activities. We need to ensure that people can access sporting activities, so I welcome the continued commitment to protect free swimming, and I noted your response to William Graham's question earlier. What else can we do to ensure that sport remains a constant to encourage healthy lifestyles, and, in particular, what more could be done to ensure that people retain that initial motivation and enthusiasm in order to promote good habits that last a lifetime?

Alun Ffred Jones: The £5 million that is spent on the 5x60 scheme that is aimed at secondary school pupils operates in the vast majority of schools throughout Wales. One of the stated aims is to engage young people who do not normally participate in the usual suspects of football, rugby, cricket, hockey, and so on. Officers involved in the 5x60 scheme aim to make links with local clubs so that there is continuity between what goes on in school, whether in structured lessons or otherwise, and what goes on outside, so that young people are encouraged to take part and enlist in those local clubs. There is an ongoing discussion between Sport Wales and the various national sporting bodies to ensure that they respond fully and see the potential here for grabbing young people and getting them involved. In a sense it is a pincer movement, and we need to persevere with this because there is, as we know, a drop-off

Sporting Activities

4. Christine Chapman: *What is the Welsh Assembly Government doing to promote sporting activities. OAQ(3)1447(HER)*

Alun Ffred Jones: Mae dogfen strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Creu Cymru Egniol' yn cynnwys camau penodol y byddwn ni a'n partneriaid allweddol yn anelu at eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf er mwyn annog pobl i gymryd mwy o ran mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Christine Chapman: Diolch am eich ymateb, Weinidog. Mewn sawl ffordd, efallai mai cael pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon yw'r rhan hawdd. Efallai ei bod yn fwy anodd darbwyllo pobl i ddal ati â'r gweithgareddau hynny. Mae angen inni sicrhau y gall pobl gael mynediad i weithgareddau chwaraeon, felly rwy'n croesawu'r ymrwymiad parhaus i ddiogelu nofio am ddim, a sylwais ar eich ymateb i gwestiwn William Graham yn gynharach. Beth arall allwn ni ei wneud i sicrhau bod chwaraeon yn parhau i fod yn elfen gyson er mwyn annog ffyrdd iach o fyw, ac, yn benodol, beth mwy y gellid ei wneud i sicrhau bod pobl yn cadw'r cymhelliant a'r brwdfrydedd cychwynnol hwnnw er mwyn hyrwyddo arferion da a fydd yn para am oes?

Alun Ffred Jones: Mae'r £5 miliwn a gaiff ei wario ar y cynllun 5x60 sy'n cael ei anelu at ddisgyblion ysgol uwchradd ar waith yn y rhan fwyaf o ysgolion ledled Cymru. Un o'r amcanion a nodwyd yw ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan yn y rhai arferol, fel pêl-droed, rygbi, criced, hoci, ac yn y blaen. Nod swyddogion sy'n ymwneud â'r cynllun 5x60 yw creu cysylltiadau â chlybiau lleol fel bod parhad rhwng yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, boed mewn gwersi strwythuredig neu fel arall, a'r hyn sy'n mynd ymlaen y tu allan, fel bod pobl ifanc yn cael eu hannog i gymryd rhan a chofrestru yn y clybiau lleol hynny. Mae trafodaeth barhaus rhwng Chwaraeon Cymru a'r cyrff chwaraeon cenedlaethol amrywiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn llawn ac yn gweld y potensial yma i rwydo pobl ifanc a'u cynnwys. Mewn ffordd, mae'n fudiad pinsiwrn, ac mae angen inni ddyfalbarhau â

in participation rates among youngsters aged 11 to 15, for reasons that you will know very well.

Nick Bourne: Good afternoon, Minister. I very much agree with the points that Chris Chapman made, but, looking at this from a slightly different angle, we have benefitted enormously from some massive projects such as the Ryder Cup, the FA Cup finals, and Six Nations games. I wanted to ask you about putting together a bid for the Commonwealth Games. They were last in Wales in 1958. I do not think that they were even called the Commonwealth Games then—it sounds rather strange, but I think that they were called the Empire Games. England had them in 2002, and Scotland is getting them in 2014. I appreciate that it takes some time to put a bid together, but there are enormous benefits in terms of wellbeing, as well as social, economic and national benefits. I appreciate that the lead-in time is long, but the economic circumstances of the UK and Wales will, hopefully, be looking better by the time this comes on stream. Is the Minister looking at this worthwhile idea that we have put forward?

Alun Ffred Jones: I have had one meeting with Cardiff Council, which is keen to make such a bid, but you are quite right that there would be a very long lead-in time. The cost of putting on the Commonwealth Games is very high. When the games came to Cardiff in 1958, all that was done was to adapt the old Cardiff Arms Park with a cinder track, and that was fine; I do not think that that would suffice these days, as cinder tracks are probably out. The cost to Scotland, as I understand it, is in excess of £500 million, and that is on top of work that has gone on in Glasgow in developing some of the facilities. Wales would have to think hard about going ahead with such a bid, because we would have to prepare all kinds of facilities. That is something for the future. I have asked Cardiff Council to prepare some sort of feasibility study to establish what facilities we have and what would need to be developed in order to make a credible bid for the games.

hyn oherwydd gwyddom fod lleihad mewn cyfraddau cyfranogiad ymhlith pobl ifanc rhwng 11 a 15 oed, am resymau y gwyddoch amdanynt yn dda.

Nick Bourne: Prynawn da, Weinidog. Rwy'n cytuno â'r pwyntiau a wnaeth Chris Chapman, ond, o edrych ar hyn o safbwynt ychydig yn wahanol, rydym wedi elwa'n fawr o rai prosiectau enfawr megis Cwpan Ryder, rowndiau terfynol Cwpan FA, a gemau'r Chwe Gwlad. Roeddwn am eich holi ynghylch llunio cais ar gyfer Gemau'r Gymanwlad. Roeddent yng Nghymru ddiwethaf yn 1958. Nid wyf yn credu eu bod yn cael eu galw'n Gemau'r Gymanwlad yr adeg honno hyd yn oed—mae'n swnio braidd yn rhyfedd, ond rwyf yn meddwl eu bod yn cael eu galw'n Gemau'r Ymerodraeth. Cafodd Lloegr nhw yn 2002, ac mae'r Alban yn eu cael yn 2014. Gwn yn iawn ei bod yn cymryd peth amser i roi cais at ei gilydd, ond mae manteision enfawr o ran lles, yn ogystal â manteision cymdeithasol, economaidd a chenedlaethol. Gwn fod yr amser tan eu cynnal yn hir, ond bydd amgylchiadau economaidd y DU a Chymru, gobeithio, yn edrych yn well erbyn yr amser y daw hyn i fod. A yw'r Gweinidog yn edrych ar y syniad gwerth chweil hwn yr ydym wedi'i gyflwyno?

Alun Ffred Jones: Cefais un cyfarfod â Chyngor Caerdydd, sy'n awyddus i wneud cais o'r fath, ond rydych yn llygad eich lle y byddai'n amser hir iawn cyn y daw i fod. Mae'r gost o gynnal Gemau'r Gymanwlad yn uchel iawn. Pan ddaeth y gemau i Gaerdydd yn 1958, y cyfan a wnaed oedd addasu hen Barc yr Arfau Caerdydd gyda thrac lludw, ac roedd hynny'n iawn; ni thyliaf y byddai hynny'n ddigon y dyddiau hyn, gan nad yw traciau lludw mewn defnydd bellach, mae'n debyg. Mae'r gost i'r Alban, fel y deallaf, yn fwy na £500 miliwn, ac mae hynny ar ben y gwaith a aeth ymlaen yn Glasgow i ddatblygu rhai o'r cyfleusterau. Byddai'n rhaid i Gymru feddwl yn galed am fwrw ymlaen â chais o'r fath, oherwydd byddai'n rhaid inni baratoi pob math o gyfleusterau. Mae hynny'n rhywbeth i'r dyfodol. Gofynnais i Gyngor Caerdydd baratoi rhyw fath o astudiaeth dichonoldeb i ganfod pa gyfleusterau sydd gennym a'r hyn y byddai angen ei ddatblygu i wneud cais credadwy ar gyfer y gemau.

Eleanor Burnham: Yn mynd yn ôl am eiliad i nofio, yr ydym yn cymeradwyo'r cynllun gwych hwn, wrth gwrs. Yr wyf yn trio fy ngorau i gadw'n iach drwy nofio, ac mae'n dda i ni i gyd yr wyf yn siŵr. Wrth edrych ar y niferoedd, sut yr ydych yn gallu mesur llywddiant y cynllun hwn os nad ydych yn gwybod os mai pobl newydd sy'n defnyddio'r cynllun, neu'r un bobl sy'n mynd bob wythnos? Byddwn yn meddwl bod un o'r agweddau pwysig ac egwyddorion sylfaenol yw sicrhau cynnydd yn y nifer o bobl sy'n defnyddio cyfleusterau nofio am ddim.

Alun Ffred Jones: Mae'r ffigyrau ar y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun wedi bod yn gyson ar hyd yr amser. Nid oes gennyf gwybodaeth heddiw ynglyn â'r nifer o bobl sy'n ddefnyddwyr cyson. Tybiaf fod canran uchel o'r 600,000 i 700,000 y cyfeiriais atynt yn y ddau gategori yn dod yn ôl yn gyson.

Felly, mae hynny'n bwynt digon teg, ond yr hyn sy'n bwysig o ran y rheini sydd o dan 16 oed yw y byddant yn newid yn gyson, oherwydd fe fyddant yn mynd yn hŷn. Mae ffocws y cynllun bellach ar ddysgu'r sgil o nofio i bobl cyn eu bod yn 11 oed. Wrth wneud hynny, cânt eu cyflwyno i weithgareddau dŵr neu weithgareddau sydd ar ymyl y pwll er mwyn ennyn eu diddordeb, oherwydd nid pawb sydd eisiau nofio i fyny ac i lawr y pwll drwy'r dydd.

Felly, mae'n bwysig ein bod yn amrywio'r gweithgareddau sydd ar gael, a dyna sy'n digwydd o dan y cynllun hwn. Caiff hyn ei gefnogi gan awdurdodau lleol, sydd, mewn gwirionedd, yn gwneud y gwaith, ac felly iddynt hwy mae'r diolch am lwyddiant y cynllun.

Blaenoriaethau ar gyfer Aberconwy

5. Gareth Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Aberconwy yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn. OAQ(3)1469(HER)*

Alun Ffred Jones: Yr wyf wedi ymrwymo i gyflawni fy addewidion 'Cymru'n Un' ar draws Aberconwy a'r gogledd yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau

Eleanor Burnham: To return to swimming for a second, we applaud this excellent scheme, of course. I try my best to keep fit by swimming, and I am sure that it is very good for us all. In looking at the numbers, how can you assess the success of this scheme if you do not know whether the people using the scheme are new to it, or whether the same people are going every week? I would think that one of the important aspects and fundamental principles would be to ensure an increase in the number of people who make use of free swimming facilities.

Alun Ffred Jones: The figures on the numbers taking advantage of the scheme have been consistent throughout. I do not have any information today regarding the number of people who are regular users. I would think that a considerable percentage of the 600,000 to 700,000 that I referred to in both categories come back regularly.

Therefore, that is a fair enough point, but what is important is that those who are under the age of 16 will change frequently, because they will get older. The focus of the scheme is now on teaching people the skill of swimming before they reach the age of 11. In doing that, they are introduced to water-based activities or pool-side activities in order to keep their interest, because not everyone wants to swim up and down the pool all day.

It is important, therefore, that we make a variety of activities available, and that is what is happening under this scheme. This is supported by local authorities, which, indeed, do the work, and therefore it is thanks to them that the scheme is a success.

Priorities for Aberconwy

5. Gareth Jones: *Will the Minister make a statement on his priorities for Aberconwy for the rest of this Assembly term. OAQ(3)1469(HER)*

Alun Ffred Jones: I am committed to fulfilling my 'One Wales' commitments across Aberconwy and north Wales generally. These include securing a thriving

dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg a chefnogi profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i bobl ac ymwelwyr yr ardal, yn ogystal â sicrhau bod cyllid y prosiect twristiaeth treftadaeth ar gael ar draws y rhanbarth.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae twristiaeth yn ddiwydiant hollbwysig yn Aberconwy, a chan ein bod yn dathlu Wythnos Twristiaeth Cymru yr wythnos hon, gyda digwyddiad pwysig i'r diwydiant wedi'i gynnal neithiwr yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gan Gynghrair Twristiaeth Cymru, a wnewch chi bwysleisio wrthym ba mor bwysig y mae twristiaeth wedi bod i ogledd Cymru ac i Aberconwy yn benodol dros y blynyddoedd diwethaf? Pa bethau ydych yn eu gwneud i gynyddu'r budd economaidd sy'n deillio o'r cyflogwr pwysig hwn yn etholaeth Aberconwy?

Alun Ffred Jones: Nid yw amser yn caniatáu imi sôn am bopeth, ond prif waith Croeso Cymru yw marchnata Cymru a denu pobl i Gymru, ac mae Aberconwy yn sicr wedi manteisio ar hynny. Bu imi ryddhau ffigurau am dwristiaeth golff yr wythnos hon a oedd yn dangos bod gwerth y dwristiaeth honno i ogledd Cymru yn £8 miliwn yn 2009 ac yn £10 miliwn yn 2010, sy'n gynydd sylweddol. Gwyddoch, felly, bod cyrsiau golff Conwy, Llandudno, Maesdu, Penmaenmawr a Chlwb Golff Gogledd Cymru yn Llandudno o fewn y clwstwr hwnnw sydd nid yn unig yn denu gornestau golff, ond hefyd yn denu ymwelwyr.

Rhaid cyfeirio hefyd at lwyddiant mawr Oriol Mostyn, sydd wedi derbyn arian ychwanegol yn diweddar ar gyfer datblygu. Ymwelodd 100,000 o bobl ag Oriol Mostyn yn ystod 2010. Ymysg y datblygiadau eraill i gefnogi'r diwydiant dwristiaeth mae ailwampio man croeso castell Conwy, sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rhagwelwn y bydd 0.25 miliwn o bobl yn ymweld â'r castell hwnnw erbyn 2014. Bydd pencampwriaeth redeg hefyd yn dod i Llandudno ddiwedd y mis hwn drwy gefnogaeth yr uned digwyddiadau mawr. Felly, dyna'r math o weithgarwch sy'n digwydd, o dan gefnogaeth gwahanol asiantaethau a'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod yr ymwelwyr yn cael profiadau cadarnhaol yn yr ardal.

future for the Welsh language, supporting high-quality cultural experiences for the people of and visitors to the area, as well as ensuring that heritage tourism project funding is made available across the region.

Gareth Jones: Thank you for that answer, Minister. Tourism is a vital industry in Aberconwy, and as we are celebrating Wales Tourism Week this week, with a major industry event held in the Wales Millennium Centre last night by the Wales Tourism Alliance, would you stress how important tourism has been to north Wales and to Aberconwy in particular in recent years? What are you doing to further increase the economic benefit that derives from this important employer in the Aberconwy constituency?

Alun Ffred Jones: Time does not permit me to cover everything, but the main work of Visit Wales is to market Wales and attract people to Wales, and Aberconwy has certainly taken advantage of that. Figures on golf tourism were released this week that show that the value of that tourism to north Wales was £8 million in 2009 and £10 million in 2010, which is a significant increase. You will know, therefore, that the golf courses in Conwy, Llandudno, Maesdu, Penmaenmawr and at North Wales Golf Club in Llandudno are within that cluster that not only attract golf competitions, but also attract visitors.

I must also refer to the major success of Oriol Mostyn, which has been given additional funding recently for development. One hundred thousand people visited Oriol Mostyn during 2010. Among the other developments to support the tourism industry are the revamping of the welcome point of Conwy castle, which is currently under way. We predict that there will be 0.25 million visitors to that castle by 2014. A running championship will come to Llandudno at the end of this month as a result of support from the major events unit. That is the kind of activity that is ongoing, as a result of support from various agencies and the Government, in order to ensure that visitors have positive experiences in the area.

Mark Isherwood: Gwrych castle near Abergele, which is not in Aberconwy but is in Conwy County Borough Council area, after a successful campaign by the Gwrych Castle Preservation Trust, has now been bought by Castell Developments Ltd, which has showed me its exciting plans for a world-class hotel, golfing centre and spa, among other things. However, that is all subject, of course, to planning consent from the local authority. We have in the past discussed ways that local authorities could be supported by the Welsh Government where unique planning applications apply to historic and heritage buildings. What action have you taken or can you take to support local authority planning departments when unusual planning applications relating to historic and heritage buildings are put before them?

Mark Isherwood: Mae castell Gwrych ger Abergele, nad yw yn Aberconwy ond yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar ôl ymgyrch lwyddiannus gan Ymddiriedolaeth Gwarchod Castell Gwrych, bellach wedi cael ei brynu gan Castell Developments Ltd, sydd wedi dangos ei gynlluniau cyffrous i mi ar gyfer gwesty o'r safon uchaf, canolfan golff a sba, ymysg pethau eraill. Fodd bynnag, mae hynny oll yn amodol, wrth gwrs, ar ganiatâd cynllunio gan yr awdurdod lleol. Rydym wedi trafod ffyrdd yn y gorffennol lle gallai awdurdodau lleol gael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru pan fydd ceisiadau cynllunio unigryw yn ymwneud ag adeiladau a threftadaeth hanesyddol. Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd neu y gallwch eu cymryd i gefnogi adrannau cynllunio awdurdod lleol pan fydd ceisiadau cynllunio anarferol sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol a threftadaeth yn cael eu rhoi ger eu bron?

Alun Ffred Jones: I would certainly not get involved in the planning application process itself, but my officials in Cadw would be more than happy to be involved, and I would be surprised if they had not already been involved, in discussions with the owners with regard to a planning application and what it would be advisable, or even permissible, to do with a structure such as Castell Gwrych. Perhaps it is not an iconic building, but as you rightly point out, it is certainly a striking building in a sensitive area, and my officials and Cadw would be available to discuss with the developers.

Alun Ffred Jones: Yn sicr, ni fyddwn am gymryd rhan yn y broses cais cynllunio ei hun, ond byddai fy swyddogion yn Cadw yn fwy na pharod i gymryd rhan, a byddwn yn synnu os nad ydynt eisoes wedi cymryd rhan, mewn trafodaethau â pherchnogion o ran ystyried cais cynllunio a'r hyn a fyddai'n ddoeth, neu hyd yn oed yn ganiateedig, i'w wneud â strwythur fel Castell Gwrych. Efallai nad yw'n adeilad eiconig, ond fel y dywedwch yn hollol iawn, mae'n bendant yn adeilad trawiadol mewn ardal sensitif, a byddai fy swyddogion a Cadw ar gael i drafod gyda'r datblygwyr.

2.45 p.m.

Adeiladau Hanesyddol

6. David Melding: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadwraeth adeiladau hanesyddol. OAQ(3)1462(HER)*

Alun Ffred Jones: Recent research has demonstrated that our historic environment contributes significantly to the Welsh economy and to our wellbeing. Historic buildings give Wales its distinctive character, and it is vital that they are conserved and used sustainably. The protection of historic buildings is a priority in my historic environment ambition statement.

Historic Buildings

6. David Melding: *Will the Minister make a statement on the conservation of historical buildings. OAQ(3)1462(HER)*

Alun Ffred Jones: Dangosodd ein gwaith ymchwil diweddar bod ein hamgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru ac i'n lles. Mae adeiladau hanesyddol yn rhoi i Gymru ei chymeriad unigryw, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cadw a'u defnyddio'n gynaliadwy. Mae gwarchod adeiladau hanesyddol yn flaenoriaeth yn fy natganiad uchelgais am yr

amgylchedd hanesyddol.

David Melding: Minister, we all concur with the vision that you have just outlined. However, do you agree that we need an effective listing process so that we can identify and give full protection to buildings that need it because of their historical worth? That is step 1. Step 2 is to have effective advice on conservation, and Cadw must improve its performance in that regard. Especially in periods of economic stress, conserving buildings is quite a challenge. Some people may be reluctant to engage in the level of expenditure that is necessary to keep our buildings in the best shape, and they do therefore need that advice and encouragement, and sometimes some enforcement.

I will finish by trying to conserve the memory of one historical building in Cardiff, namely the Empire Pool, which was part of our Commonwealth Games inheritance for many years—for 40 years, I think—and many of us remember it fondly.

Alun Ffred Jones: Thank you for recalling the Empire Pool. With regard to buildings that are at risk and the need to offer advice, there is a small grant scheme for buildings that are not necessarily listed, in order to put in action the saying ‘A stitch in time saves nine’, in the sense that a small amount of work that is done to a building early on can mean that it does not deteriorate further. Comprehensive conservation advice is available from Cadw and its website. We launched the website six or nine months ago, and there have been quite a number of visits to it. That is a positive and creative way in which Cadw can help those who own such buildings before they need a grant to bring them back into use or proper shape. I would not argue with you on the point that we perhaps need to improve our game, but that advice is available, and we see it as a key part of Cadw’s work, alongside the other work that it does.

Bethan Jenkins: Weinidog, efallai eich bod yn gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol

David Melding: Weinidog, yr ydym oll yn cytuno gyda’r weledigaeth rydych newydd ei hamlinellu. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod angen inni gael proses restru effeithiol fel y gallwn adnabod a rhoi diogelwch llawn i adeiladau sydd ei angen oherwydd eu gwerth hanesyddol? Dyna gam 1. Cam 2 yw cael cyngor effeithiol ar gadwraeth, a rhaid i Cadw wella ei berfformiad yn hynny o beth. Yn enwedig mewn cyfnodau o straen economaidd, gall gwarchod adeiladau fod yn yn dipyn o her. Gall rhai pobl fod yn amharod i wario’r hyn sydd ei angen i gadw ein hadeiladau yn y cyflwr gorau, ac felly maen angen y cyngor ac anogaeth hwnnw arnynt, ac weithiau rhywfaint o orfodi.

Rwyf am gloi drwy geisio cadw’r cof yn fyw am un adeilad hanesyddol yng Nghaerdydd, sef yr Empire Pool a oedd yn rhan o’n hetifeddiaeth Gemau’r Gymanwlad am lawer o flynyddoedd—am 40 mlynedd, mi dybiaf—ac mae llawer ohonom yn ei gofio’n annwyl.

Alun Ffred Jones: Diolch i chi am ddwyn i gof yr Empire Pool. O ran adeiladau sydd mewn perygl a’r angen i gynnig cyngor, mae cynllun grant bach ar gyfer adeiladau nad ydynt o reidrwydd wedi eu rhestru, er mwyn rhoi ar waith y dywediad ‘Mae pwyth mewn llaw yn arbed naw’, yn yr ystyr bod swm bach o waith sy’n cael ei wneud i adeilad yn gynnar yn golygu nad yw’n dirywio ymhellach. Mae cyngor cynhwysfawr ar gadwraeth ar gael gan Cadw a’i wefan. Gwnaethom lansio gwefan chwech neu naw mis yn ôl, a bu cryn dipyn o ymweliadau iddi. Mae honno’n ffordd gadarnhaol a chreadigol y gall Cadw helpu’r rhai sy’n berchen ar adeiladau o’r fath cyn bod angen grant arnynt i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd neu ffurf priodol. Ni fyddwn yn dadlau gyda chi ar y pwynt ein bod efallai angen gwella ein gêm, ond mae’r cyngor hwnnw ar gael, ac rydym yn ei weld fel rhan allweddol o waith Cadw, ochr yn ochr â’r gwaith arall mae’n ei wneud.

Bethan Jenkins: Minister, you may be aware that Neath Port Talbot County Borough

Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi caniatâd i ddyrchwyl y Royal Buildings a'r tollty ym Mhort Talbot yn ddiweddar ar gyfer adeiladu fflatiau Coastal Housing Group Ltd. Mae'r tollty hwn yn bwysig iawn i'r ardal gan ei fod yn crynhoi sefydlu Aberafan yn ganolbwynt diwydiannol arweiniol gan y teulu Talbot. Mae'n symbol eiconig o'r dref, ac mae'r un mor bwysig iddi ag y mae'r gyfnewidfa lo i Gaerdydd—gallwn siarad ymhellach am ba mor bwysig yw'r tollty a'r Royal Buildings. A oes unrhyw beth y gallwch chi neu Lywodraeth Cymru ei wneud i ailedrych ar y penderfyniad, naill ai drwy gael Cadw i edrych eto ar y safle neu drwy alw'r penderfyniad i mewn i'r Llywodraeth?

Alun Ffred Jones: Nid oes gennyf bwerau i alw penderfyniad felly i mewn. Gwn fod pryder ynglŷn â'r adeiladau, ac argymhellid fy swyddogion oedd nad oedd achos i restru'r adeilad hwn. Mae rhagor o wybodaeth wedi cael ei chyflwyno, ac mae'r swyddogion yn edrych ar y dystiolaeth newydd. Dywedant y byddant yn gorffen eu hasesiad erbyn diwedd y mis.

Peter Black: Minister, further to the answer that you gave Bethan Jenkins, I have, too, written to you about this particular building, and I received the answer that you just gave to the Chamber. I understand that all pre-1919 buildings are now regarded as part of our national heritage, and that this may be one way in which you could revisit Cadw's decision not to list this building. Given that work has already started on clearing the inside of this building, this is a very urgent matter. Could you therefore ask your officials to review the decision not to list this building as a matter of urgency? I understand that you cannot call the decision in, but you can, at this stage, still list the building and force the housing association to reconsider the way in which it wishes to use the building as part of its development.

Alun Ffred Jones: Perhaps you did not hear my answer to Bethan. My officials are actively considering new evidence at the moment. A decision on this matter will be announced later this month.

Mick Bates: Minister, I am sure that you will

Council has given permission to demolish the Royal Buildings and the customs house at Port Talbot recently for Coastal Housing Group Ltd to construct apartments. The customs house is very important to the area because it epitomises the establishment of Aberavon as a leading industrial centre by the Talbot family. It is an iconic symbol of the town, and it is equally important to it as the coal exchange is to Cardiff—I could go on about the importance of the customs house and the Royal Buildings. Is there anything you or the Welsh Government can do to reconsider the decision, either by having Cadw to revisit the site or by calling the decision in to the Government?

Alun Ffred Jones: I have no powers to call in such a decision. I know that there is concern about the buildings, and the recommendation of my officers was that there was no case to list this building. Further information has been presented, and the officials will examine the new evidence. They tell me that they will finish their assessment by the end of the month.

Peter Black: Weinidog, yn dilyn yr ateb a roesoich i Bethan Jenkins, rwyf hefyd wedi ysgrifennu atoch am yr adeilad penodol hwn, a chefais yr ateb rydych newydd ei roi i'r Siambr. Rwyf yn deall bod yr holl adeiladau cyn 1919 yn cael eu hystyried bellach fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol, ac y gallai hyn fod yn un ffordd y gallech ailystyried penderfyniad Cadw i beidio â rhestru'r adeilad hwn. O gofio bod gwaith wedi dechrau eisoes ar glirio y tu mewn i'r adeilad hwn, mae hwn yn fater brys iawn. Felly, a allech ofyn i'ch swyddogion adolygu'r penderfyniad i beidio â rhestru'r adeilad hwn fel mater o frys? Gwn na allwch alw'r penderfyniad i mewn, ond gallwch, ar hyn o bryd, dal restru'r adeilad a gorfodi'r gymdeithas dai i ailystyried y ffordd mae'n dymuno defnyddio'r adeilad fel rhan o'i ddatblygiad.

Alun Ffred Jones: Efallai na chlywsoch fy ateb i Bethan. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried tystiolaeth newydd ar hyn o bryd. Bydd penderfyniad ar y mater hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn.

Mick Bates: Weinidog, rwyf yn siŵr y

agree that Dyfi bridge near Machynlleth is a historic construction that is under severe threat, and that it deserves to be given as much support as possible to conserve it. Of course, the threat could be overcome by building a new bridge. Do you agree that this historic construction deserves to be conserved, and that the petition submitted recently by the South Meirionydd older people's forum regarding the building of a new bridge deserves your support, so that this historic construction can be preserved for future generations?

Alun Ffred Jones: I know Pontarddyfi very well, and the bridge certainly needs support. As to the need for, or the advisability of, a new bridge, the existing bridge is certainly too narrow for modern cars and lorries. Building a new bridge is not in my gift at the moment, but I will certainly draw the relevant Minister's attention to your call for such a construction.

Hybu Twristiaeth

7. Brian Gibbons: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gellid defnyddio lleoliadau ffilm yng Nghymru i hybu twristiaeth Cymru. OAQ(3)1466(HER)*

Alun Ffred Jones: The Wales Screen Commission works alongside Visit Wales and Cadw to promote Welsh locations used in film and television productions, including high-profile feature films such as Ridley Scott's *Robin Hood* and the latest Harry Potter instalment.

Brian Gibbons: Thank you very much for all that, Minister. We really are missing a trick in terms of using Welsh film locations and Welsh film teams to boost tourism. I gather that some work has been done on this in north Wales, but in terms of developing an aggressive, strategic, outward-looking approach to this issue, more could be done. Even in my own village of Blaengwynfi, for example, Jill Craigie produced *Blue Scar*, a film that celebrated the history of the nationalisation of the coal industry in Wales. A number of the scenes from *Twin Town* were located in Neath Port Talbot, and many other films, such as *Darklands* and *House of*

byddwch yn cytuno bod Pontarddyfi ger Machynlleth yn bont hanesyddol sydd o dan fygythiad difrifol, a'i bod yn haeddu cael cymaint o gefnogaeth ag y bo modd i'w gwarchod. Wrth gwrs, gellid goresgyn y bygythiad drwy adeiladu pont newydd. Ydych chi'n cytuno bod y bont hanesyddol yn haeddu cael ei gwarchod, a bod y ddeiseb a gyflwynwyd yn ddiweddar gan fforwm pobl hŷn De Meirionnydd ynghylch adeiladu pont newydd yn haeddu eich cefnogaeth, fel y gellir cadw'r bont hanesyddol i genedlaethau'r dyfodol?

Alun Ffred Jones: Gwn yn dda iawn am Bontarddyfi, ac mae'r bont yn sicr angen cefnogaeth. O ran yr angen am bont newydd, neu pa mor ddoeth fyddai cael pont newydd, mae'r bont bresennol yn sicr yn rhy gul i geir a lorïau modern. Nid yw adeiladu pont newydd yn fy rhodd ar hyn o bryd, ond byddaf yn sicr yn tynnu sylw'r Gweinidog perthnasol at eich galwad am bont o'r fath.

The Promotion of Tourism

7. Brian Gibbons: *Will the Minister make a statement on how film locations in Wales could be used to promote Welsh tourism. OAQ(3)1466(HER)*

Alun Ffred Jones: Mae Comisiwn Sgrîn Cymru yn gweithio ochr yn ochr â Chroeso Cymru a Cadw i hyrwyddo lleoliadau yng Nghymru a ddefnyddir mewn cynyrchiadau ffilm a theledu, gan gynnwys ffilmiau nodweddiadol uchel megis *Robin Hood* Ridley Scott a'r ffilm Harry Potter ddiweddaraf.

Brian Gibbons: Diolch yn fawr iawn am hynny i gyd, Weinidog. Rydym yn wir yn colli cyfle o ran defnyddio lleoliadau ffilm yng Nghymru a thimau ffilm o Gymru i roi hwb i dwristiaeth. Rwyf ar ddeall bod rhywfaint o waith wedi ei wneud ar hyn yn y gogledd, ond o ran datblygu ymagwedd ymosodol, strategol, eang ei gorwelion tuag at y mater hwn, gellid gwneud mwy. Hyd yn oed yn fy mhentref fy hun, Blaengwynfi, er enghraifft, cynhyrchodd Jill Craigie *Blue Scar*, ffilm a ddatlodd hanes gwladoli'r diwydiant glo yng Nghymru. Mae nifer o'r golygfeydd o *Twin Town* wedi eu lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot, a ffilmiau eraill,

America, were located in my constituency. I am sure that that could be replicated right across Wales, but we need to have the ambition and vision to take hold of this agenda and use it to project a very positive and attractive image of Wales.

Alun Ffred Jones: I would not disagree with you. Movie maps are becoming increasingly popular. There have been discussions on the possibility of extending the current north Wales movie map to the rest of Wales. I would draw your attention to the fact that the Wales Screen Commission has produced a show reel that highlights recent productions and stunning Welsh locations. It is designed for use at international events and it is also available on YouTube. There is no doubt that more could and should be done. This is about finding the right vehicle to promote some of these locations. Certainly, there was a push in north Wales a few years ago, and a trail was created; no doubt, something similar could be done again. *Twin Town* was especially successful, though I should, perhaps, declare an interest.

Mohammad Asghar: Minister, my question is along the same lines as the question asked by Brian Gibbons. A number of landmarks across south Wales have been used as locations for *Doctor Who* and *Torchwood*. Given the immense popularity of these programmes, does the Minister agree with me that the Assembly Government and Visit Wales should look to do all that they can to promote Wales to the programmes' fan base, helping to ensure that these film locations are attracting maximum numbers of tourists from across the UK and abroad to Wales?

Alun Ffred Jones: Where it is appropriate, yes. However, any television production will use a host of different locations. Some of them are particularly attractive or significant, and it is those that you need to hit if you are to attract any sort of audience, be it international or within the UK. So, there is work to be done here, I am not denying that at all, and it should be part and parcel of the way that we market Wales.

megis *Darklands* a *House of America*, wedi eu lleoli yn fy etholaeth. Rwyf yn siŵr y gellid ei efelychu ar draws Cymru, ond mae angen i ni feddu ar yr uchelgais a'r weledigaeth i afael yn yr agenda hon a'i defnyddio i greu delwedd gadarnhaol a deniadol iawn o Gymru.

Alun Ffred Jones: Ni fyddwn yn anghytuno â chi. Mae *movie maps* yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Bu trafodaethau ar y posibilrwydd o ymestyn *movie map* cyfredol y gogledd i weddill Cymru. Hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith bod Comisiwn Sgrîn Cymru wedi cynhyrchu rîl sioe sy'n amlygu cynrychiadau diweddar a lleoliadau trawiadol yng Nghymru. Y bwriad yw ei ddefnyddio mewn digwyddiadau rhyngwladol ac mae hefyd ar gael ar YouTube. Nid oes amheuaeth y gellir ac y dylid gwneud mwy. Mae hyn yn ymwneud â dod o hyd i'r cyfrwng cywir i hyrwyddo rhai o'r lleoliadau hyn. Yn sicr, roedd hwb yn y gogledd rai blynyddoedd yn ôl, a chafodd llwybr ei chreu; nid oes amheuaeth y gallai rhywbeth tebyg gael ei wneud eto. Roedd *Twin Town* yn arbennig o lwyddiannus, er y dylwn, efallai, ddatgan buddiant.

Mohammad Asghar: Weinidog, mae fy nghwestiwn i yn debyg i'r un a ofynnwyd gan Brian Gibbons. Mae nifer o dirnodau ar draws de Cymru wedi cael eu defnyddio fel lleoliadau ar gyfer *Doctor Who* a *Torchwood*. O ystyried poblogrwydd enfawr y rhaglenni hyn, a yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Croeso Cymru wneud popeth y gallant i hyrwyddo Cymru i ddilynwyr brwd y rhaglenni hynny, gan helpu i sicrhau bod y lleoliadau ffilm hyn yn denu cymaint o dwristiaid â phosibl o bob cwr o'r DU a thramor i Gymru?

Alun Ffred Jones: Lle mae'n briodol, ydw. Fodd bynnag, bydd unrhyw gynhyrchiad teledu yn defnyddio llu o leoliadau gwahanol. Mae rhai ohonynt yn arbennig o ddeniadol neu arwyddocaol, a rheini mae'n rhaid i chi eu defnyddio os ydych am ddenu unrhyw fath o gynulleidfa, boed yn rhyngwladol neu o fewn y DU. Felly, mae gwaith i'w wneud yma, nid wyf yn gwadu hynny o gwbl, a dylai fod yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn marchnata Cymru.

Bydd y cyfarwyddyd yr wyf yn ei roi heddiw yn helpu i adfer llywodraethu effeithiol, bydd yn sicrhau gwell arweinyddiaeth strategol, a bydd yn diogelu gwasanaethau hanfodol rhag y niwed a achosir gan fân gweryla gwleidyddol. Rwy'n bwriadu iddo barhau tan o leiaf yr etholiadau lleol nesaf, ond nid yw'n ateb hirdymor. Dim ond y math o adnewyddu democrataidd y mae'r archwilydd cyffredinol a'm bwrdd adfer wedi ei argymhell all wneud hynny. Felly, os oes dyfodol gan Gyngor Sir Ynys Môn, mae yn nwylo pobl yr ynys. Y cyfan yr wyf wedi'i wneud heddiw yw eu diogelu am y tro rhag ddylanwadau niweidiol y rhai sydd wedi, yn anffodus, eu siomi yn gyson. Mae pobl Ynys Môn yn haeddu gwell, a bwriad y camau hyn yw sicrhau eu bod yn ei gael.

Jonathan Morgan: Thank you for your statement, Minister, and for the exceptionally robust way in which you are dealing with this matter. Having looked at the issues that have affected this council for such a long time, I believe that you have acted correctly in ensuring that the council was given opportunities to improve the way in which it operated. You have also acted correctly in the way in which you have used the expertise and the independence of the Wales Audit Office in gathering information, and in relying upon it to make good recommendations to you.

I very much agree that it would be wrong to tar all county councillors with the same brush. As I said yesterday during the debate on the Proposed Local Government (Wales) Measure, many brilliant county councillors serve the communities of Wales. There are people who devote their time and efforts, and who undertake the duties of local councillors with a huge level of commitment, and we should pay tribute to them. However, sadly, you are right to say that those sorts of people are in the minority in this authority, and there are a number of people who are unable or unwilling to discharge their functions to ensure that this local authority gets on with the job that it was elected to do.

I welcome the fact that you are appointing commissioners to run the council. That is the obvious, and important, next step. Are you able to appoint those commissioners directly, or do you have to go through a Nolan procedure to do so? I suspect that you probably have the powers to get on and appoint, but could you clarify that? I also wish to ask about the timescales in relation to the series of recommendations made by the auditor general. How quickly will some of these matters be set in stone? With regard to your asking the Local Government Boundary Commission to undertake a review of electoral boundaries, in particular, how quickly will this work be done? As you mentioned in your statement, the auditor general recommended that you direct the council to hold a referendum on whether it wishes to shift the model of local democracy towards one of an elected mayor. He seemed to make that recommendation quite strongly.

Jonathan Morgan: Diolch am eich datganiad, Weinidog, ac am y ffordd eithriadol o gadarn yr ydych yn delio â'r mater hwn. Wedi edrych ar y materion sydd wedi effeithio ar y cyngor am y fath amser hir, tybiaf eich bod wedi gweithredu'n gywir o ran sicrhau bod y cyngor wedi cael cyfleoedd i wella'r ffordd mae'n gweithredu. Rydych hefyd wedi gweithredu'n gywir yn y ffordd yr ydych wedi defnyddio arbenigedd ac annibyniaeth Swyddfa Archwilio Cymru i gasglu gwybodaeth, a dibynnu arno i wneud argymhellion da i chi.

'n cytuno y byddai'n anghywir tybio bod pob cynghorydd sir yr un fath. Fel y dywedais ddoe yn y ddadl ar Fesur Llywodraeth Leol Arfaethedig (Cymru), mae llawer o gynghorwyr sir rhagorol yn gwasanaethu cymunedau Cymru. Mae yna bobl sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrechion, ac sy'n ymgymryd â dyletswyddau cynghorwyr lleol gyda lefel enfawr o ymrwymiad, a dylem dalu teyrnged iddynt. Fodd bynnag, yn anffodus, rydych yn iawn i ddweud bod y mathau hyn o bobl yn y lleiafrif yn yr awdurdod hwn, ac mae nifer o bobl sy'n methu neu'n amharod i gyflawni eu swyddogaethau i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn bwrw ymlaen â'r gwaith y cafodd ei ethol i'w wneud.

Croesawaf y ffaith eich bod yn penodi comisiynwyr i redeg y cyngor. Dyna'r cam nesaf amlwg a phwysig. A ydych yn gallu penodi'r comisiynwyr yn uniongyrchol, neu a oes rhaid i chi fynd drwy weithdrefn Nolan i wneud hynny? Rwy'n amau bod gennych, yn ôl pob tebyg, y pwerau i symud ymlaen a phenodi, ond a wnewch chi egluro hynny? Hoffwn hefyd ofyn am yr amserlen o ran yr argymhellion niferus a wnaed gan yr archwilydd cyffredinol. Pa mor gyflym fydd rhai o'r materion hyn yn cael eu rhoi ar waith? O ran gofyn i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol gynnal adolygiad o ffiniau etholiadol, yn benodol, pa mor gyflym fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud? Fel y gwnaethoch grybwyll yn eich datganiad, argymhellodd yr archwilydd cyffredinol eich bod yn cyfeirio'r cyngor i gynnal refferendwm ynghylch a yw'n dymuno newid y model democratiaeth leol i gael maer etholedig. Ymddengys ei fod yn gwneud yr

Are you minded to move in that direction or will you take further advice on that? I know that, generally speaking, you are not a fan of that particular model, but I would be very keen to hear whether you will accept that recommendation or whether you think that something else could be done in place of that. The auditor general also recommended—you have not touched on this—that you will consider delaying the local authority elections on Anglesey until 2013. Do you have a view on whether that is appropriate? I was also very curious to know whether you have the power—I presume you do—to bring forward the local government elections on the island of Anglesey if you thought it better to have an election earlier rather than later. That would allow the electorate of the island to come to a considered view at an earlier date, instead of it being left a year after the ordinary county council elections.

I agree with you that, ultimately, the long-term direction of this authority will only be resolved once the electorate starts taking matters into its own hands and starts having a say in the future direction of the local authority. You are right to say that, ultimately, it is the people of the island who need to take control of the situation, but we need to be certain that services are being delivered effectively. Will you give us assurances this afternoon that, regardless of the way in which local authority members have behaved on the council, services are, to your mind, still being delivered effectively, particularly those services that deal with very vulnerable groups of individuals—I am thinking of the elderly and of children, particularly those in care—and that the authority is delivering a standard of service that you believe is sustainable? What came out of the auditor general's report was that he felt very strongly that the actions of authority members could jeopardise the delivery of services. I hope that we are not yet at the point at which services are being jeopardised and that what he said in his report was merely issuing a warning shot that we could be in that position if action is not taken now. I would like some reassurances, therefore, about the current level of services and about how quickly you see these recommendations

argymhelliad hwnnw'n eithaf cryf. A ydych yn bwriadu symud i'r cyfeiriad hwnnw, neu a fyddwch yn cael cyngor pellach ar hynny? Gwn, yn gyffredinol, nad ydych yn cefnogi'r model penodol hwnnw, ond byddwn yn awyddus iawn i glywed a fyddwch yn derbyn yr argymhelliad hwnnw, neu a ydych yn credu y gellid gwneud rhywbeth arall yn lle hynny. Argymhellodd yr archwilydd cyffredinol hefyd—nid ydych wedi cyffwrdd ar hyn—eich bod yn ystyried gohirio'r etholiadau awdurdod lleol ar Ynys Môn tan 2013. A oes gennych farn ar a yw hynny'n briodol? Roeddwn hefyd yn chwilfrydig iawn i wybod a oes gennych y pŵer—rwyf yn tybio bod gennych—i ddwyn etholiadau llywodraeth leol ymlaen ar Ynys Môn os ydych o'r farn ei bod yn well cael etholiad yn gynharach nag yn hwyrach. Byddai hynny'n caniatáu i etholwyr yr ynys ddod i benderfyniad ar ddyddiad cynharach, yn hytrach na'i adael flwyddyn ar ôl etholiadau cyffredin y cyngor sir.

Rwy'n cytuno â chi y bydd cyfeiriad yr awdurdod hwn yn yr hirdymor, yn y pen draw, ond yn cael ei ddatrys pan fydd yr etholwyr yn dechrau cymryd materion i'w dwylo eu hunain ac yn dechrau cael llais yng nghyfeiriad yr awdurdod lleol yn y dyfodol. Rydych yn gywir i ddweud bod angen, yn y pen draw, i bobl yr ynys gymryd rheolaeth o'r sefyllfa, ond mae angen inni fod yn sicr bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol. A wnewch roi sicrwydd y prynhawn yma, er gwaethaf y ffordd mae aelodau awdurdod lleol wedi ymddwyn ar y cyngor, fod gwasanaethau, yn eich tyb chi, yn dal i gael eu cyflwyno'n effeithiol, yn enwedig y rhai hynny sy'n delio â grwpiau o unigolion bregus iawn—rwyf yn meddwl am yr henoed a phlant, yn enwedig y rhai sydd mewn gofal—a bod yr awdurdod yn darparu safon o wasanaeth y tybiwch sy'n gynaliadwy? Yr hyn ddaeth allan o adroddiad yr archwilydd cyffredinol yw ei fod yn teimlo'n gryf iawn y gallai gweithredoedd aelodau o'r awdurdod beryglu darpariaeth gwasanaethau. Gobeithio nad ydym wedi cyrraedd y pwynt lle mae gwasanaethau yn cael eu peryglu a bod yr hyn a ddywedodd yn ei adroddiad ond megis rhybudd y gallem fod yn y sefyllfa honno os na chymerir camau yn awr. Hoffwn gael sicrwydd, felly, am y lefel bresennol o wasanaethau a pha mor gyflym y

being put in place. Ultimately, Minister, we would agree, as I am sure would all Members, that what we want to see on the island is a local authority that behaves well and delivers good-quality local services, and that those services can be delivered without being jeopardised by those whose sole elected duty should be to represent their constituents and to deliver services to the benefit of those whom they serve.

Carl Sargeant: Thank you, Jonathan, for your contribution and for your group's support for the actions that I have taken. As you will be aware, the Local Government (Wales) Measure 2009 allows a Minister to make many interventions, such as through a recovery board and so on. Part of the Measure relates to the function of commissioners. We have not taken the evidence from the Wales Audit Office lightly. We acted upon it within hours of receiving the detailed report, but we have also sought advice from the Welsh Local Government Association, the recovery board and the interim chief executive on the island to establish a case for severe intervention, which this clearly is.

In terms of appointments, as you will appreciate, the timescale between making the decision following the audit report and making a statement has been quite contracted. We have been through the normal process of drawing up criteria and identifying a long list and a short list of candidates and then interviewing them. I have not been able to announce the full five commissioners given the timescale, but it is very important that we step in straight away and so we have two commissioners who will start immediately and one who will start later in the month. The other two will be announced in due course and I will be more than happy to issue a written statement when we have identified those additional commissioners.

With regard to the democratic process and the boundary reviews, to which the auditor general referred, I will write to the boundary commission this week to ask it to start that task immediately. I did not mention delaying the local election to 2013, because there is a

byddwch yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith. Yn y pen draw, Weinidog, byddem yn cytuno, fel rwyf yn siŵr y byddai pob Aelod, mai'r hyn rydym am ei weld ar yr ynys yw awdurdod lleol sy'n ymddwyn yn dda ac sy'n darparu gwasanaethau lleol o safon dda, ac y gall y gwasanaethau hynny gael eu darparu heb gael eu peryglu gan y rhai mai eu hunig ddyletswydd etholedig ddylai fod i gynrychioli eu hetholwyr a darparu gwasanaethau er budd y rhai y maent yn eu gwasanaethu.

Carl Sargeant: Diolch, Jonathan, am eich cyfraniad ac am gefnogaeth eich grŵp i'r camau rwyf wedi'u cymryd. Fel y gwyddoch, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn caniatáu i Weinidog wneud nifer o ymyriadau, megis drwy fwrdd adfer ac yn y blaen. Mae rhan o'r Mesur yn ymwneud â swyddogaeth comisiynwyr. Nid ydym wedi cymryd y dystiolaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgafn. Gwnaethom weithredu arno o fewn oriau o dderbyn yr adroddiad manwl, ond rydym hefyd wedi ceisio cyngor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y bwrdd adfer, a'r prif weithredwr dros dro ar yr ynys i sefydlu achos dros ymyrraeth ddifrifol, a dyna'n amlwg yw hyn.

O ran apwyntiadau, fel y sylweddolwch, bu'r amser rhwng gwneud y penderfyniad yn dilyn yr adroddiad archwilio a gwneud datganiad yn eithaf byr. Buom drwy'r broses arferol o lunio meini prawf a nodi rhestr hir a rhestr fer o ymgeiswyr ac yna eu cyfweld. Nid wyf wedi gallu cyhoeddi'r pum comisiynydd llawn o ystyried yr amserlen, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn camu i mewn yn syth ac felly mae gennym ddau gomisiynydd a fydd yn dechrau ar unwaith ac un a fydd yn dechrau yn ddiweddarach yn y mis. Bydd y ddau arall yn cael eu cyhoeddi maes o law a byddaf yn fwy na bodlon cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pan rydym wedi nodi'r comisiynwyr ychwanegol hynny.

O ran y broses ddemocrataidd a'r adolygiadau o ffiniau, y cyfeiriodd yr archwilydd cyffredinol atynt, byddaf yn ysgrifennu at y comisiwn ffiniau yr wythnos hon i ofyn iddo ddechrau'r dasg honno ar unwaith. Ni soniais am ohirio'r etholiad lleol

chance that the boundary commission may conclude its review and be able to report prior to the election, allowing individuals and parties to stand on the basis of new boundaries, with a timescale that would allow them to take part in the normal electoral cycle. If that cannot be achieved by the boundary commission, then I would consider the extension to 2013.

3.30 p.m.

You are quite right about monitoring the whole process. In the order, there will be a four-month inspection report for the Minister, and at that point, we will see whether there is good engagement with the council and the commissioners, and we will make decisions on the evidence that is presented to us over the next couple of months.

This is a very serious intervention. This is the first time that any council in the UK has been subject to intervention at this level. Even in Doncaster, the council remained an executive; in Anglesey, we are removing the function of the executive completely, so this is pretty groundbreaking. It is sad that we are having to do this to one of our local authorities, but the issue for me is the state of public services for the residents of the island. That is what is most important.

You asked about service provision. Most services are okay, but I am not yet convinced that where you have corporate and political failure in a system, you do not start to see signs of service failure as well. Therefore we have placed inspectorates on the island to look at services, and they will report to the relevant Ministers and to myself, and we will feed in to the commissioners.

I thank you for your support. There is one last point that I missed—the mayoral system and the referendum. You read me well in terms of my support for the mayoral system, but the auditor general has made the recommendation, and I believe that that is a duty for the council, if it wishes to pursue the process for the election of a mayor. There are more immediate issues that we need to identify, and that decision will be one that

tan 2013, gan y bydd siawns y bydd y comisiwn ffiniau yn gallu cyflwyno adroddiad cyn yr etholiad, gan alluogi unigolion a phleidiau i sefyll ar sail ffiniau newydd, gydag amserlen a fyddai'n eu galluogi i gymryd rhan yn y cylch etholiadol arferol. Os na all y comisiwn ffiniau wneud hynny, yna byddwn yn ystyried yr estyniad i 2013.

Rydych yn llygad eich lle ynghylch monito'r broses gyfan. Yn y gorchymyn, bydd adroddiad arolygu bob pedwar mis i'r Gweinidog, ac ar yr adeg honno, byddwn yn gweld a oes ymgysylltiad da gyda'r cyngor a'r comisiynwyr, a byddwn yn gwneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth a gyflwynir inni dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae hwn yn ymyriad difrifol iawn. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw gyngor yn y DU fod yn destun ymyrraeth ar y lefel hon. Hyd yn oed yn Doncaster, arhosodd y cyngor yn weithrediaeth; yn Ynys Môn, rydym yn cael gwared ar swyddogaeth y weithrediaeth yn gyfan gwbl, felly mae hyn yn eithaf arloesol. Mae'n drist ein bod yn gorfod gwneud hyn i un o'n hawdurdodau lleol, ond y mater i mi yw cyflwr gwasanaethau cyhoeddus i drigolion yr ynys. Dyna sydd bwysicaf.

Gofynasoch am y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn iawn, ond ni chefais fy argyhoeddi eto lle mae gennych fethiant corfforaethol a gwleidyddol mewn system, nad ydych yn dechrau gweld arwyddion o fethiant gwasanaeth hefyd. Felly, rydym wedi rhoi arolygiaethau ar yr ynys i edrych ar wasanaethau, a byddant yn adrodd yn ôl i'r Gweinidogion perthnasol a minnau, a byddwn yn hysbysu'r comisiynwyr.

Diolch am eich cefnogaeth. Mae un pwynt olaf a fethais—y system maer a'r refferendwm. Rydych wedi fy narllen yn dda o ran fy nghefnogaeth i'r system maer, ond mae'r archwilydd cyffredinol wedi gwneud yr argymhelliad, a chredaf fod hynny'n ddyletswydd ar y cyngor, os yw'n dymuno dilyn y broses ar gyfer ethol maer. Mae materion mwy brys sydd angen inni eu nodi, a bydd y penderfyniad hwnnw yn un y gellir

can be taken by council. I would not stand in the way of the council if it were to go down that route. That would be fine.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch yn fawr iawn i chi, Weinidog, am ddod â'r datganiad hwn gerbron heddiw, ac am wneud mor gyflym ar ôl gael adroddiad yr archwiliwr cyffredinol. O ystyried yr ansefydlogrwydd gwleidyddol parhaol ar yr ynys, ac yn sicr o fewn y cyngor, mae'n anochel y byddai comisiynwyr yn cael eu penodi. Mae pobl Ynys Môn wedi bod yn dweud wrthym yn gwbl ddi-flewyn-ar-dafod yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn fod angen i rywbeth difrifol gael ei wneud i ddod â sefydlogrwydd i'r cyngor fel y gallem symud ymlaen i gyfnod newydd. Yr ydych wedi dod i'r casgliad nad oes digon o gynnydd wedi ei wneud ers i'r bwrdd adfer gael ei sefydlu ac yn awr mae angen comisiynwyr i redeg swyddogaethau'r cabinet. Sylwais, gyda llaw, eich bod wedi caniatáu i'r cyghorwyr barhau gyda'r elfen graffu; bydd hynny'n rhoi cyfle iddynt ddangos awdurdod, a'i gwneud mewn ffordd adeiladol.

I know that you have done so reluctantly, but I think that you have taken an unprecedented step in the history of Welsh local government, and we all pray that it will be successful, of course. What we now have to do, especially those of us who represent the island, is to work closely with the commissioners that you have appointed because, as you have quite rightly pointed out, this will now be a solution until the next council election at least. However, you have recognised that it cannot be a permanent solution, and therefore alongside the work of the commissioners, there will be a need for all of us to dedicate ourselves to the work of democratic renewal so that we can find a long-term solution for the council that is sustainable and one that enables us to move forward without the kind of instability and manoeuvrings that have characterised recent years.

I will dedicate myself to working with the commissioners. I also say to you, Minister, because you have recognised the point: although they are a smaller number than we would have liked, there are a small number of councillors who want to see the council

ei wneud gan y cyngor. Ni fyddwn yn sefyll yn ffordd y cyngor pe bai'n mynd i lawr y llwybr hwnnw. Byddai hynny'n iawn.

The Deputy First Minister: Thank you very much, Minister, for bringing this statement before us today, and for doing it so swiftly having received the auditor general's report. May I also say that, bearing in mind the longstanding political instability on the island, particularly within the council, it was inevitable that commissioners would be appointed. The people of Anglesey have been telling us, and telling me, in quite a forthright manner during these past few weeks, that something serious needs to be done to bring stability to the council so that we can move into a new era. You have now concluded that there insufficient progress has been made since the recovery board was established, and commissioners are now needed to run the functions of the cabinet. I noticed, but the way, that you have allowed councillors to continue with the scrutiny role; that will give them an opportunity to demonstrate authority, and to do so in a constructive manner.

Gwn eich bod wedi gwneud hynny yn anfoddog, ond tybiaf eich bod wedi cymryd cam heb gynsail yn hanes llywodraeth leol yng Nghymru, ac rydym i gyd yn gweddio y bydd yn llwyddiannus, wrth gwrs. Yr hyn rydym yn awr yn gorfod ei wneud, yn enwedig y rhai ohonom sy'n cynrychioli'r ynys, yw gweithio'n agos gyda'r comisiynwyr rydych wedi eu penodi oherwydd, fel rydych wedi dweud yn gywir, bydd hyn yn awr yn ateb tan etholiad nesaf y cyngor o leiaf. Fodd bynnag, rydych wedi cydnabod na all fod yn ateb parhaol, ac felly ochr yn ochr â gwaith y comisiynwyr, bydd angen i bob un ohonom ymrwymo ein hunain i waith adnewyddu democrataidd fel y gallwn ddod o hyd i ateb hirdymor i'r cyngor sy'n gynaliadwy ac sy'n ein galluogi i symud ymlaen heb y math o ansefydlogrwydd a chynllwynio sydd wedi nodweddu'r blynyddoedd diwethaf.

Byddaf yn ymroi i weithio gyda'r comisiynwyr. Rwyf hefyd yn dweud wrthyf, Weinidog, am eich bod wedi cydnabod y pwynt: er eu bod yn llai mewn nifer nag y byddem wedi dymuno, mae nifer fach o gynghorwyr am weld y cyngor yn

achieve political stability. We should be paying tribute to them, even though we understand that you have come to the conclusion that there is political instability, therefore I would like to put that on record.

The other thing that I would like to put on record, which follows on from Jonathan Morgan's point, is that it is quite remarkable that, during this long period of political instability and manoeuvrings, as you described it, the staff have delivered services to the standard that they have. We should therefore pay tribute to the staff of Isle of Anglesey County Council who have worked extremely hard under difficult conditions—I know that they have been extremely worried about the future not only of their council, but of the services that they are dedicated to delivering. By taking this step today, and by making it clear that those services need to be delivered well to the people of Anglesey, the staff will be encouraged.

My final point is about the future. I thoroughly endorse the line that you have taken in referring the matter to the boundary commission. The idea that the ward system should be changed, so that it becomes a multimember ward system, is a good step forward. The question about the number of councillors is a matter for debate, and that needs to happen. To follow Jonathan's point, Minister, do you agree that what is important is to tie the date of the next council election to the date that you receive the report from the boundary commission? Therefore, rather than to force it early or to delay it, the determining factor should be the boundary commission's report. Although the idea of an elected mayor has been floated, on and while I have not reached a firm conclusion on the matter, do you agree that that is a matter that we need to take some time to consider? It is not a decision that we should rush to make today. We should all now reflect on whether other steps can be taken to provide stability and to consider possible further intervention or ideas as time moves on.

It is obviously a sad day for the people of Anglesey that you have felt that you had to take this step. However, it is pretty clear that you have the support of the Assembly in bringing stability and political stability to the

wleidyddol sefydlog. Dylem fod yn talu teyrnged iddynt, er ein bod yn deall eich bod wedi dod i'r casgliad bod ansefydlogrwydd gwleidyddol, felly hoffwn roi hynny ar goedd.

Y peth arall yr hoffwn ei roi ar goedd, sy'n dilyn ymlaen o bwynt Jonathan Morgan, yw ei fod yn eithaf rhyfeddol, yn ystod y cyfnod hir o ansefydlogrwydd a chynllwynio gwleidyddol, fel y'i disgrifiwyd gennych, bod y staff wedi cyflwyno gwasanaethau i'r safon y gwnaethant. Dylem felly dalu teyrnged i staff Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi gweithio'n eithriadol o galed o dan amodau anodd—gwn eu bod wedi poeni'n fawr am ddyfodol nid yn unig eu cyngor, ond hefyd y gwasanaethau y maent yn ymroddedig i'w darparu. Drwy gymryd y cam hwn heddiw, a thrwy ei gwneud yn glir bod angen i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu yn dda i bobl Ynys Môn, bydd y staff yn cael eu calonogi.

Mae fy mhwynt olaf am y dyfodol. Rwyf yn llwyr gefnogi'ch bwriad i gyfeirio'r mater at y comisiwn ffiniau. Mae'r syniad y dylai'r system ward gael ei newid, fel ei bod yn dod yn system ward aml-aleod, yn gam da ymlaen. Mae'r cwestiwn ynghylch nifer y cynghorwyr yn fater i'w drafod, ac mae angen iddo ddigwydd. I ddilyn pwynt Jonathan, Weinidog, a ydych yn cytuno mai'r hyn sy'n bwysig yw clymu dyddiad etholiad nesaf y cyngor gyda'r dyddiad y byddwch yn derbyn yr adroddiad gan y comisiwn ffiniau? Felly, yn hytrach na'i orfodi'n gynnar neu ei ohirio, y ffactor pwysicaf ddylai fod adroddiad y comisiwn ffiniau. Er bod y syniad o faer etholedig wedi ei grybwyll, ac er nad wyf wedi dod i gasgliad pendant ar y mater, a ydych yn cytuno bod hynny'n fater y mae angen i ni gymryd peth amser i'w ystyried? Nid yw'n benderfyniad y dylem rithro i'w wneud heddiw. Dylem i gyd yn awr fyfyrion ar ba gamau eraill y gellid eu cymryd i ddarparu sefydlogrwydd ac ystyried ymyrraeth neu syniadau posibl eraill wrth i amser fynd yn ei flaen.

Mae'n amlwg yn ddiwrnod trist i bobl Ynys Môn eich bod wedi teimlo bod rhaid i chi gymryd y cam hwn. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg bod gennych gefnogaeth y Cynulliad i ddod â sefydlogrwydd a

council.

Carl Sargeant: Thank you, Ieuan, for your support and for your group's support. You are quite right that the auditor general makes reference in his report to the difficult situation that Anglesey council has found itself in—the report refers to problems of instability dating to before the change of status from a borough authority to a unitary authority. The scrutiny role has improved, and as I said in yesterday's debate on the Proposed Local Government (Wales) Measure, good scrutiny leads to good governance and good services. Therefore it has improved, and that follows the direction that we gave to the council earlier in the year, and significant changes have been made to achieve that.

It is now time for some grown-up politics, Ieuan, and I will put in place commissioners who will work hard with the officers and the councillors who are willing to change the whole process and the operation to deliver services on the island. Let us be clear about this intervention: I expect a response from the members and officers working with my commissioners. There is a huge opportunity and challenge to build up trust and support across all political boundaries. Should that fail to happen, then I will be running out of options with regard to what I should do. However, I have every faith in my commissioners and I hope that the council will take advantage of working closely with them.

On the boundary commission report, I purposely did not mention the 2013 extension, on the basis that I am still working to the electoral cycle for local government. I am hoping that the boundary commission can deliver that report in time for the democratic renewal of the new boundary rules. We need to have that in place by December of next year at the latest, if it is to be in place for the next electoral system.

Turning to the recommendation to have a mayoral system, there are many more important things that we need to work on leading up to the decision. I do not believe

sefydlogrwydd gwleidyddol i'r cyngor.

Carl Sargeant: Diolch, Ieuan, am eich cefnogaeth ac am gefnogaeth eich grŵp. Rydych yn llygad eich lle bod yr archwilydd cyffredinol yn cyfeirio yn ei adroddiad at y sefyllfa anodd y mae Cyngor Ynys Môn ynddi—mae'r adroddiad yn cyfeirio at broblemau o ran ansefydlogrwydd yn dyddio o'r cyfnod cyn y newid statws o awdurdod fwrdeistref i awdurdod unedol. Mae'r rôl craffu wedi gwella, ac fel y dywedais yn y drafodaeth ddoe ar y Mesur Llywodraeth Leol Arfaethedig (Cymru), mae craffu da yn arwain at lywodraethu da a gwasanaethau da. Felly mae wedi gwella, ac mae hynny'n dilyn y cyfarwyddyd a roesom i'r cyngor yn gynharach eleni, a gwnaed newidiadau sylweddol i gyflawni hynny.

Erbyn hyn, mae'n amser am wleidyddiaeth aeddfed, Ieuan, a byddaf yn rhoi comisiynwyr ar waith a fydd yn gweithio'n galed gyda'r swyddogion a'r cynghorwyr sy'n barod i newid yr holl broses a'r gweithrediad i ddarparu gwasanaethau ar yr ynys. Gadewch inni fod yn glir am yr ymyrraeth hon: rwyf yn disgwyl ymateb gan yr aelodau a'r swyddogion sy'n gweithio gyda fy nghomisiynwyr. Mae cyfle mawr a her i adeiladu ymddiriedaeth a chefnogaeth ar draws bob ffin wleidyddol. Os nad yw hynny'n digwydd, yna ni fydd gennyf opsiynau ar ôl o ran yr hyn y dylwn ei wneud. Fodd bynnag, mae gennyf bob ffydd yn fy nghomisiynwyr, ac rwy'n gobeithio y bydd y cyngor yn manteisio o gydweithio'n agos â nhw.

O ran adroddiad y comisiwn ffiniau, ni soniais yn fwriadol am yr estyniad 2013, gan fy mod yn dal i weithio ar y cylch etholiadol ar gyfer llywodraeth leol. Rwy'n gobeithio y gall y comisiwn ffiniau gyflwyno'r adroddiad hwnnw mewn pryd ar gyfer adnewyddu democrataidd y rheolau ffiniau newydd. Mae angen i ni gael hynny ar waith erbyn mis Rhagfyr y flwyddyn nesaf ar yr hwyraf, os fydd hynny ar waith ar gyfer y system etholiadol nesaf.

Gan droi at yr argymhelliad i gael system faer, mae llawer mwy o bethau pwysicach y mae angen inni weithio arnynt cyn y gwneir y penderfyniad hwnnw. Nid wyf yn credu y

that the decision should be taken by the Minister, but by the citizens of the island. If the citizens on the island want a mayoral system, they should be balloted on that in a referendum.

Veronica German: Clearly, it is a sad day for local government, in that these interventions have had to take place. It is also clear that what has been happening there has been happening for a long time. The auditor general's special report gives a history of the situation before local government reorganisation, when similar problems occurred and re-occurred, with periods of stability being followed by periods of chaos, almost. Therefore, it is difficult.

I would concur with what Ieuan said about the staff at the council, because it is clear from the other report by the auditor general, the annual improvement report, that many of the services are being delivered well. The overall conclusion of the report was that the council had responded positively to ministerial intervention, but that much work was needed to implement plans. That was written in January, but by March the situation was very different. This instability is worrying. I do not think that anyone here wants to see intervention of this kind, and I hope that it is only for a short period of time and that the situation can be resolved. Improving democratic accountability and implementing democratic reform in a place that has had so many problems will, clearly, be difficult. Therefore, how, Minister, in working with the Electoral Commission, as you state, can the situation be improved for the future? We heard a lot of talk about the number of people putting themselves forward for election when we were talking about the Proposed Local Government (Wales) Measure. We also heard about the profile of councillors, and the situation in Anglesey in that respect is even more acute. How can that be taken forward? Clearly, if people see that councillors are behaving in a way that is failing the council, why would anyone want to belong to that organisation? Why would anyone want to put themselves forward to be beaten down, to be tarred with the same brush? There is a huge amount of work to be done there. Therefore, I would welcome your remarks on that.

dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan y Gweinidog, ond gan ddinasyddion yr ynys. Os yw'r dinasyddion ar yr ynys am gael system faer, dylid cynnal pleidlais ar hynny mewn refferendwm.

Veronica German: Yn amlwg, mae hwn yn ddiwrnod trist i lywodraeth leol, gan y bu'n rhaid i'r ymyriadau hyn ddigwydd. Mae hefyd yn glir bod yr hyn a fu'n digwydd yno yn digwydd ers amser maith. Mae adroddiad arbennig yr archwilydd cyffredinol yn rhoi hanes y sefyllfa cyn ad-drefnu llywodraeth leol, pan y gwnaeth problemau tebyg ddigwydd ac ail-ddigwydd, gyda chyfnodau o sefydlogrwydd yn cael eu dilyn gan gyfnodau o anhrefn, bron. Felly, mae'n anodd.

Byddwn yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Ieuan am y staff yn y cyngor, oherwydd mae'n amlwg o'r adroddiad arall gan yr archwilydd cyffredinol, yr adroddiad gwella blynyddol, bod nifer o'r gwasanaethau yn cael eu darparu'n dda. Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd bod y cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyrraeth gan Weinidogion, ond bod angen llawer o waith i weithredu cynlluniau. Ysgrifennwyd hwnnw ym mis Ionawr, ond erbyn mis Mawrth roedd y sefyllfa'n dra gwahanol. Mae'r ansefydlogrwydd hwn yn peri pryder. Ni thylbiaf fod unrhyw un yma eisiau gweld ymyrraeth o'r math hwn, a gobeithio mai dim ond am gyfnod byr y bydd ac y gellir datrys y sefyllfa. Bydd gwella atebolrwydd democrataidd a gweithredu diwygiadau democrataidd mewn lle a gafodd gynifer o broblemau yn anodd, yn amlwg. Felly, sut, Weinidog, drwy weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol, fel yr ydych yn ei nodi, y gellir gwella'r sefyllfa ar gyfer y dyfodol? Clywsom lawer o sôn am y nifer o bobl sy'n cynnig eu hunain ar gyfer etholiad pan oeddem yn sôn am y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru). Clywsom hefyd am broffil cynghorwyr, ac mae'r sefyllfa yn Ynys Môn yn hynny o beth hyd yn oed yn fwy difrifol. Sut y gellir datrys hynny? Yn amlwg, os yw pobl yn gweld bod cynghorwyr yn ymddwyn mewn ffordd sydd yn methu'r cyngor, pam fyddai unrhyw un am berthyn i'r mudiad hwnnw? Pam fyddai rhywun eisiau cyflwyno'u hunain dim ond i gael eu pardduo? Mae llawer iawn o waith i'w wneud yno. Felly, byddwn yn croesawu

eich sylwadau ar hynny.

We have talked about scrutiny, and that, too, has been exercising our minds over the past few months. I know that you say that it has improved, Minister, but the auditor general's report says that, on significant issues, scrutiny is often not very effective, and that there is inadequate preparation in holding the executive to account. In having commissioners instead of the executive while still having scrutiny committees, I am wondering how that will work, particularly given that, if the scrutiny committee goes against what the commissioners say—or against what officers say, as you put in your report—it can be referred to the commissioners. I am thinking of them as the executive, and it is as if the executive have the power to override—which it can anyway, of course, in any local government situation. How can councillors improve the scrutiny process while commissioners are in place, given that the dynamic is different?

On multimember wards, the boundary commission came up with that proposal last time, and it is up to the commission to do that, clearly. If it did so again, that would be a good thing.

3.45 p.m.

The report from the auditor general also talks about the remit of the interim managing director, though the report is not always clear. It says that the fact that he had no job description as such caused problems. Do you intend, when you appoint a new person, or the same person, to make absolutely clear what their remit is, as well as what the relationship is between the commissioners, the managing director or chief executive and the councillors and council officers?

I also note that, with all of the things that are going on, Gwynedd Council has indicated that it is withdrawing from some collaboration plans that were being put forward, which is sad. How do you hope to reignite those plans, with the help of the

Rydym wedi siarad am graffu, ac mae hynny, hefyd, wedi bod ar ein meddyliau yn ystod y misoedd diwethaf. Gwn eich bod yn dweud ei fod wedi gwella, Weinidog, ond dywedodd adroddiad yr archwilydd cyffredinol, ar faterion o bwys, nad yw craffu, yn aml, yn effeithiol iawn, ac nad oes digon o baratoi o ran dwyn y weithrediaeth i gyfrif. Wrth gael comisiynwyr yn hytrach na'r weithrediaeth tra'n dal i gael pwyllgorau craffu, rwy'n meddwl tybed sut y bydd hynny'n gweithio, yn enwedig os bydd y pwyllgor craffu yn mynd yn erbyn yr hyn mae'r comisiynwyr yn ei ddweud—neu yn erbyn yr hyn mae swyddogion yn ei ddweud, fel y dywedasochn yn eich adroddiad—y gellir ei gyfeirio at y comisiynwyr. Rwy'n meddwl amdanynt fel y weithrediaeth, ac mae fel pe bai gan y weithrediaeth y pŵer i anwybyddu unrhyw benderfyniad—y gall wneud beth bynnag, wrth gwrs, mewn unrhyw sefyllfa llywodraeth leol. Sut y gall cynghorwyr wella'r broses graffu tra bydd y comisiynwyr yn eu lle, gan fod y deinamig yn wahanol?

O ran wardiau aml-aelod, cyflwynodd y comisiwn ffiniau y cynnig hwnnw'r tro diwethaf, a chyfrifoldeb y comisiwn yw gwneud hynny, yn amlwg. Pe bai'n gwneud hynny eto, byddai hynny'n beth da.

Mae'r adroddiad gan yr archwilydd cyffredinol hefyd yn sôn am gylch gwaith y rheolwr gyfarwyddwr dros dro, er nad yw'r adroddiad bob amser yn glir. Mae'n dweud bod y ffaith nad oedd ganddo unrhyw ddisgrifiad swydd fel y cyfryw wedi achosi problemau. Pan fyddwch yn penodi person newydd, neu'r un person, a ydych yn bwriadu ei gwneud yn gwbl glir beth yw ei gylch gwaith, yn ogystal â beth yw'r berthynas rhwng y comisiynwyr, y rheolwr gyfarwyddwr neu'r prif weithredwr a'r cynghorwyr a swyddogion y cyngor?

Rwyf hefyd yn nodi, gyda'r holl bethau sy'n mynd ymlaen, fod Cyngor Gwynedd wedi nodi ei fod yn tynnu'n ôl o rai o'r cynlluniau cydweithio a gyflwynwyd, ac mae hynny'n drist. Sut ydych chi'n gobeithio ailgynnau'r cynlluniau hynny, gyda chymorth y

commissioners? I would be grateful if you could address those questions.

Carl Sargeant: Thank you for your questions, Veronica. Let us be clear: there are some very good members in the authority, but they are far too few in number. They are not able to come to the forefront due to the strength of some of the more disruptive members who we find ourselves working with on the island. We have not yet seen evidence of drastic service failure. That is because of the work put in by the staff. However, morale is down, and we have to work with our commissioners to gain trust and support, and to be able to deliver good services with our commissioners in place.

I will write to the Electoral Commission to ask how it feels it is able to help us, and how we can help the commission, in supporting the process of democratic renewal. I have spoken personally to people on the island who have asked, 'Why would we want to become councillors in this situation?' We have to change the environment in which the council operates, with officers and other staff members in the authority providing the kind of support that can allow good, new councillors to go about their duties. The Electoral Commission and I will discuss this in the near future.

Regarding the operational role of commissioners and executives, which you mentioned, the scrutiny function will remain the same. Our commissioners will make decisions and the scrutiny process will then take place. You are quite right: if it is found that the council or the scrutiny process is operating outside statutory boundaries, it will ultimately be for the commissioners to make a decision on that, and we will remove that function from those councillors.

We note the references in the auditor general's report to job descriptions and support for the interim chief executive. I will work to ensure that we put that right for the future and that we strengthen that element. You mentioned Gwynedd Council and collaboration. I will correct you on one issue:

comisiynwyr? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r cwestiynau hynny.

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cwestiynau, Veronica. Gadewch inni fod yn glir: mae rhai aelodau da iawn yn yr awdurdod, ond nid oes digon ohonynt. Nid ydynt yn gallu dod i'r amlwg oherwydd cryfder rhai o'r aelodau mwy trafferthus y cawn ein hunain yn gweithio â hwy ar yr ynys. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o wasanaethau'n methu mewn modd eithafol eto. Mae hynny oherwydd y gwaith a wnaed gan staff. Fodd bynnag, mae hyder yn isel, ac mae'n rhaid inni weithio gyda'n comisiynwyr i ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth, ac i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau da gyda'n comisiynwyr yn eu lle.

Byddaf yn ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol i ofyn sut y mae'n teimlo y gall ein helpu, a sut y gallwn helpu'r comisiwn, wrth gefnogi'r broses adnewyddu ddemocrataidd. Rwyf wedi siarad yn bersonol â phobl ar yr ynys sydd wedi gofyn, 'Pam y byddem am fod yn gynghorwyr yn y sefyllfa hon?' Mae'n rhaid inni newid yr amgylchedd lle mae'r cyngor yn gweithredu, gan sicrhau bod swyddogion a staff eraill yn yr awdurdod yn darparu'r math o gymorth sy'n caniatáu i gynghorwyr newydd, da gyflawni eu dyletswyddau. Byddaf yn trafod hyn â'r Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol agos.

O ran rôl weithredol comisiynwyr a swyddogion gweithredol, fel y crybwyllwyd gennych, bydd y swyddogaeth graffu yn aros yr un fath. Bydd ein comisiynwyr yn gwneud penderfyniadau ac yna cynhelir y broses graffu. Rydych yn llygad eich lle: os canfyddir bod y cyngor neu'r broses graffu yn gweithredu y tu allan i ffiniau statudol, y comisiynwyr a fydd yn gwneud penderfyniad ar hynny yn y pen draw, a byddwn yn cymryd y swyddogaeth honno oddi wrth y cynghorwyr hynny.

Rydym yn nodi'r cyfeiriadau yn adroddiad yr archwilydd cyffredinol i ddisgrifiadau swydd a chymorth ar gyfer y prif weithredwr dros dro. Byddaf yn gweithio i sicrhau ein bod yn cywiro hynny ar gyfer y dyfodol a'n bod yn cryfhau'r elfen honno. Soniasoch am Gyngor Gwynedd a chydweithio. Byddaf yn eich

the council was due to take part in a scoping study with Anglesey; it was not due to collaborate on services. Gwynedd has chosen to put that on hold, quite rightly, due to the instability on the island. I do not believe that it would not be possible to review that decision at a later, more appropriate date, when the commissioners and the council come out of the other side of this intervention.

Mark Isherwood: This is clearly worrying. Like many, I know a number of the county councillors in that council and I know that many of them are very ethical, upstanding and hardworking people. The Minister referred, for example, to Wylfa B, and, in December, I attended a community workshop with Horizon Nuclear Power to look at the Wylfa project. The workshop was attended by a large number of county councillors, who were fully engaged in looking to Wylfa's future. I therefore know that this is not a universal problem. I also know that some of the bickering—a word that may have been used occasionally in this context—between certain councillors may relate to some other issues that are under investigation, as you indicated.

I have been party to some of the issues referred to by the auditor general, among others. Some councillors may be keener than others to bury those issues, and some may be keener than others to ensure public transparency and accountability. Everyone who has watched *Dragon's Eye* over the years knows the number of times that planning on Anglesey has come up. More recently, serious concerns have been raised in relation to home improvement grants, town improvement grants and other matters, some of which are still under investigation. Therefore, I hope that you will concur that some of the divisions between councillors may be between those who are trying to ensure some transparency and accountability and others who are not. However, as you have indicated, there are wider issues regarding stability of governance, which must be addressed.

cywiro ar un mater: roedd y cyngor i fod i gymryd rhan mewn astudiaeth gwmpasu gydag Ynys Môn; nid oedd i fod i gydweithio ar wasanaethau. Mae Gwynedd wedi dewis gohirio hynny, sy'n gwbl briodol, oherwydd ansefydlogrwydd ar yr ynys. Nid wyf yn credu na fyddai'n bosibl adolygu'r penderfyniad hwnnw yn ddiweddarach, ar adeg fwy priodol, pan fydd y comisiynwyr a'r cyngor yn dod allan o ochr arall yr ymyriad hwn.

Mark Isherwood: Wrth reswm, mae hyn yn peri pryder. Fel llawer, rwy'n adnabod llawer o gynghorwyr sir yn y cyngor hwnnw a gwn fod llawer ohonynt yn bobl foesegol iawn, yn uchel eu parch ac yn gweithio'n galed. Cyfeiriodd y Gweinidog, er enghraifft, at Wylfa B, ac, ym mis Rhagfyr, bûm mewn gweithdy cymunedol gyda Horizon Nuclear Power i edrych ar brosiect Wylfa. Aeth nifer fawr o gynghorwyr sir i'r gweithdy, ac roeddent yn cymryd rhan lawn yn y broses o edrych ar ddyfodol Wylfa. Felly, rwy'n gwybod nad yw hyn yn broblem gyffredinol. Rwyf hefyd yn gwybod y gallai rhywfaint o'r cecru—sydd efallai'n air sydd wedi cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd yn y cyddestun hwn—rhwng rhai o'r cynghorwyr fod yn ymwneud â rhai materion eraill sy'n destun ymchwiliad, fel y dywedasoeh.

Rwy'n ymwybodol o rai o'r materion y cyfeiriwyd atynt gan yr archwilydd cyffredinol, ymysg eraill. Efallai y bydd rhai cynghorwyr yn fwy awyddus nag eraill i gladdu'r materion hynny, ac efallai y bydd rhai'n fwy awyddus nag eraill i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus. Bydd pawb sydd wedi gwyllo *Dragon's Eye* dros y blynyddoedd yn gwybod sawl tro y crybwyllwyd cynllunio ar Ynys Môn. Yn fwy diweddar, mae pryderon difrifol wedi'u codi mewn perthynas â grantiau gwella tai, grantiau gwella trefi a materion eraill, ac mae rhai ohonynt yn dal i gael eu hymchwilio. Felly, rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno y gall rhai o'r rhaniadau rhwng cynghorwyr fod rhwng y rhai sy'n ceisio sicrhau rhywfaint o dryloywder ac atebolrwydd ac eraill nad ydynt yn gwneud hynny. Fodd bynnag, fel yr ydych wedi nodi, mae materion ehangach sy'n ymwneud â sefydlogrwydd llywodraethu y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt.

You referred to the appointment of certain commissioners. This is not the first council in north Wales to have failed in recent years. There was no intervention in the other council, even though serious failings were upheld in a series of PricewaterhouseCoopers reports into a housing function and an independent investigation that found further major failings and concerns in that area. There was also a legally binding 40-page industrial tribunal document, which named and shamed a number of people on a number of serious matters. Why has the person who led the council during the period to which those validated failings apply been appointed as a commissioner to Anglesey to drive forward improvement on a failed authority?

Carl Sargeant: Thank you for your contribution. You are quite right in what you say; the Horizon project at Wylfa B is of significant value, not only to the island of Anglesey but to the economy of Wales. That is something that we cannot leave to chance with regard to taking a strategic and economic development programme forward on the island. You referred to some of the problems as ‘bickering’. Believe me, some of the matters being dealt with on the island relate to much more than bickering. On the matters that you raised around *Dragons’s Eye* and the auditor general, that would not be a matter for me, but for the individuals concerned.

I am slightly dismayed that you cannot support the principle of commissioners for the island or the individuals. The process is being drawn up through a process of noting potential criteria, identifying the candidates, long listing, short listing and interviewing as the normal process would dictate. I am disappointed that you are unable to support that proposal today.

Y Llywydd: Gan na osodwyd cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad heddiw, symudwn at yr eitem nesaf.

Cyfeiriasoch at benodi comisiynwyr penodol. Nid hwn yw'r cyngor cyntaf yng ngogledd Cymru i fethu yn y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd unrhyw ymyrraeth yn y cyngor arall, er bod diffygion difrifol wedi eu nodi mewn cyfres o adroddiadau PricewaterhouseCoopers ar swyddogaeth tai ac ymchwiliad annibynnol a wnaeth ganfod diffygion a phryderon sylweddol pellach yn y maes hwnnw. Roedd hefyd ddogfen 40 tudalen o hyd gan driwilydd diwydiannol, a oedd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, a oedd yn enwi a chywilyddio nifer o bobl mewn perthynas â nifer o faterion difrifol. Pam mae'r person a arweiniodd y cyngor yn ystod y cyfnod y mae'r diffygion hynny—sydd wedi'u cadarnhau—yn berthnasol wedi cael ei benodi fel comisiynydd ar Ynys Môn i yrru gwelliant yn ei flaen mewn awdurdod sydd wedi methu?

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cyfraniad. Rydych yn hollol gywir yn yr hyn a ddywedasoch; mae'r prosiect Horizon yn Wylfa B o werth sylweddol, nid yn unig i Ynys Môn ond i economi Cymru. Mae hynny'n rhywbeth na allwn adael i siawns o ran cymryd rhaglen ddatblygu strategol ac economaidd ymlaen ar yr ynys. Cyfeiriasoch at rai o'r problemau fel ‘cecran’. Credwch fi, mae rhai o'r materion yr ymdrinnir â hwy ar yr ynys yn ymwneud â llawer mwy na checran. O ran y materion a godwyd gennych mewn perthynas â *Dragons’s Eye* a'r archwilydd cyffredinol, ni fyddai hynny'n fater i mi, ond i'r unigolion o dan sylw.

Rwy'n siomedig braidd na allwch gefnogi'r egwyddor o gomisiynwyr i'r ynys neu'r unigolion. Mae'r broses yn cael ei llunio drwy broses o nodi meini prawf posibl, adnabod yr ymgeiswyr, llunio rhestr hir a rhestr fer, a chyfweld yn unol â'r hyn a fyddai'n ofynnol o dan y broses arferol. Rwy'n siomedig na allwch gefnogi'r cynnig hwnnw heddiw.

The Presiding Officer: As there are no questions tabled for the Assembly Commission, we will move to the next item.

Gohirio'r Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

Cynnig NDM4701 Jane Hutt

Motion NDM4701 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:

That the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders 35.6 and 35.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM4702 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Mawrth 2011.

Suspends Standing Order 7.18 (i) and that part of Standing Order 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow NNDM4702 to be considered in Plenary on Wednesday 16 March 2011.

Jane Hutt: I move the motion.

Jane Hutt: Cynigiau y cynnig.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw ein bod yn gohirio'r Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: The proposal is that we suspend Standing Orders. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Cynnig mewn Cysylltiad ag Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Motion in Relation to the National Assembly for Wales General Election 2015

Cynnig NNDM4702 Carwyn Jones, Ieuan Wyn Jones, Nick Bourne, Kirsty Williams

Motion NNDM4702 Carwyn Jones, Ieuan Wyn Jones, Nick Bourne, Kirsty Williams

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales :

1. Yn nodi'r gwrthdaro posibl rhwng dyddiadau etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015;

1. Notes the potential clash of UK and National Assembly for Wales general election dates in 2015;

2. Yn gwahodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i bennu mai dyddiad etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad, ar ôl 5 Mai 2011, fydd dydd Iau 5 Mai 2016;

2. Invites the UK Government to set the next Assembly general election after 5 May 2011 for Thursday 5 May 2016 ;

3. Yn edrych ymlaen at ymgynghoriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddarpariaeth ddeddfwriaethol a fyddai'n

3. Looks forward to UK Government consultation on a legislative provision that would set apart UK and Welsh general

gwahaniaethu'n barhaol rhwng y dyddiadau ar gyfer etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig a'r dyddiadau ar gyfer etholiadau cyffredinol Cymru.

The First Minister (Carwyn Jones): I move the motion in the name of the four party leaders.

This motion has come about because of the decision of the UK Government to hold the next general election on the same day, potentially, as the Assembly election in 2015. I know that there will be a mixture of views in the Chamber as to whether that is the right thing to do. I know that it is also right to say that it is not clear yet whether that general election will be held in 2015. Nevertheless, this is a proposal by the UK Government and is something that the Assembly as an institution will wish to have a view on.

There are immense difficulties in holding a UK general election on the same day as an Assembly election. First, should the referendum on the alternative vote system be successful in May, voters would enter the polling stations with three ballot papers. Two would require them to put crosses, and the other would require them to put numbers. We know that when the 2007 Scottish Parliament elections were held on the same day as the local government elections, using different electoral systems, the outcome was chaotic. We know that there were great difficulties in declaring results across the board, and that is something that we wish to avoid in Wales.

We also know that, should the elections take place on the same day, it is likely that they would take place within different constituency boundaries, as the boundaries of Assembly constituencies would be different from those of parliamentary constituencies. That would inevitably mean confusion on the part of voters and on those who are counting the ballot papers. It also means that it would make it exceptionally difficult for the Royal Mail to ensure that leaflets delivered by freepost go to the right address. It is also correct to say that it would make things

election dates on a permanent basis.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Cynigiad y cynnig yn enw arweinwyr y pedair plaid.

Mae'r cynnig hwn wedi codi oherwydd penderfyniad Llywodraeth y DU i gynnal yr etholiad cyffredinol nesaf ar yr un diwrnod, o bosibl, ag etholiad y Cynulliad yn 2015. Rwy'n gwybod y bydd cymysgedd o safbwyntiau yn y Siambr ynghylch ai dyna'r peth iawn i'w wneud. Rwy'n gwybod ei bod yn iawn i ddweud hefyd nad yw'n glir eto a fydd yr etholiad cyffredinol hwnnw'n cael ei gynnal yn 2015. Fodd bynnag, mae hwn yn gynnig gan Lywodraeth y DU ac mae'n rhywbeth y bydd y Cynulliad fel sefydliad yn dymuno mynegi ei farn arno.

Byddai cynnal etholiad cyffredinol y DU ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad yn achosi anawsterau aruthrol. Yn gyntaf, os bydd y refferendwm ar y system pleidlais amgen yn llwyddiannus ym mis Mai, bydd pleidleiswyr yn mynd i mewn i'r gorsafoedd pleidleisio gyda thri phapur pleidleisio. Byddai angen iddynt roi croesau ar ddau ohonynt a rhifau ar y llall. Pan gynhaliwyd etholiadau i Senedd yr Alban yn 2007 ar yr un diwrnod â'r etholiadau llywodraeth leol, gan ddefnyddio systemau etholiadol gwahanol, rydym yn gwybod i'r canlyniad fod yn anhrefnus iawn. Rydym yn gwybod bod anawsterau sylweddol wrth ddatgan canlyniadau yn gyffredinol, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn dymuno ei osgoi yng Nghymru.

Rydym hefyd yn gwybod, os caiff yr etholiadau eu cynnal ar yr un diwrnod, mae'n debygol y byddant yn cymryd lle o fewn ffiniau etholaeth gwahanol, gan y byddai ffiniau etholaethau'r Cynulliad yn wahanol i ffiniau'r etholaethau seneddol. Mae'n anochel y byddai hynny'n golygu dryswch ar ran y pleidleiswyr a'r rhai sy'n cyfrif y papurau pleidleisio. Byddai hefyd yn golygu y byddai'n ei gwneud yn eithriadol o anodd i'r Post Brenhinol sicrhau bod taflenni a anfonir drwy radbost yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Mae hefyd yn gywir i ddweud y

difficult for political parties fighting those elections. I suspect that the organisation would be very difficult. It would be immensely complicated to produce an accurate return on expenditure with different constituencies with different boundaries, so the scope for confusion remains.

There is also the important principle that the people of Wales should have a free run, as it were, at having an election to elect the Welsh Government in 2016. There has already been a vote on this issue in the Scottish Parliament. The terminology of the motion before us today is identical to the motion presented to the Scottish Parliament. It received all-party agreement there. Therefore, the Scottish parliamentary elections will take place not in 2015 but on 5 May 2016. That was the request made to the UK Government, and I believe that that request has been agreed to.

It is important that we should say to the people of Wales before the election on 5 May the length of the term for which they will be electing their Assembly Members. I do not believe that it would be right for the length of the Assembly term to be altered after an election has taken place. I do not believe that that would demonstrate honesty to the people of Wales, and I think that it is right to debate the matter now.

Should the Assembly wish to support the motion, the result will be conveyed to the UK Government, and I understand that the UK Government will then look favourably on moving the Assembly election. However, there remains an issue with regard to 2020. Should the UK general election take place in 2015, with a five-year term for whichever Government is elected, and should the Assembly election take place in 2016 with a four-year term, the same situation arises again in 2020. That is why the third point of the motion makes reference to the fact that a more permanent solution will need to be sought beyond 2016 to ensure that there is no clash in any further year and on any further date.

I have to emphasise that, ultimately, this is a matter for the UK Government. It is for it to decide the date of the Assembly election, but

byddai'n gwneud pethau'n anodd i'r pleidiau gwleidyddol a fydd yn ymladd yr etholiadau hynny. Rwy'n amau y byddai'n anodd iawn i drefnu. Byddai'n gymhleth iawn i gynhyrchu elw cywir ar fuddsoddiad pan fo etholaethau gwahanol sydd â ffiniau gwahanol, felly mae'r cwmpas ar gyfer dryswch yn parhau.

Mae yna hefyd yr egwyddor bwysig y dylai pobl Cymru gael rhwydd hynt, fel petai, i gael etholiad i ethol Llywodraeth Cymru yn 2016. Cynhaliwyd pleidlais ar y mater hwn yn Senedd yr Alban yn barod. Mae terminoleg y cynnig ger ein bron heddiw yn union yr un fath â'r cynnig a gyflwynwyd gerbron Senedd yr Alban. Cytunodd pob plaid arno yno. Felly, cynhelir etholiadau Senedd yr Alban, nid yn 2015, ond ar 5 Mai 2016. Dyna oedd y cais a wnaed i Lywodraeth y DU, a chredaf fod y cais wedi cael ei gymeradwyo.

Mae'n bwysig ein bod yn dweud wrth bobl Cymru beth fydd hyd y tymor y byddant yn ethol eu Haelodau Cynulliad ar ei gyfer cyn yr etholiad ar 5 Mai. Nid wyf yn credu y byddai'n iawn i newid hyd tymor y Cynulliad ar ôl cynnal etholiad. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n dangos gonestrwydd i bobl Cymru, ac rwy'n meddwl ei fod yn iawn i drafod y mater yn awr.

Os bydd y Cynulliad yn dymuno cefnogi'r cynnig, bydd y canlyniad yn cael ei gyfleu i Lywodraeth y DU, a deallaf y bydd Llywodraeth y DU yn edrych yn ffafriol ar symud etholiad y Cynulliad. Fodd bynnag, mae problem yn parhau o ran 2020. Os bydd etholiad cyffredinol y DU yn cael ei gynnal yn 2015, gyda chyfnod o bum mlynedd i ba bynnag Lywodraeth a chaiff ei hethol, ac os bydd etholiad y Cynulliad yn cael ei gynnal yn 2016 gyda thymor o bedair blynedd, bydd yr un sefyllfa yn codi eto yn 2020. Dyna pam mae'r trydydd pwynt yn y cynnig yn cyfeirio at y ffaith y bydd angen ceisio ateb mwy parhaol y tu hwnt i 2016 i sicrhau nad oes gwrthdaro mewn unrhyw flwyddyn arall ac ar unrhyw ddyddiad pellach.

Rhaid imi bwysleisio, yn y pen draw, fod hwn yn fater i Lywodraeth y DU. Mae'n fater iddi hi benderfynu ar ddyddiad etholiad y

this motion would invite it to take a certain course of action. It is important that the Assembly is able to give its view today in order that the UK Government knows the view of the entire Assembly.

Cynulliad, ond byddai'r cynnig hwn yn ei gwahodd i weithredu mewn ffordd benodol. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn gallu rhoi ei farn heddiw er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gwybod beth yw barn y Cynulliad cyfan.

Y Llywydd: Gan fod y cynnig hwn wedi ei gynnis a'i gefnogi gan arweinyddion y pleidiau i gyd a gan nad oes unrhyw un wedi dweud eu bod am siarad, yr wyf yn cymryd y gallaf symud ymlaen i ofyn y cwestiwn yn syth. Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: As the motion has been proposed and supported by all party leaders and as no-one has indicated that they wish to speak, I take it that I can move on to put the question immediately. The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.58 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.58 p.m.*

Cynnig i Benodi Archwilwyr ar gyfer Cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru Motion to Appoint Auditors to the Accounts of the Auditor General for Wales

Cynnig NDM4695 Darren Millar

Motion NDM4695 Darren Millar

Yn unol â pharagraff 14(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Archwilydd Cyffredinol yr Alban yn archwilydd i gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010 – 2011, yn unol â'r telerau yn y Memorandwm dyddiedig 9 Mawrth 2011 y cytunwyd arnynt gan yr Archwilydd Cyffredinol yr Alban a'r Archwilydd Cyffredinol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, acting under paragraphs 14(1) and (6) of Schedule 8 to the Government of Wales Act 2006, appoints the Auditor General for Scotland as the auditor of the accounts of the Auditor General for Wales, in relation to the year of account 2010-2011, on the terms contained in a memorandum dated 9 March 2011 agreed with the Auditor General for Scotland and the Auditor General for Wales.

Darren Millar: I move the motion.

Darren Millar: Cynigiau y cynnig.

In moving the motion, on behalf of the Public Accounts Committee, I wish to recommend that the Auditor General for Scotland be appointed as the auditor of the accounts of the Auditor General for Wales for the financial year 2010-2011. I recommend this appointment on the terms contained in the memorandum, dated 9 March 2011, agreed with the Auditor General for Scotland and the Auditor General for Wales. This memorandum has been circulated to all Assembly Members.

Wrth gyflwyno'r cynnig, ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, hoffwn argymhell bod Archwilydd Cyffredinol yr Alban yn cael ei benodi fel archwilydd cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011. Rwy'n argymhell y penodiad ar y telerau sydd wedi'u cynnwys yn y memorandwm, dyddiedig 9 Mawrth 2011, a gytunwyd gydag Archwilydd Cyffredinol yr Alban ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r memorandwm wedi cael ei gylchredeg i holl Aelodau'r

Cynulliad.

The rationale of this new appointment is the need for the National Assembly to act swiftly to address the unfortunate termination of the previous contract by mutual consent. The appointment that I am recommending today will allow time for a full retendering exercise to be conducted for subsequent years, while ensuring that a thorough audit is conducted for the financial year 2010-11.

Rhesymeg y penodiad newydd hwn yw'r angen i'r Cynulliad Cenedlaethol weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r modd anffodus y terfynwyd y contract blaenorol drwy gydsyniad. Bydd y penodiad rwy'n argymhell heddiw yn caniatáu amser ar gyfer cynnal ymarfer ail-dendro llawn ar gyfer y blynyddoedd dilynol, wrth sicrhau bod archwiliad trylwyr yn cael ei gynnal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11.

Under paragraph 14 of Schedule 8 to the Government of Wales Act 2006, the Assembly is required to appoint an auditor of the accounts of the Auditor General for Wales. Standing Orders place the responsibility of advising the Assembly in the exercise of this function with the Public Accounts Committee. I urge Members to support the motion.

O dan baragraff 14 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i'r Cynulliad benodi archwilydd i gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Rheolau Sefydlog yn rhoi'r cyfrifoldeb dros gynghori'r Cynulliad, wrth iddo arfer y swyddogaeth hon, i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau.

The Deputy Presiding Officer: There are no other speakers. The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Y Dirprwy Lywydd: Nid oes siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

4.00 p.m.

Cynnig i Ail-wneud y Rheolau Sefydlog Motion to Remake the Standing Orders

Cynnig NDM4692 Dafydd Elis-Thomas

Motion NDM4692 Dafydd Elis-Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 35.2 yn:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 35.2:

1. Ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Adolygiad o Reolau Sefydlog wrth baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad' a osodwyd ar y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2011;

1. Considers the Report of the Business Committee 'Review of Standing Orders in preparation for the Fourth Assembly' laid in the Table Office on 9 March 2011;

2. Cymeradwyo'r cynnig i ail-wneud y Rheolau Sefydlog, fel y'i nodir yn Atodiad 4 o adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar 5 Mai 2011.

2. Approves the proposal to remake the Standing Orders, as set out in Annex 4 of the Report of the Business Committee, to take effect from 5 May 2011.

Y Llywydd: Cynigiau y cynnig.

The Presiding Officer: I move the motion.

Nick Ramsay: I will say a few words as the business manager for my group, and as a member of the Business Committee who sat through the process of formulating the new Standing Orders. I thank the committee clerks for the amount of work that went into the process of formulating the new Standing Orders. I appreciate that this is probably not a topic that preoccupies many dinner tables around Wales, but nonetheless it is important. Over time, as the Assembly has grown in importance to the people of Wales and to the lives of those who live here, the Standing Orders, which govern what we do in the Chamber, have also grown in importance. It did come across that many of the practices that we have developed in the Chamber do not always correlate with the current Standing Orders, therefore I welcome the role that I was able to play, alongside the other members of the Business Committee, in developing Standing Orders that are more suited to what we are trying to do. It is not down to us, as the new Members in the fourth Assembly will have to ratify the new Standing Orders, but I think that we have given them a framework that will help them immeasurably.

Finally, one success of this Assembly has been the role of the Finance Committee, whose Chair is sitting behind me. In the new Standing Orders, there is the capacity for the scrutiny of finance in the Assembly, but it is not written in so many words that there will be a finance committee. I hope that in the next Assembly we will have such a committee, as it has been successful in providing cross-party scrutiny of the finances of the Assembly and the Assembly Government. I am happy to support this motion.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i Nick Ramsay am ei gyfraniad ac mae'n bleser gennyf gytuno ag ef. Nid wyf yn mynd i'w longyfarch eto ar ganlyniad sir Fynwy yn refferendwm y Cynulliad. Hoffwn ddiolch, fel y gwnaeth Nick, i fy nghyd-Aelodau ar y Pwyllgor Busnes. Yn gyffredinol, nid yw pwyllgorau busnes yn byw heb feirniadaeth mewn sawl senedd arall sydd â phwyllgor o'r fath. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud bod y

Nick Ramsay: Rwyf am ddweud ychydig o eiriau fel rheolwr busnes fy ngrŵp, ac fel aelod o'r Pwyllgor Busnes a eisteddodd drwy'r broses o lunio'r Rheolau Sefydlog newydd. Hoffwn ddiolch i glercod y pwyllgor am yr holl waith a aeth i mewn i'r broses o lunio'r Rheolau Sefydlog newydd. Rwy'n gwerthfawrogi nad yw hwn yn bwnc sy'n ymddiddori pobl o amgylch byrddau cinio ledled Cymru yn ôl pob tebyg, ond serch hynny mae'n bwysig. Dros amser, wrth i'r Cynulliad ddod yn fwy pwysig i bobl Cymru ac i fywydau'r rhai sy'n byw yma, mae'r Rheolau Sefydlog, sy'n rheoli'r hyn rydym yn ei wneud yn y Siambr, hefyd wedi dod yn fwy pwysig. Rhoddwyd yr argraff nad yw llawer o'r arferion yr ydym wedi'u datblygu yn y Siambr bob amser yn cyfateb i'r Rheolau Sefydlog presennol, felly rwy'n croesawu'r rôl roeddwn yn gallu ei chwarae, ochr yn ochr ag aelodau eraill y Pwyllgor Busnes, yn y broses o ddatblygu Rheolau Sefydlog sy'n fwy addas i'r hyn rydym yn ceisio ei wneud. Nid mater i ni yw hwn, gan y bydd yn rhaid i'r Aelodau newydd yn y pedwerydd Cynulliad gadarnhau'r Rheolau Sefydlog newydd, ond rwy'n meddwl ein bod wedi rhoi fframwaith iddynt a fydd yn eu helpu i raddau anfesuradwy.

Yn olaf, un o lwyddiannau'r Cynulliad hwn yw rôl y Pwyllgor Cyllid. Mae Cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn eistedd y tu ôl i mi. Yn y Rheolau Sefydlog newydd, mae capasiti i graffu ar gyllid yn y Cynulliad, ond nid yw wedi'i nodi mewn geiriau y bydd yna bwyllgor cyllid. Rwy'n gobeithio y bydd pwyllgor o'r fath yn y Cynulliad nesaf, oherwydd mae wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu gwaith craffu trawsbleidiol ar gyllid y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Rwy'n hapus i gefnogi'r cynnig.

The Presiding Officer: I thank Nick Ramsay very much for his contribution and it is my pleasure to agree with him. I will not congratulate him again on the result of the referendum in Monmouthshire. I would like to thank, as Nick did, my fellow members of the Business Committee. As a general rule, business committees do not exist without criticism in a number of other parliaments with such committees. However, I have to

Pwyllgor Busnes yn y trydydd Cynulliad wedi bod yn un cartrefol iawn i gydweithio ag ef, ac yn un a oedd yn gwneud y gwaith caled o reoli busnes, gan gynnwys y pwyllgorau a threfn y pwyllgorau, yn hynod effeithiol. Felly, yr oedd yn arbennig o heriol i ni ein bod wedi mynd yn gyhoeddus i wneud astudiaeth ac ymgynghoriad ar y Rheolau Sefydlog, a chawsom dystiolaeth werthfawr iawn ar hynny. Hefyd, bu'r drafodaeth o fewn y grwpiau gwleidyddol yn greadigol ac yr wyf yn ddiolchgar i aelodau'r grwpiau am hynny ac i'm cydweithwyr ar y Pwyllgor Busnes, trefnyddion busnes y pleidiau, am eu cydweithrediad. Wrth gwrs, ni allwn wneud dim yn y lle hwn heb ein swyddogion, ac felly mae hwn yn gyfle i mi, wrth i mi ymateb i'r ddadl, ddiolch i bob un o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fyddai'n enwi neb; yr wyf yn edrych ar rai ohonoch o fy mlaen ar hyn o bryd. Yr wyf yn hynod o ddiolchgar i chi am y gwaith.

Diben Rheolau Sefydlog tryloyw a dealladwy yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud ei fusnes hyd yn oed yn well. Mae penderfyniad pobl Cymru yn y refferendwm diweddar wedi dangos bod ganddynt hyder ynom. Mae lan i'r pedwerydd Cynulliad wneud ei fusnes mewn ffordd yr un mor dryloyw fel bod pobl Cymru yn gallu cyfranogi hyd yn oed yn well ym mhrosesau'r Cynulliad. Gyda'r hyblygrwydd newydd yn y Rheolau Sefydlog, byddwn yn gallu gwario ein hadnoddau yn effeithlon a byddwn yn gallu sicrhau bod democratiaeth Cymru yn dryloyw ac effeithiol.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Bolisiau Cynllunio yng Nghymru The Sustainability Committee's Report on Planning in Wales

Cynnig NDM4693 Kirsty Williams

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

say that the Business Committee in the third Assembly has been a comfortable one to work with, and one that has done the difficult work of managing business, including the committees and order in committees, very effectively. Therefore, it was a particular challenge to us to undertake a public review and consultation on Standing Orders, and we received very valuable evidence. The discussion within political groups was also creative and I am grateful to the members of the groups for that and to my colleagues on the Business Committee, the party business managers, for their co-operation. Of course, we could do nothing in this place were it not for our officials, and therefore this is an opportunity for me, in responding to the debate, to thank each and every one of the officials of the National Assembly. I will not name anyone; I am looking at some of you in front of me as I speak. I am extremely grateful to you for the work.

The aim of transparent and intelligible Standing Orders is to enable the National Assembly to carry out its business even more effectively. The decision of the people of Wales in the recent referendum has demonstrated that they have confidence in us. It is up to the fourth Assembly to carry out its business in the same transparent manner so that the people of Wales can participate even more effectively in the Assembly's processes. With the new flexibility in Standing Orders, we will be able to use our resources efficiently and ensure that Welsh democracy is transparent and effective.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw: a ddylid cytuno ar y cynnig? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

Motion NDM4693 Kirsty Williams

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ymchwiliad i bolisiau Cynllunio yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ionawr 2011.

Kirsty Williams: I move the motion.

There are few policy areas that have as wide-ranging an impact as planning. From sustainable development, economic regeneration and energy policy to transport, biodiversity, housing and healthy living, planning policy plays a central role in how Government policies are delivered on the ground in our communities. Unsurprisingly, therefore, this was a lengthy inquiry, with a written consultation between April and June 2010 and oral evidence taken at seven sessions between June and October 2010.

The terms of reference for the inquiry were to look at how successful national and local land use planning policies are in delivering key Welsh Government objectives, for example, on climate change, the delivery of affordable housing, and economic development and renewal. In setting the parameters of the planning inquiry, we deliberately decided not to look at the planning application system itself, as we felt that this had already been well covered in the review conducted by GVA Grimley on behalf of the Welsh Assembly Government. The committee therefore decided instead to focus its attention and time on the development of planning policy at both the national and local level and on how successfully these contribute to the delivery of key Welsh Government objectives. In carrying out its work, the committee received written evidence from 41 organisations, while 39 individuals gave oral evidence to the committee.

The committee members are grateful to all of those who gave of their time and expertise to inform the work of the committee. On behalf of the committee, I would also like to thank our clerking team, which, as usual, has been superb in its role of supporting the committee, as well as the Members' research service, and I am also grateful to Roisin

Notes the report of the Sustainability Committee on Planning in Wales which was laid in the Table Office on 27 January 2011.

Kirsty Williams: Cynigiau y cynnig.

Ychydig iawn o feysydd polisi sy'n cael effaith mor eang â chynllunio. O ddatblygu cynaliadwy, adfywio economaidd a pholisi ynni i drafnidiaeth, bioamrywiaeth, tai a byw yn iach, mae polisi cynllunio yn chwarae rôl ganolog yn y modd y polisiau Llywodraeth yn cael eu rhoi ar waith ar lawr gwlad yn ein cymunedau. Nid yw'n syndod, felly, y bu hwn yn ymchwiliad hirfaith, gydag ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2010 a thystiolaeth lafar yn cael ei chymryd mewn saith sesiwn rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2010.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd edrych ar ba mor llwyddiannus yr oedd polisiau cynllunio defnydd tir cenedlaethol a lleol o ran cyflawni amcanion allweddol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, darparu tai fforddiadwy, a datblygu ac adnewyddu economaidd. Wrth bennu paramedrau'r ymchwiliad cynllunio, rydym wedi penderfynu yn fwriadol i beidio ag edrych ar y system o geisiadau cynllunio system ei hun, gan ein bod yn teimlo bod hyn eisoes wedi cael llawer o sylw yn yr adolygiad a gynhaliwyd gan GVA Grimley ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, yn lle hynny, penderfynodd y pwyllgor ganolbwyntio ei sylw ac amser ar ddatblygu polisi cynllunio ar lefel genedlaethol a lleol a chanolbwyntio hefyd ar ba mor llwyddiannus y mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Wrth gyflawni ei waith, cafodd y pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan 41 sefydliad, tra rhoddodd 39 o unigolyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor.

Mae aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i gynorthwyo â gwaith y pwyllgor. Ar ran y pwyllgor, hoffwn hefyd ddiolch i'n tîm clericio, sydd, fel arfer, wedi bod yn wych yn ei rôl o gefnogi'r pwyllgor, yn ogystal â gwasanaeth ymchwil yr Aelodau, ac rwyf hefyd yn ddiolchgar i Roisin Wilmott o'r

Wilmott of the Royal Town Planning Institute and Neil Harris of Cardiff University for acting as expert advisers to the committee for the duration of this inquiry. Their expertise and knowledge of the field has been invaluable in informing Members' deliberations and in constructing this report.

I turn to the report's recommendations and the responses to those recommendations. The committee was heartened to find that there is much that works well in current planning policy. However, it is the committee's role to highlight those areas where changes need to be made and to make recommendations to the Welsh Government to that effect. The report contains 30 recommendations, all of which we believe would improve how the planning system operates in Wales and would assist the Welsh Government in delivering its policy objectives. I thank the Minister for her response to the committee's report, which was laid last week.

Initially, I was pleased that the Minister had seen fit to accept the vast majority of our recommendations in what would appear—at first sight, at least—to be a very positive response. However, I am sorry to say that once we delve into the detail of the response, we find that the Minister's claim to have accepted some responses is directly contradicted in the text. Of the 22 recommendations that the Minister has 'accepted', I would argue that there are in fact only seven for which she has given a full and satisfactory explanation as to how they will be implemented. Another 12 appear to have been accepted only in part, and, with regard to many of these, the Government claims to be already carrying out the actions that the committee calls for. I assure the Minister that the committee would not have made these recommendations had we not received strong evidence in the committee's hearings that that is not the case. As for recommendation 7, which calls for 'Planning Policy Wales' to be amended to give a clearer statement of strategic priorities, recommendation 8, which calls for introducing a presumption in favour of sustainable development, and

Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a Neil Harris o Brifysgol Caerdydd am weithredu fel cynghorwyr arbenigol i'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Mae eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y maes wedi bod yn amhrisiadwy o ran cynorthwyo trafodaethau'r Aelodau ac wrth lunio'r adroddiad hwn.

Trof at argymhellion yr adroddiad a'r ymatebion i'r argymhellion hynny. Roedd y pwyllgor yn falch o weld bod llawer o bethau sy'n gweithio'n dda ym maes polisi cynllunio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rôl y pwyllgor yw tynnu sylw at y meysydd hynny lle mae angen newidiadau a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru i'r perwyl hwnnw. Mae'r adroddiad yn cynnwys 30 o argymhellion, ac rydym yn credu y byddai'r holl argymhellion yn gwella sut y mae'r system gynllunio yn gweithredu yng Nghymru a byddai'n cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi. Diolchaf i'r Gweinidog am ei hymateb i adroddiad y pwyllgor, a osodwyd yr wythnos diwethaf.

I ddechrau, roeddwn yn falch bod y Gweinidog wedi gweld yn dda i dderbyn y mwyafrif helaeth o'n hargymhellion yn yr hyn a ymddengys—ar yr olwg gyntaf, o leiaf—i fod yn ymateb cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae'n flin gennyf i ddweud ar ôl edrych ar yr ymateb yn fanwl, gallwn weld bod honiad y Gweinidog ei bod wedi derbyn rhai ymatebion yn cael ei wrth-ddweud yn uniongyrchol yn y testun. O'r 22 argymhelliad y mae'r Gweinidog wedi'u 'derbyn', byddwn yn dadlau mewn gwirionedd mai dim mewn perthynas â saith ohonynt y mae hi wedi rhoi esboniad llawn a boddhaol ynglŷn â sut y byddant yn cael eu rhoi ar waith. Ymddengys fod 12 arall wedi cael eu derbyn yn rhannol yn unig, ac, o ran llawer o'r rhain, mae'r Llywodraeth yn honni ei bod eisoes yn cymryd y camau gweithredu y mae'r pwyllgor yn galw amdanynt. Gallaf sicrhau'r Gweinidog na fyddai'r pwyllgor wedi gwneud yr argymhellion hyn pe na bae wedi cael tystiolaeth gref mewn cyfarfodydd pwyllgor nad yw hynny'n wir. O ran argymhelliad 7, sy'n galw am ddiwygio 'Polisi Cynllunio Cymru' i roi datganiad cliriach o flaenoriaethau strategol; argymhelliad 8, sy'n galw am gyflwyno

recommendation 14, which calls for giving more weight to the outcomes of regional working, the response by the Minister claims to accept them, but then goes on to explain why those things should not be done. I urge the Minister to take the opportunity to clarify her position with regard to these recommendations.

Members will be glad to hear that, given the length of this afternoon's agenda, I do not intend to go into detail on all 30 recommendations, but I wish to draw Members' attention to some of them in greater detail. Among the key recommendations that the committee made is that there should be a planning Act for Wales that would consolidate current legislation and put in place systems that recognise the distinctive needs of our nation. The committee believes that the English and Welsh systems have by now diverged to such a point as to make distinctive Welsh legislation in this field a necessity. A Welsh planning Act would provide a sound basis for a planning system that recognises distinctive Welsh needs and facilitates the implementation of Welsh Government policy. The Minister's response suggests that the best time to bring forward such an Act would be after the current round of local development plans is complete. However, that would mean a wait of at least another three or four years before that recommendation is acted upon. I acknowledge that there will never be a good time to develop a new Act, and that transition arrangements will be always required; some local authorities will be finishing an LDP, while others will be part way through a revision of one. There is clearly a difficulty in navigating the current system, and a Welsh planning Act would bring clarity to that framework. Therefore, it is not acceptable to wait another three or four years, and this should be done at the earliest possible opportunity.

Recommendations 7 and 8 are recommendations that the Government claims to have accepted, but then goes on to say are not necessary. The first part of recommendation 7 calls for a clear statement to be included in 'Planning Policy Wales' on

rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy; ac argymhelliad 14, sy'n galw am roi mwy o bwys i ganlyniadau gweithio rhanbarthol, mae'r Gweinidog yn honni yn ei hymateb ei bod yn eu derbyn, ond aiff ymlaen i esbonio pam na ddylid gwneud y pethau hynny. Rwy'n annog y Gweinidog i gymryd y cyfle hwn i egluro ei safbwynt o ran yr argymhellion hyn.

Bydd yr Aelodau yn falch o glywed, o gofio hyd yr agenda'r prynhawn yma, nad wyf yn bwriadu manylu ar bob un o'r 30 o argymhellion, ond hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at rai ohonynt yn fanylach. Un o'r argymhellion allweddol a wnaeth y pwyllgor oedd y dylai fod Deddf cynllunio i Gymru a fyddai'n cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol a rhoi systemau yn eu lle sy'n cydnabod anghenion unigryw ein cenedl. Mae'r pwyllgor yn credu bod y systemau yng Nghymru ac yn Lloegr erbyn hyn wedi ymwahanu i'r fath raddau ag i wneud deddfwriaeth sy'n unigryw i Gymru yn y maes hwn yn angenrheidiol. Byddai Deddf cynllunio i Gymru yn darparu sail gadarn ar gyfer system gynllunio sy'n cydnabod anghenion unigryw Cymru ac yn hwyluso'r broses o weithredu polisi Llywodraeth Cymru. Mae ymateb y Gweinidog yn awgrymu mai'r amser gorau i gyflwyno'r fath Ddeddf fyddai ar ôl i'r cylch cyfredol o gynlluniau datblygu lleol ddod i ben. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu aros am o leiaf tair neu bedair blynedd arall cyn i'r argymhelliad hwnnw gael ei weithredu. Rwy'n cydnabod na fydd byth yn amser da i ddatblygu Deddf newydd, ac y bydd trefniadau pontio yn ofynnol bob amser; bydd rhai awdurdodau lleol yn gorffen cynllun datblygu lleol, tra bydd eraill yn y broses o ddiwygio cynllun o'r fath. Mae'n amlwg bod anhawster o ran llywio'r system bresennol, a byddai Deddf cynllunio i Gymru yn dod ag eglurder i'r fframwaith hwnnw. Felly, nid yw'n dderbyniol i aros am dair neu bedair blynedd, a dylai hyn gael ei wneud cyn gynted â phosibl.

Mae argymhellion 7 ac 8 yn argymhellion y mae'r Llywodraeth yn honni ei bod wedi eu derbyn, ond wedyn aiff ymlaen i ddweud nad ydynt yn angenrheidiol. Mae'r rhan gyntaf o argymhelliad 7 yn galw am ddatganiad clir yn 'Polisi Cynllunio Cymru' ar sut y dylai

how conflicting objectives within the planning system should be resolved. The evidence that we received included a strong call for a clear statement of priorities to guide decision makers in the case of such conflicts. The Minister's response does not acknowledge the need for something to set out the priorities in cases of conflict between national planning policies, and I would urge her to look again at this recommendation.

Similarly, the provisions of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, that local authorities and the Welsh Government must prepare policies with the aim of contributing to sustainable development, is not the same as a clear statement of presumption in favour of sustainable development within planning policy, which the committee called for. It is not the same, and it is not an alternative provision. Witnesses did not feel that such a presumption was already in place when producing their development plans or when making decisions on planning applications.

The committee also found that there is widespread confusion and ignorance of the role and function of the Wales spatial plan, including how it relates to the development plan framework and the determination of planning applications and appeals. The kind of review envisaged in the Minister's response to recommendation 13 will not address that confusion about what it is for and how it relates to the planning process. A specific review of the spatial plan's role in this context is required now, rather than it being left to a broader review of the plan at some point in the future. Likewise, the committee would like to see urgent clarification of the role of the Wales national strategic infrastructure plan, and for it to be embedded within the Wales spatial plan.

In her response to recommendation 15, the Minister fails to add any clarity to this issue. This needs to be addressed as a matter of urgency if it is not to lead to uncertainty and delay in approving planning applications. The Minister also makes no mention in her response to this recommendation of the national or regional transport plans. What is the role of the Wales spatial plan if not to co-

amcanion sy'n gwrthdaro o fewn y system gynllunio gael eu datrys. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn cynnwys galwad cryf am ddatganiad clir o flaenoriaethau i arwain y rhai sy'n gwneud penderfyniadau os bydd gwrthdaro o'r fath. Nid yw ymateb y Gweinidog yn cydnabod yr angen am rywbeth sy'n gosod allan y blaenoriaethau mewn achosion o wrthdaro rhwng polisiau cynllunio cenedlaethol, a byddwn yn ei hannog i edrych eto ar yr argymhelliad hwn.

Yn yr un modd, nid yw darpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru baratoi polisiau gyda'r nod o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, yr un peth â datganiad clir o ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy o fewn polisi cynllunio, sef yr hyn y mae'r pwyllgor yn galw amdano. Nid yw'r un peth, ac nid yw'n ddarpariaeth amgen. Nid oedd tystion yn teimlo bod y fath ragdybiaeth eisoes yn bodoli wrth iddynt baratoi eu cynlluniau datblygu neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

Canfu'r pwyllgor hefyd fod dryswch ac anwybodaeth eang ynghylch rôl a swyddogaeth cynllun gofodol Cymru, gan gynnwys sut y mae'n berthnasol i fframwaith y cynllun datblygu a'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeladau. Ni fydd y math o adolygiad a ragwelir yn ymateb y Gweinidog i argymhelliad 13 yn mynd i'r afael â'r dryswch ynghylch ei bwrpas a sut y mae'n berthnasol i'r broses gynllunio. Mae angen adolygiad penodol o rôl y cynllun gofodol yn y cyd-destun hwn yn awr, yn hytrach na'i adael i adolygiad ehangach o'r cynllun ar ryw adeg yn y dyfodol. Yn yr un modd, byddai'r pwyllgor yn hoffi gweld eglurhad brys o rôl cynllun seilwaith strategol cenedlaethol Cymru ac iddo gael ei wreiddio o fewn cynllun gofodol Cymru.

Yn ei hymateb i argymhelliad 15, mae'r Gweinidog yn methu ag ychwanegu unrhyw eglurder i'r mater hwn. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel mater o frys neu bydd yn arwain at ansicrwydd ac oedi wrth gymeradwyo ceisiadau cynllunio. Hefyd, nid yw'r Gweinidog yn sôn dim yn ei hymateb i'r argymhelliad hwn am y cynlluniau trafniadaeth cenedlaethol neu ranbarthol.

ordinate other plans such as these?

Recommendation 25 concerns the issue of devolving responsibility for energy consents of over 50MW to Welsh Ministers. Members will be aware that this is a long-running issue that has been raised in this Chamber for many years and on many different occasions. The committee had hoped to question the Secretary for State for Energy and Climate Change, Chris Huhne, at a meeting last week, and it is a matter of regret that, at the last minute, the Secretary of State was not able to attend the committee.

4.15 p.m.

I welcome the Minister's commitment to continue to push for the devolution of these powers. However, I ask her to clarify what she means by 'appropriate operational arrangements' to deal with large-scale energy consents when they are devolved. Does she accept that there should be a separate major planning infrastructure unit for Wales? Perhaps she could also tell us what reasons she has been given to date by previous Secretaries of State and the current holder that office for not devolving these powers. As for the financial implications, one would assume that, if the powers were devolved, there would be a financial transfer to go along with them. If that is not the Minister's understanding of the situation, I would be grateful for clarification this afternoon.

Recommendation 16 concerns what should be done in the absence of these powers being devolved to ensure that Welsh planning policy is adequately reflected in the energy national policy statements. Can the Minister tell us what has happened as a result of the representations that she has made on this issue? Is she satisfied that the draft energy national policy statements now accurately reflect Welsh planning policy and the weight that should be attributed to it? The revised versions issued for consultation by the UK Government in October 2010 are similar to the versions produced by the previous UK Government and considered by the Sustainability Committee early in 2010. The

Beth yw rôl cynllun gofodol Cymru os nad i gyd-drefnu cynlluniau eraill fel y rhain?

Mae argymhelliad 25 yn ymwneud â datganoli cyfrifoldeb dros ganiatâd ynni o dros 50MW i Weinidogion Cymru. Bydd Aelodau'n ymwybodol bod hwn yn fater hirdymor sydd wedi ei godi yn y Siambr hon am flynyddoedd lawer ac ar sawl achlysur gwahanol. Roedd y pwyllgor wedi gobeithio y byddai'n cael cyfle i holi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne, mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf, ac mae'n drueni, ar y funud olaf, nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu dod i'r Pwyllgor.

Rwyf yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i barhau i bwysu am ddatganoli'r pwerau hyn. Fodd bynnag, gofynnaf iddi egluro beth y mae'n ei olygu gan 'drefniadau gweithredol priodol', o ran ymdrin â chaniatadau ynni ar raddfa fawr pan gânt eu datganoli. A ydyw hi'n derbyn y dylai fod yna uned ar wahân i Gymru o ran cynllunio prosiectau seilwaith mawr? Efallai y gallai hefyd ddweud wrthym ba resymau y mae hi wedi'u cael hyd yma gan Ysgrifenyddion Gwladol blaenorol, yn ogystal â deiliad presennol y swydd honno, am beidio â datganoli'r pwerau hyn. O ran y goblygiadau ariannol, pe bai'r pwerau hyn yn cael eu datganoli, gallai rhywun dybio y byddai trosglwyddiad ariannol yn gysylltiedig â hwy. Os nad dyna'r sefyllfa, fel y mae'r Gweinidog yn ei deall, byddwn yn ddiolchgar am eglurhad y prynhawn yma.

Mae argymhelliad 16 yn ymwneud â'r hyn y dylid ei wneud os nad yw'r pwerau hyn yn cael eu datganoli, er mwyn sicrhau bod polisi cynllunio Cymru yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol mewn datganiadau ar bolisi ynni cenedlaethol. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed ganddi ar y mater hwn? A ydyw hi'n fodlon bod y datganiadau drafft ar bolisi ynni cenedlaethol bellach yn adlewyrchu polisi cynllunio Cymru a'r pwyslais y dylid ei briodoli iddo? Mae'r fersiynau diwygiedig a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2010 yn debyg i'r fersiynau a luniwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU ac a

Infrastructure Planning Commission commented at the time that the weight to be given to the Welsh planning policy was not clear in these documents and I would be grateful to learn whether the Minister feels that matters have changed since then.

In conclusion, I thank my fellow committee members for their perseverance and tenacity in dealing with this long report. I look forward to the Minister providing clarification on the points that I have raised during my contribution. I also want to note that the Sustainability Committee, in our legacy report, intends to recommend to our successor committee in the fourth Assembly that it revisits these issues to assess what progress the Welsh Government has made in implementing the recommendations of this report.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I welcome the Sustainability Committee's report, which recognises the vital role of the planning system in enabling sustainable development, tackling climate change, delivering low carbon and renewable energy, and facilitating the social and economic infrastructure needed to sustain our communities, including the business community, in the twenty-first century. Much is expected of the planning system, and it is useful to review it, and our role in it, periodically. I note the committee's conclusions that there is much that works well.

We laid our response to all the recommendations on 9 March. I reaffirm that we were able to accept to the majority of the recommendations; 21 of them support and complement what we are doing or intend to do, as outlined in our planning application programme implementation update, published on our website on 9 March. The Chair of the Sustainability Committee specifically reflected on recommendation 7 to amend chapter 1 of 'Planning Policy Wales' to provide a clearer statement of strategic priorities. We have answered that it distils the key policy themes in this document and that

gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn gynnar yn 2010. Dywedodd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith ar y pryd nad oedd y pwyslais a fyddai'n cael ei briodoli i bolisi cynllunio Cymru wedi'i nodi'n glir yn y dogfennau hyn, a byddwn yn ddiolchgar i gael barn y Gweinidog ynghylch a yw'r sefyllfa wedi newid ers hynny.

I gloi, hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor am eu dyfalbarhad a'u dycnwch wrth ymdrin â'r adroddiad hir hwn. Edrychaf ymlaen at glywed eglurhad y Gweinidog o'r pwyntiau a godwyd gennyf yn ystod fy nghyfraniad. Rwyf hefyd am nodi bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd, yn ein hadroddiad etifeddiaeth, yn bwriadu argymhell bod y pwyllgor sy'n ein holynu yn y pedwerydd Cynulliad yn ailystyried y materion hyn er mwyn asesu pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd, sy'n cydnabod rôl hanfodol y system gynllunio o ran galluogi datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan ddarparu ynni carbon isel ac adnewyddadwy, a hwyluso datblygiad y seilwaith cymdeithasol ac economaidd y mae ei angen i gynnal ein cymunedau, gan gynnwys y gymuned fusnes, yn yr unfed ganrif ar hugain. Disgwylir llawer gan y system gynllunio, ac mae'n ddefnyddiol adolygu'r system hon—a rôl y Llywodraeth ynddi—o bryd i'w gilydd. Nodaf fod y pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod llawer o bethau yn y system yn gweithio'n dda.

Cyflwynasom ein hymateb i'r holl argymhellion ar 9 Mawrth. Hoffwn gadarnhau unwaith eto ein bod wedi gallu derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion; mae 21 ohonynt yn cefnogi ac yn ategu'r hyn yr ydym yn ei wneud neu'n bwriadu ei wneud, fel yr amlinellir yn ein diweddariad o'r rhaglen weithredu ar gyfer ceisiadau cynllunio, a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 9 Mawrth. Yn benodol, bu cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ystyried argymhelliad 7, sef diwygio pennod 1 o 'Bolisi Cynllunio Cymru' er mwyn darparu datganiad cliriach o flaenoriaethau strategol.

consideration will be given to refining this approach further. Therefore, we have addressed that positively as well as the second element of the recommendation through the work that we are undertaking on economic development.

In response to recommendation 8, which we accept, we wish for sustainable development to be at the heart of the Welsh planning system. 'Planning Policy Wales' embraces sustainable development principles and, during the last four years, I have sought to enshrine it in planning policy relating to climate change, sustainable buildings, and one planet developments.

At the local level, a number of local planning authorities have made good progress in adopting their local development plans. I wish to formally acknowledge the achievements of Pembrokeshire Coast National Park Authority, Caerphilly County Borough Council and my own local planning authority, Rhondda Cynon Taf. I do that because the best way to ensure that sustainable planning decisions are taken locally is to ensure that an up-to-date development plan is in place. For authorities without up-to-date development plans, national planning policy becomes an increasingly important consideration when making decisions. For that reason, I wish to see the introduction into national planning policy of a presumption in favour of sustainable development where there is no up-to-date development plan.

To date, the contribution of the planning system towards sustainable development objectives has gone unmeasured. In our response, we state clearly that we have commenced a project to identify indicators to measure the impact of planning on sustainable development to complement our existing indicators. That project will report shortly, and will be able to be implemented in 2012.

Ein hateb yw ei fod yn distyllu'r themâu polisi allweddol sydd yn y ddogfen hon, ac y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o fireinio'r dull hwn ymhellach. Felly, rydym wedi mynd i'r afael a'r mater hwnnw mewn modd cadarnhaol, yn ogystal ag ail elfen yr argymhelliad dan sylw, a hynny drwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar ddatblygu economaidd.

Mewn ymateb i argymhelliad 8, sef argymhelliad yr ydym yn ei dderbyn, rydym yn dymuno gweld datblygu cynaliadwy wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, rwyf wedi ceisio ymgorffori'r ddogfen hon ym mholisiau cynllunio sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, adeiladau cynaliadwy, a datblygiadau un blaned.

Ar lefel leol, mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi gwneud cynnydd da wrth fabwysiadu eu cynlluniau datblygu lleol. Hoffwn gydnabod yn ffurfiol gyflawniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'm hawdurdod lleol i, Rhondda Cynon Taf. Hoffwn wneud hynny gan mai'r ffordd orau o sicrhau bod penderfyniadau cynllunio cynaliadwy yn cael eu cymryd yn lleol yw sicrhau bod cynllun datblygu cyfredol ar waith. I awdurdodau nad oes ganddynt gynlluniau datblygu cyfredol, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn dod yn ystyriaeth fwyfwy pwysig wrth wneud penderfyniadau. Am y rheswm hwnnw, hoffwn weld rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy lle nad oes cynllun datblygu cyfredol ar waith yn cael ei chyflwyno i'r polisi cynllunio cenedlaethol.

Hyd yn hyn, nid yw cyfraniad y system gynllunio tuag at amcanion datblygu cynaliadwy wedi'i fesur. Yn ein hymateb, rydym yn datgan yn glir ein bod wedi cychwyn prosiect i nodi dangosyddion i fesur effaith cynllunio ar ddatblygu cynaliadwy, a bydd y dangosyddion hynny'n ategu ein dangosyddion presennol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar y prosiect hwnnw cyn bo hir, a bydd yn bosibl rhoi'r prosiect ar waith yn 2012.

It is also worth highlighting that recommendation 21 has already been completed: appropriate revisions to 'Planning Policy Wales' were published on 28 February about the weight to be given to policies in emerging local development plans. A further seven recommendations are for the incoming Welsh Assembly Government to consider, as this administration could not implement them before dissolution. For example, number 1 would introduce a planning Act for Wales; number 13 would review the role and function of the Wales spatial plan; and number 15 would look at the relationship between the proposed strategic infrastructure plan and the spatial plan. I will be interested in Members' views on these recommendations, which will inform the next administration's thinking.

In relation to major energy consents and Infrastructure Planning Commission issues, recommendations 25, 26, 27 and 28 have all been accepted. I have taken every opportunity, including through the Localism Bill, to press for a transfer of powers to Welsh Ministers for energy projects over 50 MW, removing the current anomaly. I have said in this Chamber on many occasions that that anomaly gets in the way of Wales being able to harness renewable energy appropriately, particularly when we think about that fact that, at sea, Wales is only responsible for up to 1 MW, with the Marine Management Organisation responsible for 1 to 100 MW, and the IPC for anything over 100 MW. On land, we are responsible for up to 50 MW, and everything over 50 MW is the responsibility of the IPC. In both those instances, where the IPC is involved, arrangements will change in the future.

However, we have argued strongly that, at the very least, we should be given powers up to 100 MW on land and sea, to give some consistency. That will not in any way affect the UK's current and existing refusal to devolve large energy consents, but it would release major opportunities for Wales for the future. I cannot give you reasons why the

Mae'n werth nodi hefyd bod argymhelliad 21 eisoes wedi'i gwblhau: cafodd diwygiadau priodol i 'Bolisi Cynllunio Cymru', ynghylch y pwyslais a roddir ar bolisiau mewn cynlluniau datblygu lleol newydd, eu cyhoeddi ar 28 Chwefror. Mae saith o argymhellion eraill i Lywodraeth nesaf Cynulliad Cymru i'w hystyried, gan na allai'r weinyddiaeth hon eu gweithredu cyn y diddymiad. Er enghraifft, byddai rhif 1 yn cyflwyno Deddf cynllunio i Gymru; byddai rhif 13 yn adolygu rôl a swyddogaeth cynllun gofodol Cymru; a byddai rhif 15 yn edrych ar y berthynas rhwng y cynllun seilwaith strategol arfaethedig a'r cynllun gofodol. Bydd gennyf ddiddordeb mewn clywed barn yr Aelodau ar yr argymhellion hyn, a fydd yn llywio ystyriaethau'r weinyddiaeth nesaf.

Mewn perthynas â chaniatadau ar gyfer prosiectau ynni mawr a materion sy'n ymwneud â'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, mae argymhellion 25, 26, 27 a 28 i gyd wedi cael eu derbyn. Rwyf wedi manteisio ar bob cyfle, gan gynnwys drwy'r Mesur Lleoliaeth, i bwysio am y cam o drosglwyddo pwerau i Weinidogion Cymru ar gyfer prosiectau ynni dros 50 MW, gan gael gwared ar yr anghysondeb sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rwyf wedi dweud yn y Siambr hon ar sawl achlysur bod yr anghysondeb hwnnw'n rhwystro gallu Cymru i harneisio ynni adnewyddadwy mewn modd priodol, yn enwedig pan fyddwn yn ystyried y ffaith bod Cymru, ar y môr, ond yn gyfrifol am hyd at 1 MW, gyda'r Sefydliad Rheoli Morol yn gyfrifol am 1 i 100 MW, a'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn gyfrifol am unrhyw beth dros 100 MW. Ar y tir, rydym yn gyfrifol am hyd at 50 MW, a'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith sy'n gyfrifol am bopeth dros 50 MW. Yn y ddau achos hwnnw, lle mae'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn gysylltiedig, bydd y trefniadau'n newid yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym wedi dadlau'n gryf y dylem, ar y lleiaf, gael pwerau am brosiectau hyd at 100 MW ar y tir a'r môr, er mwyn sicrhau rhywfaint o gysondeb. Ni fyddai hynny'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar benderfyniad cyfredol a phresennol y DU i wrthod datganoli caniatadau ar gyfer prosiectau ynni mawr, ond byddai'n creu

Department of Energy and Climate Change continues to reject this, because it has never given us any reasons. I continue to take every opportunity, through the Localism Bill, to press for the transfer of those powers, and I continue in dialogue via officials on the management of issues around planning in relation to the national policy statements. As we do not have this devolved to Wales, we are not satisfied that Welsh policy is adequately reflected in the national policy statements. Like you, I am disappointed that you did not have the Secretary of State in front of you to explore these issues further in Wales.

We have rejected only one proposal by the committee, and that recommends that we produce revised guidance for local planning authorities on refining the boundaries of TAN 8 strategic search areas for their local development plans. Guidance is already in place in annex D of TAN 8, and most refinement work has been completed by the local authorities. Producing guidance and policy is important, but delivery is even more important, and ensuring a stable and consistent policy framework is central to that. Revisions to policy, procedures and guidance can introduce uncertainty for decision-makers, local communities and investors alike, delaying implementation of the social and economic infrastructure we need in Wales.

I welcome the committee's report. It supports and complements the work we have already done and are doing to ensure that the planning system supports key Government policies that meet the needs of Wales and to bring about improvements in the delivery of the service. I believe that the work done by the committee is timely in informing a new administration; I will be interested to hear from outside the Assembly how that is being taken forward.

cyfleoedd mawr i Gymru ar gyfer y dyfodol. Ni allaf roi rhesymau i chi pam y mae'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn parhau i wrthod y cynnig hwn, gan nad yw'r adran honno erioed wedi rhoi unrhyw resymau i ni. Rwyf yn parhau i fanteisio ar bob cyfle, drwy'r Mesur Lleoliaeth, i bwysio am y cam o drosglwyddo'r pwerau hynny, ac rwyf yn parhau i gynnal deialog, drwy swyddogion, ar reoli materion sy'n ymwneud â chynllunio mewn perthynas â datganiadau polisi cenedlaethol. Gan nad yw'r pwerau hyn wedi'u datganoli i Gymru, nid ydym yn fodlon bod polisi Cymru'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y datganiadau polisi cenedlaethol. Fel chi, rwyf yn siomedig nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ymddangos ger eich bron er mwyn i'r materion hyn gael eu trafod ymhellach mewn perthynas â Chymru.

Rydym wedi gwrthod un cynnig yn unig gan y pwyllgor, sef yr argymhelliad ein bod yn llunio canllawiau diwygiedig i awdurdodau cynllunio lleol ar fireinio ffiniau ardaloedd chwilio strategol TAN 8 at ddibenion eu cynlluniau datblygu lleol. Mae canllawiau eisoes ar waith yn atodiad D i TAN 8, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith mireinio wedi'i gwblhau gan yr awdurdodau lleol. Mae llunio canllawiau a pholisïau yn bwysig, ond mae cyflawni'r polisïau hynny'n bwysicach fyth, ac mae sicrhau fframwaith polisi sefydlog a chyson yn ganolog i'r broses honno. Gall diwygio polisi, gweithdrefnau a chanllawiau greu ansicrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cymunedau lleol a buddsoddwyr, gan ohirio'r broses o greu'r seilwaith cymdeithasol ac economaidd y mae arnom ei angen yng Nghymru.

Rwyf yn croesawu adroddiad y pwyllgor. Mae'n cefnogi ac yn ategu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn barod a'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod y system gynllunio yn cefnogi polisïau allweddol y Llywodraeth sy'n diwallu anghenion Cymru, ac i sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Credaf fod y gwaith a wnaed gan y pwyllgor yn amserol o ran llywio gwaith y weinyddiaeth newydd; bydd gennyf ddiddordeb mewn clywed, o'r tu allan i'r Cynulliad, sut y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu.

Angela Burns: I am delighted to be able to speak in the Sustainability Committee debate today. I thank the clerking team and my fellow committee members, because it felt like we were wading through treacle a lot of the time, trying to get to grips with the various planning policies, attitudes, TANs and heaven knows what else. I want to speak about three recommendations. The Chair has already spoken about them, as has the Minister, but I feel strongly about them. They are recommendations 1, 7 and 13.

I understand the Minister's comment that this is for another Government to take forward, and I accept that, but I want to emphasise why recommendation 1 is so important. One of the things that clearly came across from the evidence that we took was that there was an enormous amount of conflict. Minister, you said that much was expected of the planning system, and I was shocked when talking to witnesses to find out that, quite often, planners are being mandated to meet all sorts of targets that have absolutely nothing to do with planning. These include obesity levels in children and a whole host of other things, all of which are supposed to be met through the planning system, because planning is one of the areas that a local authority can mandate the population to do something about, yes or no, and organise itself in a regulatory way. Planners said very much that that was very confusing and that they were constantly under pressure to keep up with what was going on and to prioritise.

Therefore, recommendations 1 and 7 are to do with how we can start to have a clear statement of priorities and clear management of the conflicts, particularly the conflicts between social, economic and environmental drivers. Although you said, Minister, that it is up to individuals to weigh up what is appropriate, those individuals are quite often left out on a limb when having to do just that, which, funnily enough, has an onward impact on the number of planning applications in which members of the council have gone against planning officers' recommendations. Therefore, the whole area needs to be tightened up. The only other thing that I

Angela Burns: Rwyf yn falch o gael y cyfle i siarad yn nadl y Pwyllgor Cynaliadwyedd heddiw. Hoffwn ddiolch i'r tîm clericio ac i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor. Roedd yn aml yn teimlo fel ein bod yn cerdded drwy driog, wrth geisio mynd i'r afael â pholisïau cynllunio amrywiol, agweddau, nodiadau cyngor technegol a Duw a wŷr beth arall. Rwyf am siarad am dri argymhelliad. Mae'r cadeirydd a'r Gweinidog eisoes wedi siarad amdanynt, ond rwyf yn teimlo'n gryf yn eu cylch. Rwyf yn cyfeirio at argymhellion 1, 7 a 13.

Rwyf yn deall sylwadau'r Gweinidog am y ffaith bod hwn yn fater i Lywodraeth arall ei ddatblygu, ac rwyf yn derbyn y farn honno, ond rwyf am bwysleisio pam bod argymhelliad 1 yn argymhelliad mor bwysig. Un peth a amlygwyd yn glir gan y dystiolaeth a gawsom oedd y ffaith bod llawer iawn o wrthdaro'n bodoli. Weinidog, dywedasocho fod disgwyliadau mawr o'r system gynllunio. Cefais fy synnu, wrth siarad â thystion, i ganfod bod cynllunwyr yn aml yn cael eu gorfodi i fodloni pob math o dargedau nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â chynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau gordewdra mewn plant a llu o bethau eraill, ac mae pob un ohonynt i fod i gael eu diwallu drwy'r system gynllunio. Mae hyn oherwydd bod cynllunio'n un o'r meysydd lle gall awdurdod lleol fandadu'r boblogaeth i wneud rhywbeth yn ei gylch, ar sail pleidlais 'ie' neu 'na', a threfnu ei hun mewn ffordd reoleiddiol. Dywedodd cynllunwyr fod y sefyllfa honno'n ddryslyd iawn a'u bod yn gyson o dan bwysau i gadw i fyny â'r hyn a oedd yn digwydd ac i flaenoriaethu.

Felly, mae argymhellion 1 a 7 yn ymwneud â sut y gallwn ddechrau cael datganiad clir o flaenoriaethau a rheoli clir o'r gwrthdaro hwn, yn enwedig y gwrthdaro sy'n digwydd rhwng sbardunau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Er ichi ddweud, Weinidog, ei bod yn fater i unigolion bwysu a mesur beth sy'n briodol, mae'r unigolion hynny yn aml ar eu pennau eu hunain wrth orfod gwneud hynny. Yn rhyfedd ddigon, mae hynny'n cael effaith ar nifer y ceisiadau cynllunio lle mae aelodau'r cyngor wedi mynd yn groes i argymhellion y swyddogion cynllunio. Felly, mae angen tynhau'r maes hwn yn ei gyfanrwydd. Yr unig beth arall y

would have liked to have seen with regard to recommendation 7 was some sort of timescale. We recommended the amending of chapter 1 of 'Planning Policy Wales', and although I know that you have put on the website that you are going to do that, we need to start putting a timescale to this, because this job is getting harder for these guys rather than easier.

On recommendation 13, which is that the Welsh Government should review the role and function of the Wales spatial plan, I see that you have said that that is for an incoming Welsh Assembly Government to consider. However, we have had the spatial plan for an awfully long time. It is a really good document in my view, and it is an extremely elegant way of trying to manage the economic development and growth of Wales. I have my doubts as to how much of the funding truly follows it, however, and I am not convinced either that all of the economic renewal programmes follow it. It is now incumbent upon any Government to get to grips with that plan, because it is a good way of going forward, and use it as the tool that sits above all others. It should be the plan from which all other planning objectives cascade, rather than having this absolutely excellent idea just sit and wither away in a corner.

Finally, I must note your barely concealed fury about the fact that we have not achieved the further devolution of powers on renewable energy—it has rather stuck in my throat as well. I am with you on that one; the last lot did not do it and this lot are not doing it. Therefore, it is not just the current coalition Government in Westminster that is not doing it; Labour in Westminster did not do it either. We need to get on and get this done, because we need those powers so that we can develop home-grown solutions for our energy needs going forward. Let us be absolutely clear to anyone watching: it is not happening now and it did not happen before, but we must work together to make this happen. There is no point in just grandstanding on it.

byddwn wedi dymuno ei weld o ran argymhelliad 7 oedd rhyw fath o amserlen. Rydym yn argymhell y dylid diwygio pennod 1 o 'Bolisi Cynllunio Cymru', ac er y gwn eich bod wedi datgan ar y wefan eich bod yn mynd i wneud hynny, mae angen inni ddechrau llunio amserlen ar gyfer gwneud hyn, gan fod y gwaith hwn yn mynd yn anos i'r bobl hyn, yn hytrach nag yn haws.

O ran argymhelliad 13, sef y dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl a swyddogaeth cynllun gofodol Cymru, gwelaf eich bod wedi dweud mai mater i Lywodraeth nesaf Cynulliad Cymru i'w ystyried ydyw. Fodd bynnag, mae'r cynllun gofodol wedi bod gennym am lawer iawn o amser. Mae'n ddogfen dda iawn yn fy marn i, ac mae hon yn ffordd hynod o gain o geisio rheoli datblygiad a thwf economaidd Cymru. Mae gennyf amheuan ynghylch faint o gyllid sy'n dilyn y cynllun mewn gwirionedd, fodd bynnag, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi bod yr holl raglenni adnewyddu economaidd yn ei ddilyn ychwaith. Mae bellach yn ddyletswydd ar unrhyw Lywodraeth i fynd i'r afael â'r cynllun hwnnw, gan ei fod yn ffordd dda o symud ymlaen, ac i ddefnyddio'r cynllun fel offeryn sy'n eistedd uwchlaw pob un arall. Hwn yw'r cynllun y dylai pob amcan cynllunio arall ddeillio ohono, yn hytrach na bod y syniad gwych hwn ond yn edwino mewn cornel dywyll.

Yn olaf, mae'n rhaid imi nodi eich dicter, sy'n bur amlwg, am y ffaith nad ydym wedi llwyddo i sicrhau bod rhagor o bwerau ar ynni adnewyddadwy yn cael eu datganoli—mae'r mater hwn yn ddraenen yn fy ystlys i hefyd. Rwyf o'r un farn â chi ar y mater hwn; ni wnaeth y Llywodraeth ddiwethaf hynny, ac nid yw'r Llywodraeth hon yn gwneud hynny. Felly, nid dim ond y Llywodraeth glymblaid bresennol yn San Steffan nad yw'n gwneud hyn; nis gwnaethpwyd gan y Blaid Lafur yn San Steffan ychwaith. Mae angen inni symud ymlaen a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Mae angen y pwerau hynny arnom fel y gallwn ddatblygu atebion cartref ar gyfer ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Gadewch inni fod yn hollol glir i unrhyw un sy'n gwylio: nid yw'n digwydd yn awr ac nid oedd yn digwydd o'r blaen, ond mae'n rhaid inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau ei fod yn digwydd. Nid oes unrhyw bwynt dangos

gorchest yn unig ar y mater hwn.

Leanne Wood: I will keep my contribution to just two of the report's recommendations. The first is the headline recommendation, which has been talked about quite extensively, and which has not been accepted by the Government, and I am disappointed about that. I understand that it is too late for this Government to introduce new planning legislation, but to support the recommendation in principle would have been a bit better than just noting it. We have heard plenty of evidence of how the existing planning system is governed by the Town and Country Planning Act 1947, which was introduced after the second world war to maximise the use of land for growing food. I am not saying that food production is not a problem today. It is a problem and it will become more of a problem as the price of oil increases worldwide. However, the legislation that currently exists is outdated and does not serve the needs of Wales in the twenty-first century. Sixty-five years on from that piece of legislation, it is now time for new planning legislation for Wales.

Leanne Wood: Byddaf yn cyfyngu fy nghyfraniad i ddau o argymhellion yr adroddiad yn unig. Y cyntaf yw'r prif argymhelliad, sydd wedi cael ei drafod yn eithaf helaeth. Nid yw'r argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn gan y Llywodraeth, ac rwyf yn siomedig am hynny. Deallaf ei bod yn rhy hwyr i'r Llywodraeth hon gyflwyno deddfwriaeth gynllunio newydd, ond byddai cefnogi'r argymhelliad mewn egwyddor wedi bod ychydig yn well na'i nodi yn unig. Rydym wedi clywed digon o dystiolaeth am sut y mae'r system gynllunio bresennol yn cael ei reoli gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, a gyflwynwyd ar ôl yr ail ryfel byd i wneud y defnydd gorau o dir er mwyn tyfu bwyd. Nid wyf yn dweud nad yw cynhyrchu bwyd yn broblem heddiw. Y mae'n broblem, a bydd yn dod yn fwy o broblem wrth i bris olew gynyddu ledled y byd. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes wedi dyddio, ac nid yw'n gwasanaethu anghenion Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Chwe deg pum mlynedd ar ôl pasio'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth, mae bellach yn amser inni gael deddfwriaeth cynllunio newydd i Gymru.

4.30 p.m.

Now that people in Wales have voted overwhelmingly for full law-making powers for the Assembly, we can do that. If we had a planning system that started from the principle that sustainable communities should be supported and nurtured, it would look very different from that under which we operate now. A planning system that facilitated the move away from a fossil fuel-based economy to one that was based on renewable energy would, again, look very different from the planning system that we have now. Those people who wanted to generate renewable energy would be encouraged to do so by a simpler planning system that included presumptions in favour of small-scale renewable energy generation. It would be a planning system that recognised the delicate balance of our natural environment, one that was designed to conserve and protect important natural habitats, and one under which Wales's ecosystems would look very different.

Gan fod pobl Cymru bellach wedi pleidleisio i raddau helaeth iawn o blaid cael pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad, gallwn wneud hynny. Pe bai gennym system gynllunio a oedd yn dechrau gyda'r egwyddor y dylai cymunedau cynaliadwy gael eu cefnogi a'u meithrin, byddai'n edrych yn wahanol iawn i'r system sydd ar waith ar hyn o bryd. Byddai system gynllunio a fyddai'n hwyluso'r broses o symud oddi wrth economi sy'n seiliedig ar danwydd ffosil i un sy'n seiliedig ar ynni adnewyddadwy, yn ogystal, yn edrych yn wahanol iawn i'r system gynllunio sydd gennym yn awr. Byddai'r bobl hynny a fyddai'n dymuno cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael eu hannog i wneud hynny gan system gynllunio symlach a fyddai'n cynnwys rhagdybiaethau o blaid cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Byddai'n system gynllunio a fyddai'n cydnabod cydbwysedd bregus ein hamgylchedd naturiol, system a fyddai'n cael ei llunio i gadw a gwarchod cynefinoedd

naturiol pwysig, a system y byddai ecosystemau Cymru'n edrych yn wahanol iawn oddi tani.

To Plaid Cymru, sustainable communities are communities that have a long-term future, providing opportunities for all citizens to live and work in a safe and clean environment, using the language of their choice. That is sustainability according to its widest definition, and, in my view, that should be at the heart of our planning system. That is not the case at the moment. If sustainability were at the heart of our planning policy, no unsustainable development would be allowed—and we all know that unsustainable development does get given the go-ahead.

I Blaid Cymru, mae cymunedau cynaliadwy yn gymunedau sydd â dyfodol tymor hir. Maent yn darparu cyfleoedd i bob dinesydd fyw a gweithio mewn amgylchedd diogel a glân, gan ddefnyddio eu dewis iaith. Dyna yw ystyr cynaliadwyedd, yn ôl ei ddiffiniad ehangaf, a dylai hynny fod wrth wraidd ein system gynllunio, yn fy marn i. Nid dyna yw'r sefyllfa ar hyn o bryd. Pe bai cynaliadwyedd wrth wraidd ein polisi cynllunio, ni fyddai unrhyw ddatblygiad anghynnaladwy yn cael ei ganiatáu—a gwyddom oll fod datblygiadau anghynnaladwy yn cael sêl bendith.

I now turn to recommendation 6, which asks for guidance on planning for the Welsh language to be updated. The current guidance does not protect those communities in Wales where Welsh is the language of daily life, and we are expecting the results of the forthcoming census to show an even more rapid decline. A new planning regime for Wales could put measures in place to try to reverse that decline, and I would argue that such action cannot wait. I am therefore happy that the guidance will change, but I remain of the view that we can only achieve sustainable communities if we have a planning system that sets out to support and grow them.

Trof yn awr at argymhelliad 6, sy'n gofyn am ddiweddarau'r canllawiau ar gynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Nid yw'r canllawiau cyfredol yn amddiffyn y cymunedau hynny yng Nghymru lle gwelir y Gymraeg yn brif iaith bywyd beunyddiol, ac rydym yn disgwyl i ganlyniadau'r cyfrifiad sydd ar y gweill ddangos bod y sefyllfa'n dirywio hyd yn oed yn gynt. Gallai trefn gynllunio newydd i Gymru roi mesurau ar waith i geisio gwrthdroi'r gostyngiad hwnnw, a byddwn yn dadlau nad yw'n bosibl oedi gweithred o'r fath. Rwyf yn fodlon, felly, am y ffaith y bydd y canllawiau yn newid, ond rwyf yn dal i fod o'r farn y gallwn ond greu cymunedau cynaliadwy os oes gennym system gynllunio sy'n eu cefnogi a'u meithrin.

I hope that whoever ends up forming the Government after May will be prepared to take a close look again at recommendation 1 in the inquiry report. It was the committee's key recommendation, and it deserves to be implemented, and implemented fast.

Pwy bynnag y bydd yn ffurfio'r Llywodraeth ar ôl mis Mai, gobeithiaf y byddant yn barod i edrych yn fanwl eto ar argymhelliad 1 yn adroddiad yr ymchwiliad. Dyna oedd argymhelliad allweddol y pwyllgor, ac mae'n haeddu cael ei roi ar waith, a hynny'n gyflym.

Jane Davidson: It is fair to say two things in response to the contributions. The first is that our response to the committee's recommendations is a Government response; it is a Plaid Cymru and Labour response. Therefore, it is not an individual ministerial response. It is made very much on the basis that, at this point in the electoral timetable, it is not for this Government to bind its

Jane Davidson: Mae'n deg imi ddweud dau beth wrth ymateb i'r cyfraniadau hynny. Y cyntaf yw'r ffaith fod ein hymateb i argymhellion y pwyllgor yn ymateb gan y Llywodraeth; mae'n ymateb gan Blaid Cymru a'r Blaid Lafur. Felly, nid yw'n ymateb gan weinidog unigol. Rhoddir yr ymateb hwn, i raddau helaeth, ar sail y ffaith nad yw'n briodol i'r Llywodraeth, ar yr adeg

successors. It is entirely appropriate for all parties in the Assembly to learn from the experience of party Members in the committee with regard to what they put in their manifestos.

I am happy, Angela, to confirm yet again that my frustration has been felt across two Governments and three parties, in that we have all, in the Assembly Government and the Assembly, supported the devolution of powers, but, as your Secretary of State for Wales pointed out to me, that view is not shared by your party at Westminster. We need to continue to argue the case, which we do in a reasoned way. Therefore, we need to continue to argue those reasons, so that the evidence base will win the day.

Kirsty Williams: In the brief time that I have left to speak, I would like to thank the Minister, Angela and Leanne for their contributions to the debate. I thank the Minister in particular for her speech earlier and her change of heart, it seems, on recommendation 8, in that she has said this afternoon that she would like to see a presumption in favour of sustainable development where there is no LDP in place. That is not reflected in her opening statement, and so I welcome that very much indeed. With regard to the vexed issue of powers over energy projects of more than 50 MW, it is extraordinary for the Minister to say that she is not clear why successive Governments have not wanted to devolve those powers. I suspect that, if I was a betting person, if we had the appropriate operational arrangements in place, maybe our arguments would be stronger. I thank the Deputy Presiding Officer for her indulgence this afternoon, and I commend the report to the Members.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Sustainability Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

hon o'r cylch etholiadol, rwy mo ei holynwyr. Mae'n gwbl briodol i bob un o'r pleidiau yn y Cynulliad ddysgu o brofiadau eu Haelodau ar y pwyllgor, o ran yr hyn y byddant yn cynnwys yn eu manifestos.

Rwyf yn hapus, Angela, i gadarnhau unwaith eto bod dwy Lywodraeth a thair plaid wedi teimlo fy rhwystredigaeth. Mae pob un ohonom, yn Llywodraeth y Cynulliad ac yn y Cynulliad, wedi cefnogi'r cam o ddatganoli pwerau; ond, fel y dywedodd eich Ysgrifennydd Gwladol wrthyf, ni rennir y safbwynt hwnnw gan eich plaid yn San Steffan. Mae angen inni barhau i ddadlau'r achos hwn, ac rydym yn gwneud hynny mewn ffordd resymegol. Felly, mae angen inni barhau i fynegi'r rhesymau hynny, fel y bydd y sylfaen dystiolaeth yn ennill y dydd.

Kirsty Williams: Yn yr amser byr sydd gennyf yn weddill i siarad, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog, Angela a Leanne am eu cyfraniadau i'r ddadl. Diolchaf i'r Gweinidog yn benodol am yr araith a roddodd yn gynharach, a'r ffaith ei bod yn ymddangos ei bod wedi newid ei meddwl ar argymhellad 8, wrth ddweud y prynhawn yma y byddai'n dymuno gweld rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy lle nad oes cynllun datblygu lleol ar waith. Ni chafodd y newid hwn ei adlewyrchu yn ei datganiad agoriadol, ac felly, croesawaf hynny'n fawr iawn. O ran y mater dadleuol o gael pwerau dros brosiectau ynni dros 50 MW, mae'n syndod clywed y Gweinidog yn dweud nad oedd yn glir iddi pam na fu Llywodraethau olynol yn awyddus i ddatganoli'r pwerau hynny. Pe bawn yn hoff o fetio, rwyf yn amau y byddai ein dadleuon yn gryfach petai gennym y trefniadau gweithredol priodol ar waith. Diolchaf i'r Dirprwy Lywydd am ei goddefgarwch y prynhawn yma, a chymeradwyaf yr adroddiad hwn i'r Aelodau.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig yn cael ei dderbyn, felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr Agenda Wyddoniaeth, Technoleg,
Peirianeg a Mathemateg (STEM)
The Enterprise and Learning Committee's report on the Science, Technology,
Engineering and Mathematics (STEM) Agenda**

Cynnig NDM4694 Gareth Jones

Motion NDM4694 Gareth Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu Yr agenda wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2011.

Notes the Enterprise and Learning Committee's report on the science, technology, engineering and mathematics (STEM) agenda which was laid in the Table Office on 28 January 2011.

Gareth Jones: Cynigaf y cynnig.

Gareth Jones: I move the motion.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, mae'n bleser gen i agor y ddadl hon ar ein hadroddiad ar yr agenda gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, sef y pynciau STEM fel y maent yn cael eu galw. Cyhoeddwyd ein hadroddiad wrth i ganlyniadau'r rhaglen ryngwladol asesu myfyrwyr am 2009 gael eu datgelu, canlyniadau a oedd yn rhoi darlun siomedig iawn o berfformiad addysgol Cymru. Yr oedd ein hadroddiad yn amserol hefyd gan fod polisi gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru wrthi'n cael ei baratoi, ac yr oedd Prif Ymgynghorydd Gwyddonol Cymru ar fin mynegi ei weledigaeth a'i strategaeth at y dyfodol ar gyfer yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol newydd.

As Chair of the Enterprise and Learning Committee I am pleased to open this debate on our report on the science, technology, engineering and mathematics agenda, or STEM as it is known. Our report was published at the same time as the disclosure of the programme for international student assessment results for 2009, which depicted a very disappointing picture of Wales's educational performance. Our report was also timely as the Welsh Government's new science policy for Wales was being prepared, and the Chief Scientific Adviser for Wales was on the verge of mapping out his future vision and strategy for the new National Science Academy.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r llawer o sefydliadau ac unigolion sydd wedi cyfrannu at ein hymchwiliad. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ac i'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Sgiliau am eu hymateb ystyriol a chadarnhaol, ar y cyfan, i'n 22 o argymhellion. Hoffwn ganolbwyntio ar dair prif thema ein hadroddiad: caffael sgiliau STEM, dysgu pynciau STEM a'r cysylltiadau rhwng addysg a chyflogwyr STEM. Gadewch imi droi yn gyntaf at STEM mewn ysgolion.

I am very grateful to the many organisations and individuals who contributed to our inquiry. I am also grateful to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning and the Deputy Minister for Science, Innovation and Skills for their considered and generally positive response to our 22 recommendations. I would like to focus on the three main themes of our report: the acquisition of STEM skills, the teaching of STEM and the links between education and STEM employers. Let me turn first to STEM in schools

Yr oedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn, yr arolygiaeth ysgolion, yn rhoi darlun pryderus o'r safonau sylweddol is mewn

Evidence supplied by Estyn, the school inspectorate, painted a worrying picture of the significantly lower standards in secondary

gwyddoniaeth a mathemateg a welir yn ein hysgolion uwchradd o gymharu â phynciau eraill. Rhoddodd y dystiolaeth hon ddarlun pryderus hefyd o'r gyfran sylweddol is o ddysgwyr yng Nghymru sy'n astudio bioleg, cemeg, ffiseg a mathemateg at lefel A o gymharu â gweddill Prydain. Datgelodd arolygiadau Estyn ddarlun mwy cymysg mewn ysgolion cynradd, er i'r arolygiaeth ddarganfod gostyngiad yn ddiweddar mewn gwyddoniaeth a mathemateg o gymharu â phynciau eraill. Mae'r tueddiad yma yn ein pryderu yn fawr. Mae profiad cadarnhaol gyda phynciau STEM yn y cyfnod sylfaen yn allweddol er mwyn ennyn brwdfrydedd yn ein disgyblion i barhau â'r pynciau hynny yn eu haddysg a'u gyrfaoedd yn ddiweddarach. Yr wyf yn falch, felly, fod y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog wedi derbyn ein hargymhelliad i gynnal astudiaeth o pam mae gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd yn profi dirywiad, ac i archwilio gydag Estyn beth yw'r ffordd orau o asesu perfformiad mewn gwyddoniaeth yn y dyfodol.

Clywsom fod cyfran sylweddol—o bosibl, dros 40 y cant—o ysgolion yng Nghymru nad ydynt yn dysgu pynciau gwyddonol ar wahân, neu wyddoniaeth driphlyg, ar gyfer TGAU. Mae dysgu pynciau gwyddonol ar wahân yn gofyn am fwy o amser dysgu, a chlywsom straeon sy'n peri pryder am waith ymarferol yn cael ei wasgu i amserau cinio ysgolion. Yn ogystal, clywsom nad yw gwyddoniaeth gyfun—gwyddoniaeth ddwbl—yn gosod digon o sylfaen i ddisgyblion yn y cysyniadau a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudio pynciau gwyddonol at lefel A neu mewn addysg bellach ac addysg uwch. Yr wyf yn falch bod Gweinidogion wedi cytuno i ymchwilio i'r berthynas rhwng astudio gwyddoniaeth gyfun neu bynciau gwyddonol ar wahân ar gyfer TGAU a'r graddau terfynol mewn lefel A, ac i ymchwilio a oes angen pendant i fwy o ddisgyblion gael y cyfle i astudio gwyddoniaeth driphlyg.

Tynnodd ein hadroddiad sylw hefyd at yr anghydbwysedd rhwng bechgyn a merched yn yr agenda STEM. Efallai y bydd fy nghyd-Aelodau o'r pwyllgor yn dymuno dweud mwy am y mater hwn. Rhaid rhoi sylw i'r ffaith fod llai o ferched yn dewis

school science and mathematics compared with other subjects. This evidence also painted a worrying picture with regard to the significantly lower proportion of learners in Wales studying biology, chemistry, physics and mathematics at A-level compared with the rest of Britain. Estyn's inspections revealed a more mixed picture in primary schools, although it detected a recent decline in standards in science and mathematics relative to other subjects. This trend deeply concerned us. A positive experience and engagement with STEM subjects at the foundation stage is key to pupils being enthused to continue with those subjects in their later education and careers. I am therefore pleased that the Minister and the Deputy Minister have accepted our recommendation to carry out a study of why science in primary schools is experiencing a decline, and to explore with Estyn how best to assess science performance in the future.

We heard that a considerable proportion—possibly over 40 per cent—of schools in Wales do not teach the sciences separately, that is, triple science, at GCSE. Teaching the sciences separately requires more teaching time, and we heard alarming tales of practical work being squeezed into school lunch breaks. Furthermore, we heard that combined, or double, science does not offer a sufficient grounding for pupils in the basic concepts and skills required for taking science subjects at A-level or in further and higher education. I am pleased that Ministers have agreed to research the relationship between the study of either combined science or separate science subjects at GCSE and final A-level grades, and to consider whether there is a definite need for more pupils to be given the opportunity to study triple science.

Our report also drew attention to some gender differences in the STEM agenda. My fellow committee members may wish to say more about this issue. It is imperative that attention is given to the fact that fewer girls take STEM subjects such as mathematics,

astudio pynciau STEM fel mathemateg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ffiseg a chyfrifiaduraeth, a bod llawer llai yn gwneud ceisiadau i astudio peirianneg mewn addysg uwch. Argymhellwyd gennym y dylai'r prif ymgynghorydd gwyddoniaeth, drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, werthuso mentrau sy'n anelu at fynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol a'r stereoteipio rhywiol sy'n gysylltiedig â phynciau STEM, ac y dylai hyrwyddo arferion da yn y system ysgolion, gan ddechrau yn yr oedran ieuengaf posibl.

O safbwynt STEM a'r iaith Gymraeg, mae llai na 15 y cant o athrawon ffiseg sydd newydd gymhwyso'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod chwarter o ysgolion uwchradd Cymru'n rhai cyfrwng Gymraeg. Yr wyf yn falch iawn fod y Gweinidogion wedi cytuno i osod disgwyliadau uwch ar awdurdodau addysg lleol i gynnig y cyfle i athrawon sydd â sgiliau iaith Gymraeg ddatblygu eu hyder i ddysgu mewn addysg cyfrwng Gymraeg.

Trof yn awr at ddysgu pynciau STEM. Datgelodd Estyn fod safon y dysgu mewn ysgolion uwchradd yn salach mewn gwyddoniaeth a mathemateg na mewn pynciau eraill, ac nad yw'r adrannau hynny'n cael eu harwain cystal. Rhaid torri'r cylch dieflig lle mae dysgu gwael mewn ysgolion yn arwain at lai o bobl ifanc yn dewis astudio pynciau STEM i lefel uwch, llai o raddedigion STEM ac, yn ei dro, anawsterau wrth recriwtio athrawon STEM da. Roedd y pwyllgor yn bryderus hefyd o glywed bod athrawon ffiseg arbenigol—ac i raddau llai, athrawon cemeg—yn tueddu i ddysgu dosbarthiadau TGAU a lefel A yn unig. O ganlyniad, mae cyfran anghymesur o'r dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn cael ei gyflwyno gan athrawon sydd â chefnidir bioleg yn unig. Mae hyn yn golygu ei fod yn bosibl nad yw'r disgyblion yn datblygu sylfaen gadarn o sgiliau nac yn cael eu symbylu'n ddigonol i astudio'r gwyddorau ffisegol ar lefel uwch. Mae'r un peth yn wir am dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, lle mae pynciau'n aml yn cael eu dysgu gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr ac nad oes ganddynt ymroddiad angerddol na meistrolaeth drylwyr o'r pwnc. Mae hyn yn peri pryder mawr.

information and communication technology, physics and computing and significantly fewer apply to study engineering in higher education addressed. We recommended that the chief scientific adviser, through the National Science Academy, should evaluate initiatives aimed at addressing negative perceptions and gender stereotypes regarding STEM subjects and that he should promote good practice within the school system, starting at the earliest possible age.

As regards STEM and the Welsh language, less than 15 per cent of newly qualified physics teachers are able to teach through the medium of Welsh, although a quarter of secondary schools in Wales teach through the medium of Welsh. I am delighted that Ministers have agreed to place higher expectations on local education authorities to offer teachers with Welsh language skills the opportunity to develop their confidence to teach in Welsh-medium education.

I will now turn to the teaching of STEM subjects. Estyn revealed that the quality of teaching in secondary schools is poorer in science and mathematics than in other subjects, and that those departments are not as well led. It is vital to break the vicious circle whereby poor teaching in schools leads to fewer young people choosing to study STEM subjects to a higher level, fewer STEM graduates and, in turn, difficulties in recruiting good STEM teachers. The committee was also concerned to hear that specialist physics teachers—and, to a lesser extent, chemistry teachers—tend to teach GCSE and A-level classes only. As a result, a disproportionate amount of teaching at key stage 3 is delivered by teachers with only a biology background. This means that it is possible that pupils do not gain a sound skill base or are not sufficiently motivated to study the physical sciences at a higher level. The same story applies to information and communication technology, where courses are often taught by non-specialists with neither a passion nor fundamental grasp of the subject. This is deeply worrying.

Argymhellwyd gennym y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, a hwnnw'n anelu at wella hyfforddiant mewn swydd i athrawon a phenaethiaid adrannau STEM—nid yn unig i wella'u gwybodaeth o'r pynciau, ond hefyd eu dealltwriaeth o sut i ddysgu agweddau penodol o'r pynciau hyd at lefel TGAU o leiaf. Gwyddom fod eisoes rhai cymhellion i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau hyfforddi athrawon ar gyfer dysgu ffiseg, cemeg a mathemateg mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, argymhellwyd gennym y dylai Llywodraeth Cymru gofnodi niferoedd ac ansawdd athrawon STEM a datblygu mesurau i annog a recriwtio athrawon ffiseg, cemeg a mathemateg o safon uchel lle sylwyd bod angen am hynny. Derbyniwyd yr argymhelliad hwnnw.

Yn drydydd, hoffwn drafod y cysylltiadau rhwng addysg a chyflogwyr STEM. Mae lleoliadau gwaith i athrawon yn bwysig er mwyn diweddarau eu gwybodaeth o'r datblygiadau diweddaraf mewn busnes a diwydiant, er y gallai'r nifer sy'n gallu mynychu digwyddiadau o'r fath gael ei lesteirio gan ddiffyg athrawon eraill i gyflenwi yn eu lle yn yr ystafell ddosbarth. Hoffem weld Llywodraeth Cymru'n comisiynu'r partneriaethau addysg a busnes, sef Gyrfa Cymru, i ddatblygu partneriaethau strategol rhwng ysgolion a diwydiant. Hoffem hefyd weld mwy o gyfleoedd am leoliadau athrawon gyda chyflogwyr STEM. Dywedodd BT wrthym fod technoleg yn cael ei ystyried fel cefnder tlawd gwyddoniaeth, peirianeg a mathemateg, ac mai'r tueddiad presennol yw creu cenedlaeth o ddefnyddwyr technoleg yn hytrach na phobl sy'n deall y ffordd y mae'n gweithio ac yn cael ei greu. Rhannwyd y pryder hwn gan gyflogwyr STEM eraill y buom yn siarad â hwy, yn enwedig diffyg sgiliau ymarferol a meddal ymysg gweithwyr newydd.

Y cwestiwn, felly, yw: a ydym yn arfogi pobl ifanc â'r sgiliau angenrheidiol i sicrhau ffyniant economaidd Cymru? A ydym yn cydgysylltu'r agenda sgiliau â'r strategaeth ddatblygu economaidd newydd? Croesawsom sylw'r Dirprwy Weinidog bod bwriad i gynnal archwiliad ffurfiol o'r sgiliau a fydd eu hangen ar Gymru yn y dyfodol, ond

We recommended that the Welsh Government should publish a continuous professional development plan for teachers aimed at improving in-service training for STEM teachers and heads of department, not only to enhance their subject knowledge but also their understanding of how to teach specific subject topics up to GCSE level at the very least. We were aware that there are already some incentives for teacher training students to teach physics, chemistry and mathematics in secondary schools. However, we recommended that the Welsh Government should map the quantity and quality of STEM teachers and develop measures for encouraging and recruiting high quality physics, chemistry and mathematics teachers where there is an identified need. That recommendation has been accepted.

Thirdly, I would like to discuss the links between education and STEM employers. Work placements for teachers are important in order that they stay on top of the latest developments in business and industry, although the take-up of such opportunities can be hampered by a lack of cover back in the classroom. We would like to see the Welsh Government commissioning the education business partnerships, namely Careers Wales, to develop strategic partnerships between schools and industry. We would also like to see more opportunities for teacher placements with STEM employers. BT told us that technology is considered the poor relation to science, engineering and mathematics, and that the current trend is to create a generation of users of technology as opposed to people who understand its workings and construction. This concern was shared by other STEM employers that we spoke to, particularly the lack of practical and soft skills among new recruits.

The question, therefore, is whether we are equipping young people with the necessary skills to drive forward Wales's economic prosperity? Are we aligning the skills agenda with the new economic development strategy? We welcomed the Deputy Minister's comment that a formal audit of the future skills needed in Wales was being

mae'n hanfodol bod y Llywodraeth a diwydiant yn defnyddio'r wybodaeth honno i gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am sgiliau STEM.

planned, but it is essential that the Government and industry then use that knowledge to match the supply and demand for STEM skills.

4.45 p.m.

Yn yr un ffordd ag y mae lleoliadau athrawon yn bwysig ar gyfer eu datblygiad proffesiynol, mae profiad disgyblion o gyflogaeth STEM yn hanfodol hefyd wrth ddatblygu eu gwybodaeth a datblygu canfyddiad cadarnhaol o bynciau STEM. Mae'n rhaid i'r profiadau hynny fod yn rhai ystyrlon, ysbrydoledig a chynaliadwy, yn hytrach na digwyddiadau untro o bryd i'w gilydd, ac y dylent fod ar gael i bobl ifanc lle bynnag y maent yn byw. Gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cynghorau sgiliau sector a Gyrfa Cymru i ddatblygu continwwm o ddysgu o'r cyfnod sylfaen ymlaen lle mae ysgolion a chyflogwyr gyda'i gilydd yn darparu rhaglenni ysbrydoledig i ategu'r cwricwlwm STEM, gan gynnwys lleoliadau gwaith ystyrlon o ansawdd uchel sy'n gallu rhoi i bobl ifanc flas o'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen i fod yn llwyddiannus ym myd gwaith.

In the same way as teacher placements are important for their professional development, pupils' experience of STEM employment is crucial in developing their knowledge and a positive perception of STEM subjects. Those experiences have to be meaningful, inspiring and sustainable, as opposed to one-off events, and should be available to young people regardless of where they live. We recommended that the Welsh Government work with the sector skills councils and Careers Wales to develop a continuum of learning from the foundation phase onwards in which schools and employers together provide stimulating programmes to complement the STEM curriculum, including high quality, meaningful work placements that can give young people a taste of the skills they will need to be successful in the world of work.

Yn olaf, trof at STEM mewn addysg bellach ac addysg uwch. Yr oedd gan rai busnesau y buom yn siarad â hwy berthynas gynhyrchiol gydag addysg bellach neu addysg uwch, ond nid oedd hynny'n wir am bawb. Glywsom fod prifysgolion yn aml yn datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau mwy sydd wedi eu lleoli'n gyfan gwbl y tu allan i Gymru oherwydd bod cyn lleied o gwmnïau lleol gyda'r arbenigedd addas ar gyfer sefydliadau addysg uwch. Yr ydym yn credu y dylid gwneud mwy os yw Cymru am fedru cystadlu ag ardaloedd eraill ym Mhrydain a thramor wrth ddenu a chadw graddedigion sgiliau STEM. Mae'n dal i fod diffyg symbyliad digonol i academyddion ddatblygu eu cysylltiadau gyda diwydiant.

Finally, I turn to STEM subjects in further and higher education. Some businesses we spoke to had a productive relationship with further or higher education, but that was not true of them all. We heard that, because there are so few local companies that can match the expertise in higher education institutions, universities often develop links with larger organisations based wholly outside Wales. We believe that more should be done if Wales is to compete with other areas in the UK and abroad in attracting and retaining STEM-skilled graduates. There still is not sufficient incentive for academics to develop their links with industry.

I gloi, mae sgiliau STEM yn bwysig ar gyfer datblygu economi ffyniannus a chynaliadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth yng Nghymru. Dylai fod llwybr clir o ddysgu STEM o'r blynyddoedd sylfaen, drwy'r ysgol ac ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch a chyflogaeth. Mae angen inni wella'r

In conclusion, STEM skills are important to the development of a prosperous and sustainable knowledge-based economy in Wales. There should be a clear pathway of STEM learning from the foundation years, through school and into further and higher education and employment. We need to

canfyddiad o bynciau STEM, perfformiad disgyblion mewn pynciau STEM a chyfle cyfartal. Mae angen inni wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth mewn pynciau STEM, a'r cysylltiad rhwng addysg a chyflogaeth. Mae angen inni gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am sgiliau STEM er mwyn gallu diwallu anghenion yr economi yn y dyfodol. Mae ar Gymru angen fframwaith trosfwaol sy'n integreiddio addysg, diwydiant a Llywodraeth drwy weithio'n fwy strategol i gysylltu cwricwla, cymwysterau ac adnoddau dysgu ar gyfer sgiliau STEM.

Mae llawer yn dibynnu ar bolisi gwyddoniaeth Cymru sydd ar ddod, er nad oeddwn wedi fy argyhoeddi'n llwyr gan ymateb y Gweinidogion i'n hargymhelliaid y dylai'r polisi newydd hyrwyddo'r agenda STEM yn ei gyfarwydd ac nid gwyddoniaeth yn unig. Nid yw fy mhwyllgor yn bychanu'r sialensiau sy'n wynebu Cymru. Mae rhesymau dros fod yn obeithiol, fodd bynnag, ac yr ydym yn disgwyl i Brif Ymgynghorydd Gwyddoniaeth Cymru, sydd newydd ei benodi, a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol i roi'r agenda STEM ar waith drwy ganolbwyntio ar y pethau iawn.

The Deputy Minister for Science, Innovation and Skills (Lesley Griffiths): I welcome the Enterprise and Learning Committee's report on the very important STEM agenda. As we said in our response, a strong research base and a pool of workers with good STEM skills are essential for an innovative and modern economy. Many of the recommendations in the report fit closely with our current policy direction. I am pleased that we have not rejected any recommendations, and I thank the Enterprise and Learning Committee members for this report. We will take these recommendations fully into account as we move forward with our ambitious STEM agenda in Wales.

Individuals with STEM skills are very sought after, not only in technical careers in science and engineering, but in sectors such as such as education, health and financial services. The CBI's 2010 education and skills survey found that 45 per cent of employers were having difficulty recruiting STEM-skilled

improve the perception of STEM subjects, pupil performance in STEM subjects and equality of opportunity. We need to improve the quality of teaching and leadership in STEM subjects and the link between education and employment. We also need to align the supply and demand for STEM skills to meet the future needs of the economy. Wales needs an overarching framework that integrates education, industry and Government in working more strategically to link curricula, qualifications and learning resources for STEM skills.

Much hinges on the forthcoming science policy for Wales, although I was not totally convinced by the Ministers' response to our recommendation that the new policy should promote not just science but the whole of the STEM agenda. My committee does not underestimate the challenges facing Wales. There are reasons to be optimistic, however, and we look to the newly appointed Chief Scientific Adviser for Wales and the National Science Academy for Wales to take forward the STEM agenda by focusing on the right things.

Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths): Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr agenda STEM, sy'n agenda pwysig iawn. Fel y dywedasom yn ein hymateb, mae sicrhau sylfaen ymchwil gref a chronfa o weithwyr sydd â sgiliau STEM da yn hanfodol ar gyfer creu economi arloesol a modern. Mae llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad yn cydweddu'n dda â'n cyfeiriad polisi cyfredol. Rwyf yn falch nad ydym wedi gwrthod unrhyw argymhellion, a hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Menter a Dysgu am yr adroddiad hwn. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhellion hyn wrth inni ddatblygu ein hagenda uchelgeisiol, sef yr agenda STEM, yng Nghymru.

Mae llawer o alw am unigolion sydd â sgiliau STEM, nid yn unig mewn perthynas â gyrfaeodd technegol mewn gwyddoniaeth a pheirianeg, ond mewn perthynas â sectorau fel addysg, iechyd a gwasanaethau ariannol. Yn ôl arolwg Cydffederasiwn Diwydiant Prydain ar addysg a sgiliau yn 2010, roedd 45

staff, and that is in the context of a weak labour market. The challenges are long-standing. In the 1990s, the numbers of young people studying STEM subjects in schools and universities began to drop. This was due to a shortage of suitably qualified teachers, a lack of information about the fantastic opportunities and career paths offered by the STEM subjects and our collective failure to inspire and interest young people in them. We now have to do all we can to encourage the take-up of STEM subjects at all levels so that we work towards a continuous pipeline of people with the appropriate STEM qualifications and skills in future. This is what I have been driving forward through the National Science Academy and I am pleased that the committee recognises the key role that it has to play.

Recommendations 6 and 7 highlight the need to address negative perceptions and gender stereotypes of STEM subjects, and this is a high priority. The National Science Academy has a remit to address obstacles in the STEM supply chain. That is also embedded in the remit of Careers Wales and the sector skills councils. There are some excellent examples of ongoing work. In its 2009 sector skills assessment for Wales, the SSC for Energy and Utility Skills identified that the number of female employees in the sector was 22 per cent lower than the overall average for Wales. It is now delivering a project that is funded by the Welsh Assembly Government to identify women and allow them to access appropriate training focussed on industry-specified skills. There are some very positive signs out there in relation to this issue. For example, we have a total of 609 approved STEM ambassadors in Wales, 257 of whom are women: that is 42.2 per cent. They are excellent role models for women across Wales.

As part of national science and engineering week, I visited Techniquist in Cardiff this

y cant o gyflogwyr yn cael trafferth recriwtio staff â sgiliau STEM, a hynny yng nghydestun marchnad lafur wan. Mae'r heriau hyn yn rai hirsefydlog. Yn y 1990au, dechreuodd nifer y bobl ifanc a oedd yn astudio pynciau STEM mewn ysgolion a phrifysgolion ostwng. Roedd hyn oherwydd prinder athrawon â chymwysterau addas, diffyg gwybodaeth am y cyfleoedd a'r llwybrau gyrfa gwych a gynigir gan y pynciau STEM, a'n methiant torfol i ysbrydoli pobl ifanc ac i ennyn eu diddordeb yn y pynciau hyn. Yn awr, mae'n rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i annog pobl i astudio pynciau STEM ar bob lefel, fel ein bod yn gweithio tuag at greu llif parhaus o bobl â chymwysterau a sgiliau STEM priodol yn y dyfodol. Dyma'r hyn rwyf wedi bod yn ei hyrwyddo drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol ac rwyf yn falch bod y pwyllgor yn cydnabod y rôl allweddol sydd ganddi i'w chyflawni.

Mae argymhellion 6 a 7 yn tynnu sylw at yr angen inni fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol a stereoteipiau sydd yn seiliedig ar ryw mewn perthynas â phynciau STEM, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel. Rhan o gylch gwaith yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yw mynd i'r afael â rhwystrau yn y gadwyn gyflenwad ym maes STEM. Mae hynny wedi'i wreiddio hefyd yng nghylch gwaith Gyrfa Cymru a'r cynghorau sgiliau sector. Ceir rhai enghreifftiau gwych o waith sy'n mynd rhagddo. Yn ei asesiad o sgiliau sector yng Nghymru yn 2009, nododd y cyngor sgiliau sector ar gyfer sgiliau ynni a chyfleustodau fod nifer y gweithwyr benywaidd yn y sector 22 y cant yn is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Mae bellach yn gweithredu prosiect, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i dargedu menywod a'u galluogi i gael mynediad at hyfforddiant priodol sy'n canolbwyntio ar sgiliau sy'n benodol i ddiwydiant. Mae rhai arwyddion cadarnhaol iawn wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â'r mater hwn. Er enghraifft, mae gennym gyfanswm o 609 o lysgenhadon STEM cymeradwy yng Nghymru, ac mae 257 ohonynt yn fenywod: hynny yw, 42.2 y cant. Maent yn fodolau rôl rhagorol i fenywod ledled Cymru.

Fel rhan o wythnos genedlaethol gwyddoniaeth a pheirianeg, ymwelais â

morning. It is 25 years old this year, and it really is flying the flag for Wales as the longest established science centre in the UK. I am delighted that, through the National Science Academy, it is one of the five hubs and therefore we are able to make better use of this fantastic resource across Wales.

A number of the committee's recommendations focus on links with employers and collaborative working between businesses and schools. That includes high-quality work placements that give young people a real taste of the exciting STEM jobs that are out there, working with Careers Wales and employers across Wales. I accept recommendation 14 on extending good practice by sector skills councils in establishing strategic partnerships between employers and educational institutions. I believe that these relationships will be key to our success.

Peter Black: I have been listening to the debate, and I think that the recommendations in the report are very important for promoting STEM subjects. However, there is not a lot in the report about how we promote innovation. What are you doing in the Government to try to promote innovation, as well as raising awareness and getting people involved in science and technology, to ensure that we can drive that forward to produce innovative projects that will create high-quality jobs?

Lesley Griffiths: We are getting an innovation strategy together, which will be for the new Government after May to take forward. I visited the National Centre for Product Design and Development Research at the University of Wales Institute, Cardiff last week, and there are great examples of innovation, but we need to pursue this further, and we shall be doing so through the National Science Academy.

To go back to relationships between employers and educational institutions, we funded Techniquet Glyndŵr to develop a youth and employer engagement project in

Techniquet yng Nghaerdydd y bore yma. Mae'n 25 mlwydd oed eleni, ac mae wir yn chwifio'r faner dros Gymru, yn rhinwedd ei statws fel canolfan wyddoniaeth hynaf y DU. Rwyf yn falch iawn ei fod yn un o'r pum canolfan, a hynny drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, ac felly byddwn yn gallu gwneud defnydd gwell o'r adnodd gwych hwn ledled Cymru.

Mae nifer o argymhellion y pwyllgor yn canolbwyntio ar gysylltiadau â chyflogwyr a chydweithio rhwng busnesau ac ysgolion. Mae hynny'n cynnwys lleoliadau gwaith o ansawdd uchel sy'n rhoi blas go iawn i bobl ifanc o'r swyddi STEM cyffrous sy'n bodoli, gan weithio gyda Gyrfa Cymru a chyflogwyr ledled Cymru. Rwyf yn derbyn argymhelliad 14, sy'n ymwneud ag ymestyn arferion da gan gynghorau sgiliau sector drwy sefydlu partneriaethau strategol rhwng cyflogwyr a sefydliadau addysgol. Credaf y bydd y cysylltiadau hyn yn allweddol i'n llwyddiant.

Peter Black: Rwyf wedi bod yn gwrandao ar y ddadl hon, a chredaf fod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo pynciau STEM. Fodd bynnag, nid oes llawer yn yr adroddiad am sut y gallwn hyrwyddo arloesedd. Beth yr ydych chi'n ei wneud yn y Llywodraeth i geisio hybu arloesedd, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ac annog pobl i ymgysylltu â gwyddoniaeth a thechnoleg, er mwyn sicrhau y gallwn roi'r agenda hwn ar waith i lunio prosiectau arloesol a fydd yn creu swyddi o ansawdd uchel?

Lesley Griffiths: Rydym wrthi'n llunio strategaeth arloesi, a fydd ar gael i'r Llywodraeth newydd i'w datblygu ar ôl mis Mai. Bûm yn ymweld â'r Ganolfan Genedlaethol Dylunio Cynnyrch ac Ymchwil Datblygu yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, yr wythnos diwethaf, ac mae enghreifftiau gwych o arloesi ar gael. Serch hynny, mae angen dilyn y mater hwn ymhellach, a byddwn yn gwneud hynny drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol.

Dychwelaf yn awr at y berthynas rhwng cyflogwyr a sefydliadau addysgol. Rydym wedi ariannu prosiect gan Techniquet Glyndŵr i ymgysylltu â phobl ifanc a

mid and north Wales, which I launched earlier this month. It was fantastic to see students interacting with employers and showing a real understanding of the skills that will be required in the future. The importance of teachers cannot be overstated and Gareth referred to this in his opening remarks. We are focusing on continuing professional development for teachers in maths, physics and chemistry, through the National Science Academy, working with Swansea University. That is highlighted in recommendation 10.

I also accept recommendation 15. The Welsh Assembly Government commissioned the UK Commission for Employment and Skills to produce the strategic skills audit for Wales, which is currently in the planning stage. This has identified STEM skills demands and deficits, and evidence points to a continuing demand for STEM-related occupations and the likely increase in competition between sectors for skilled recruits. That body of evidence is vital so that we can build a picture over time of skills demand, supply and mismatches in Wales. The final four of the committee's recommendations relate to the role of the Chief Scientific Adviser for Wales, Professor John Harries. Using the expertise of the Science Advisory Council for Wales, which he has set up, he is developing a new science policy that will be published later this year, following consultation. He will be engaged at the highest level in a number of key areas that are highlighted in the report.

The Welsh Assembly Government is committed to focusing on the STEM agenda to help deliver a stronger, more sustainable and resilient economy for the future. Increasing the take up of STEM subjects at all levels is vital to our future success. I thank the committee once more for its excellent work and look forward to the debate.

chyflogwyr yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Lanswyd y prosiect hwn gennyf yn gynharach yn y mis. Roedd yn wych gweld myfyrwyr yn rhyngweithio â chyflogwyr ac yn dangos gwir ddealltwriaeth o'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd athrawon, a chyfeiriodd Gareth at y mater hwn yn ei sylwadau agoriadol. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon ym meysydd mathemateg, ffiseg a chemeg, a hynny drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, gan weithio gyda Phrifysgol Abertawe. Mae hynny'n cael ei amlygu yn argymhelliad 10.

Rwyf hefyd yn derbyn argymhelliad 15. Comisiynwyd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i lunio archwiliad sgiliau strategol i Gymru. Ar hyn o bryd, mae'r archwiliad yn cael ei gynllunio. Mae'r broses hon wedi nodi galwadau a diffygion o ran sgiliau STEM, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yna alw parhaus am alwedigaethau sy'n gysylltiedig â STEM, yn ogystal â chynnydd tebygol mewn cystadleuaeth rhwng sectorau am recriwtiaid medrus. Mae'r dystiolaeth honno'n hanfodol er mwyn inni allu creu darlun, dros gyfnod o amser, o'r galw am sgiliau, y cyflenwad ohonynt a'r camgymariadau sy'n bodoli yng Nghymru. Mae'r pedwar argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â rôl yr Athro John Harries, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru. Gan ddefnyddio arbenigedd y corff a sefydlwyd ganddo, sef Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru, mae'n datblygu polisi gwyddoniaeth newydd a gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, yn dilyn ymgynghoriad. Bydd yn ymgysylltu â nifer o'r meysydd allweddol sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad ar y lefel uchaf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i ganolbwyntio ar yr agenda STEM er mwyn ceisio creu economi cryfach, mwy cynaliadwy a gwydn ar gyfer y dyfodol. Bydd cynyddu nifer y bobl sy'n astudio pynciau STEM ar bob lefel yn hanfodol i'n llwyddiant yn y dyfodol. Diolchaf i'r pwyllgor unwaith eto am ei waith ardderchog, ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl hon.

Paul Davies: I am pleased to take part in this important debate today. First, I thank the Chair of the committee for his leadership on this issue. I also thank the clerk and her team for their efforts throughout the inquiry. I am pleased that the Ministers have accepted, accepted in principle, or partly accepted, all of the committee's recommendations. I am sure that we all agree that it is important that we continue to support actions that help teachers and lecturers deliver strong subject teaching in STEM subject areas.

As outlined in the committee's first recommendation, it is important that the Assembly Government carries out a study of why science in primary schools may be experiencing a decline. There has been a huge spotlight on standards in education in recent weeks, and we need more effective monitoring of performance in subject areas, especially in STEM subject areas, to ensure that we are continuously aware of the strengths and weaknesses of our current provisions. We are all aware that Estyn's inspections of secondary schools revealed significantly lower standards in science and mathematics than in other subjects. As such, I am pleased that the Ministers have accepted recommendations 2 and 3, which will seek evidence of the experience of both two and three science routes to A-level success, and engage with partners to identify and circulate best practice for offering triple science as a subject choice, and encouraging its uptake.

Another issue in which I am interested is the teaching of STEM subjects. In the Welsh Assembly Government's response to the inquiry, it was noted:

'There remains a critical lack of suitably qualified teachers within schools, particularly in Maths.'

It is important that the Welsh Assembly Government provides strong leadership on this issue and, while I acknowledge that there has been a commitment to continuing professional development by ensuring that it

Paul Davies: Rwy'n falch i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor am ei arweiniad ar y mater hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i'r clerch a'i thîm am eu hymdrechion drwy gydol yr ymchwiliad. Rwy'n falch bod y Gweinidogion naill ai wedi derbyn argymhellion y pwyllgor, neu wedi'u derbyn mewn egwyddor neu wedi'u derbyn yn rhannol. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno ei bod yn bwysig i ni barhau i gefnogi camau gweithredu a fydd yn helpu athrawon a darlithwyr i ddarparu addysgu cryf mewn meysydd pwnc STEM.

Fel yr amlinellwyd yn argymhelliad cyntaf y pwyllgor, mae'n bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal astudiaeth o pam y gwelir dirywiad posibl mewn gwyddoniaeth yn ysgolion cynradd. Tynnwyd llawer o sylw at safonau addysg yn yr wythnosau diwethaf. Mae angen monitro perfformiad mewn meysydd pwnc—yn benodol, meysydd pwnc STEM—mewn modd llawer mwy effeithiol, a hynny er mwyn sicrhau ein bod bob amser yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau ein darpariaethau presennol. Rydym i gyd yn ymwybodol bod arolygiadau Estyn o ysgolion uwchradd wedi dangos bod safonau mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn llawer is nag y maent mewn pynciau eraill. Yn hynny o beth, rwy'n falch bod y Gweinidogion wedi derbyn argymhellion 2 a 3, a fydd yn ceisio dod o hyd i dystiolaeth o brofiad bod astudio gwyddoniaeth ddwbl a thriphlyg yn arwain at lwyddiant lefel Uwch, gan ymgysylltu â phartneriaid i nodi a rhannu arferion gorau o ran cynnig gwyddoniaeth driphlyg fel pwnc dewisol, ac annog pobl i'w hastudio.

Mater arall y mae gennyf ddi-ddordeb ynddo yw addysgu pynciau STEM. Nododd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymchwiliad y ffaith a ganlyn:

erys prinder sylweddol o athrawon â chymwysterau addas mewn ysgolion, yn enwedig mewn Mathemateg.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu arweinyddiaeth gref ar y mater hwn ac, er fy mod yn cydnabod y gwnaed ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus drwy sicrhau ei fod yn

is focused on national priorities such as literacy and numeracy, more needs to be done to improve in-service training and monitor the quality of STEM subject teachers. Estyn's response to the committee inquiry stated that

'poor-quality teaching in schools leads to fewer young people choosing to study STEM subjects to a higher level, fewer STEM graduates and, in turn, difficulties in recruiting good STEM teachers, particularly in the physical sciences.'

This will, no doubt, have a knock-on effect on our economy and, therefore, it is important that our children receive a good teaching experience in STEM subjects throughout primary and secondary school, which will then inspire them to continue through to higher education and employment.

One thing that we have learned through the course of this inquiry is that there appears to be a concern surrounding the number of STEM graduates employed in non-STEM sector jobs. We also heard much about how there needs to be a more joined-up approach between educators and industry. In fact, Tinopolis believed that:

'There should be more intensive and long-term work experience placements that really give candidates a proper commercial view of the industry and the skills, and the culture that is inherent in working in that sector.'

I am pleased to hear that the Welsh Assembly Government will be appointing a part-time teaching fellow from each STEM discipline to undertake a review of current practice in a specific area with Welsh higher education institutions. It is vital that our students studying STEM subjects leave higher education equipped with the right set of skills for industry and providing students with more practical training will, no doubt, help to ease students into employment in STEM subject areas.

My last point is in relation to tying STEM subjects together in a more integrated and strategic agenda. In this regard, I am

canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol fel llythrennedd a rhifedd, mae angen gwneud mwy i wella hyfforddiant yn y swydd ac i fonitro safonau athrawon pynciau STEM. Roedd ymateb Estyn i ymchwiliad y pwyllgor yn datgan bod

'dysgu gwael mewn ysgolion yn arwain at lai o bobl ifanc yn dewis astudio pynciau STEM i lefel uwch, llai o raddedigion STEM ac, yn ei dro, anawsterau wrth recriwtio athrawon STEM da, yn enwedig yn y gwyddorau ffisegol.'

Bydd y sefyllfa hon, yn ddiau, yn cael effaith ganlyniadol ar ein heconomi. Felly, mae'n bwysig bod ein plant yn cael profiad addysgu da mewn perthynas â phynciau STEM drwy gydol eu hamser yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, a bod hynny'n eu hysbrydoli i ddilyn llwybr addysg uwch a chyflogaeth.

Un peth yr ydym wedi'i ddysgu yn ystod yr ymchwiliad hwn yw ei bod yn ymddangos bod yna bryder ynghylch nifer y graddedigion STEM a gyflogir mewn swyddi mewn sectorau nad ydynt yn sectorau STEM. Clywsom lawer hefyd am sut y mae angen dull mwy cydgysylltiedig o weithredu rhwng addysgwyr a diwydiant. Yn wir, dywedodd Tinopolis:

Dylai fod mwy o leoliadau profiad gwaith dwys a thymor hir sydd wir yn rhoi cipolwg o natur fasnachol y diwydiant i ymgeiswyr, yn ogystal â'r sgiliau a'r diwylliant sy'n rhan annatod o weithio yn y sector hwnnw.

Rwyf yn falch o glywed y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penodi cymrawd addysgu rhan-amser o bob disgyblaeth STEM i gynnal adolygiad o arferion presennol mewn meysydd penodol gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'n hanfodol y bydd myfyrwyr sy'n astudio pynciau STEM, pan fyddant yn gadael addysg uwch, yn meddu ar y set gywir o sgiliau ar gyfer diwydiant. Heb amheuaeth, bydd darparu mwy o hyfforddiant ymarferol i fyfyrwyr yn eu helpu i ddod o hyd i swyddi mewn meysydd pwnc STEM.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â chlymu pynciau STEM ynghyd mewn agenda sydd yn fwy integredig a strategol. Yn hynny o

particularly pleased that the Ministers have accepted recommendation 20, which looks at the Science Advisory Council for Wales promoting the other three STEM disciplines, as well as closely engaging with Welsh employers and industrialists in those sectors. We heard from Professor John Harries about how he was working to achieve better representations from SMEs, as there were concerns surrounding the interface between the Science Advisory Council for Wales and the priority sectors. I very much appreciate that the Chief Scientific Adviser for Wales will be looking at this, and I also look forward to hearing more about the new science policy and how it will address the issues of STEM education, as mentioned in the Welsh Assembly Government's written response to the inquiry. We have acknowledged that there are a number of challenges ahead if we want to strengthen the STEM agenda in Wales—from perception issues to teaching to working more collaboratively with businesses. I am pleased that almost all of the committee's recommendations have been accepted by the Ministers, and I now urge them to implement them as quickly as possible.

5.00 p.m.

Christine Chapman: I thank Gareth for chairing this important inquiry and for his leadership of it, and I thank the committee clerking team. I also thank the people who gave evidence, because I thought that it was a good inquiry into an important subject. If the future of Wales as a country of innovation is to be assured, we need STEM graduates. I commend all the recommendations within the report, and I welcome the Government's positive response to it.

I want to focus on two of the recommendations, of which there are many in the report. Recommendation 7 charges the sector skills councils with identifying and drawing up action plans to remedy gender imbalances within their respective sectors. The report notes the gender imbalance within most STEM subjects at A-level, and this is made even worse within higher education. It is not good that just 38 per cent of

beth, rwyf yn arbennig o falch bod y Gweinidogion wedi derbyn argymhelliad 20, sy'n edrych ar waith Cyngor Cyngori ar Wyddoniaeth Cymru o ran hyrwyddo'r tair disgyblaeth STEM arall, ac o ran ymgysylltu'n agos â chyflogwyr a diwydianwyr yn y sectorau hynny yng Nghymru. Clywsom gan yr Athro John Harries am sut yr oedd yn ceisio ennyn sylwadau gwell gan fusnesau bach a chanolig, gan fod yna bryderon ynghylch y berthynas rhwng Cyngor Cyngori ar Wyddoniaeth Cymru a'r sectorau blaenoriaeth. Rwy'n sylweddoli y bydd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru yn edrych ar y mater hwn, ac rwyf hefyd yn edrych ymlaen at glywed mwy am y polisi gwyddoniaeth newydd, a sut y bydd yn mynd i'r afael â materion addysg STEM, fel y crybwyllwyd yn ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymchwiliad. Rydym wedi cydnabod bod nifer o heriau o'n blaenau os ydym am gryfhau'r agenda STEM yng Nghymru, gan gynnwys materion sy'n ymwneud a chanfyddiadau, addysgu, a gweithio'n fwy cydgysylltiol gyda busnesau. Rwy'n falch y cafodd bron pob un o argymhellion y pwyllgor eu derbyn gan y Gweinidogion, ac rwyf bellach yn eu hannog i'w rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Christine Chapman: Diolch i Gareth am gadeirio'r ymchwiliad pwysig hwn ac am ei arweiniad, a diolchaf i dîm clercio'r pwyllgor. Diolch i'r bobl a gyflwynodd dystiolaeth hefyd, oherwydd credaf ei fod yn ymchwiliad da i bwnc pwysig. Os yw dyfodol Cymru fel gwlad arloesol am fod yn sicr, mae angen graddedigion STEM. Cymeradwyaf yr holl argymhellion yn yr adroddiad, a chroesawaf ymateb cadarnhaol y Llywodraeth iddo.

Rwyf am ganolbwyntio ar ddau o'r argymhellion, o'r nifer sydd yn yr adroddiad. Mae argymhelliad 7 yn rhoi'r dasg o adnabod a llunio cynlluniau gweithredu i unioni anghydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn eu sectorau perthnasol, ar y cynghorau sgiliau sector. Mae'r adroddiad yn nodi'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y mwyafrif o bynciau STEM ar gyfer Safon Uwch, ac mae'r sefyllfa'n waeth, hyd yn oed,

mathematical science students are women, that just 19 per cent of computer science students are women and that only 15 per cent are studying engineering and technology. Even when young women have studied these subjects, a disappointingly low number go on to have careers within the STEM sector. I believe that the sector must ask itself why this is happening, and it must tackle these inbuilt biases. I am sure that there are problems of discrimination within wider society in this regard, but the issue is one for the sector as well.

There are good examples of some elements of the sector deliberately working to change perceptions; I am thinking in particular of the excellent Women in Construction campaign. However, these campaigns must become the norm and not the exception, because if we do not act to change this, we limit the talent pool that we can draw on to just 50 per cent of the population, and that is not acceptable. I welcome the Deputy Minister's comments in this regard, because work is being done, and I would welcome further progress being made.

My second point is on recommendation 16, which looks at the need for meaningful and high-quality work placements for young people. However, what concerns me is that we are sometimes not ambitious enough for some of our young people. Work experience should be about expanding perceptions and encouraging aspirations, and should not be limited by where you live, by your experience or the community that you come from. We must acknowledge that some of our young people have narrow perceptions of what is out there, so it is a matter for us to challenge those young people to realise their potential.

I welcome yesterday's launch of the Real Conversation, and I hope it succeeds in improving the experience of work experience. If we really want to improve social mobility, this is something that we must work on. Again, it is about improving

mewn addysg uwch. Nid yw'n beth da mai dim ond 38 y cant o fyfyrwyr gwyddoniaeth mathemategol sy'n fenywod, mai dim ond 19 y cant o fyfyrwyr gwyddoniaeth gyfrifiadurol sy'n fenywod ac mai dim ond 15 y cant o'r rhai sy'n astudio peirianeg a thechnoleg sy'n fenywod. Hyd yn oed pan fydd menywod ifanc wedi astudio y pynciau hyn, mae nifer siomedig o isel yn mynd ymlaen i gael gyrfaedd o fewn y sector STEM. Rwy'n credu bod yn rhaid i'r sector ystyried pam fod hyn yn digwydd, ac mae'n rhaid iddo fynd i'r afael â'r rhagfarnau sy'n bodoli. Rwy'n siŵr bod problemau o wahaniaethu mewn cymdeithas yn ehangach yn hyn o beth, ond mae'r mater yn broblem o fewn y sector hwn hefyd.

Ceir enghreifftiau da o rai elfennau o'r sector yn fwriadol yn gweithio i newid y sefyllfa; rwy'n meddwl yn arbennig am ymgyrch ragorol Menywod mewn Adeiladu. Fodd bynnag, rhaid i'r ymgyrchoedd hyn ddod yn norm ac nid yn eithriad, oherwydd, os na fyddwn yn gweithredu i newid hyn, rydym yn cyfyngu ar y gronfa dalent y gallwn dynnu ohoni i ddim ond 50 y cant o'r boblogaeth, ac nid yw hynny'n dderbyniol. Rwy'n croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog yn hyn o beth, gan fod gwaith yn cael ei wneud, a byddwn yn croesawu cynnydd pellach eto.

Mae fy ail bwynt ynghylch argymhelliad 16, sy'n ystyried yr angen am leoliadau gwaith ystyrlon a safonol ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fy mhoeni yw nad ydym weithiau'n ddigon uchelgeisiol dros rai o'n pobl ifanc. Dylai profiad gwaith fod yn seiliedig ar ehangu canfyddiadau ac annog dyheadau, ac ni ddylai gael ei gyfyngu gan ble yr ydych yn byw, gan eich profiad neu gan y gymuned yr ydych yn byw ynddi. Rhaid i ni gydnabod bod rhai o'n pobl ifanc â chanfyddiadau cul o'r hyn sydd ar gael iddynt, felly ein cyfrifoldeb ni yw herio'r bobl ifanc i wireddu eu potensial.

Roeddwn yn croesawu lansiad y Sgwrs Go Lawn ddoe, ac rwy'n gobeithio y bydd yn llwyddo i wella'r profiad o brofiad gwaith. Os ydym eisiau gwella symudedd cymdeithasol o ddifrif, mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni weithio arno. Unwaith eto,

the qualifications of young people, but it is also about wider experiences such as work experience, which is important in the STEM sector.

Finally, we know that there are many good examples of innovative companies across Wales, and we need to build on this. However, it is vital that we get the best people with the best skills to do so. It was good that this inquiry gave us the opportunity to consider this further.

Jenny Randerson: I start by thanking the Chair for his leadership in this important inquiry; in fact, I cannot think of a debate in the Assembly that is more important to the future prosperity of Wales. If we are to succeed in developing our economy and be at the cutting edge of business and innovation, we have to get it right at the school level.

Other Members have mentioned the importance of getting it right in primary school, right at the very beginning, and I have considerable concern that the evidence that we took showed a decline in standards in primary school education. I would urge the Minister to look at the curriculum at that level, as well as continuous professional development for staff in primary schools. If we do not inspire young people at that age, it will be that much more difficult to do so when we get to secondary school level.

The second recommendation is also of considerable importance. We had quite a body of evidence about the balance between taking combined science at GCSE level and studying sciences separately at GCSE level. There were some dissenting voices, but it is important that the Government undertakes the study. I believe that the work has been done in England and it might be possible to use that as a basis, because there seems to be a clear link between studying sciences separately at GCSE level and getting better grades at A-level. I know that university admissions officers, in some cases, have expressed concern that people who have taken combined sciences at GCSE find it

mae'n ymwneud â gwella cymwysterau pobl ifanc, ond mae hefyd yn ymwneud â phrofiadau ehangach fel profiad gwaith sy'n bwysig yn y sector STEM.

Yn olaf, rydym yn gwybod bod llawer o enghreifftiau da o gwmnïau arloesol ar draws Cymru, ac mae angen i ni ddatblygu yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn cael y bobl orau sydd â'r sgiliau gorau i wneud hynny. Roedd yn dda bod yr ymchwiliad hwn yn rhoi cyfle i ni ystyried hyn ymhellach.

Jenny Randerson: Dechreuaf drwy ddiolch i'r cadeirydd am ei arweinyddiaeth yn yr ymchwiliad pwysig hwn; yn wir, ni allaf feddwl am ddadl yn y Cynulliad sy'n fwy pwysig i ffyniant Cymru yn y dyfodol. Os llwyddwn i ddatblygu ein heconomi a bod ar flaen y gad o ran busnes ac arloesi, mae'n rhaid i ni wneud pethau'n iawn ar lefel ysgolion.

Mae Aelodau eraill wedi sôn am bwysigrwydd gwneud pethau'n iawn yn yr ysgol gynradd, o'r dechrau'n deg, ac rwy'n pryderu'n fawr bod y dystiolaeth a gawsom yn dangos dirywiad yn y safonau mewn addysg ysgol gynradd. Byddwn yn annog y Gweinidog i edrych ar y cwricwlwm ar y lefel honno, yn ogystal ag ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff mewn ysgolion cynradd. Os na fyddwn yn ysbrydoli pobl ifanc yn yr oedran hwnnw, bydd yn gymaint â hynny'n fwy anodd i wneud hynny pan fyddwn yn mynd i lefel ysgol uwchradd.

Mae'r ail argymhelliad yn bwysig iawn hefyd. Cawsom gorff sylweddol o dystiolaeth am y cydbwysedd rhwng astudio gwyddoniaeth cyfun ar lefel TGAU ac astudio'r gwyddorau ar wahân ar lefel TGAU. Roedd rhai yn anghytuno, ond mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cynnal yr astudiaeth. Credaf fod y gwaith wedi'i wneud yn Lloegr a gallai fod yn bosibl i ddefnyddio hynny fel sail, oherwydd ymddengys bod cysylltiad amlwg rhwng astudio gwyddorau ar wahân ar lefel TGAU a chael graddau gwell ar gyfer Safon Uwch. Gwn fod swyddogion derbyn prifysgolion, mewn rhai achosion, wedi mynegi pryder bod pobl sydd wedi astudio gwyddorau cyfun ar lefel

more difficult, even when they reach university, because they have not done the ancillary subjects to their main subject in sufficient depth.

To move on from that to the important issue of the number of schools that are able to offer triple science and ensuring that, if they cannot offer it, it is offered in neighbouring institutions, I come to the core issue of this report. Gareth, as Chair, mentioned the importance of a teacher's passion for the subject, but alongside it must be a comprehensive knowledge and understanding of it. The evidence that we had was that, far too often, science teachers are being asked to teach subjects in which they are not specialists. Maths teachers are being asked to teach sciences, science teachers are being asked to teach maths, and so on. IT is often taught by non-specialists. People often think that if you are competent at using a computer, you can teach IT, but they are different things. Subjects change, and individuals change and wish to teach other subjects, but there must be professional development and support before people can satisfactorily transfer to other subjects. It is a vicious circle, is it not? If you have people who are not on top of their subject or who have been drafted in at the last minute to teach a course, and they are doing so unwillingly, they are less likely to inspire their pupils or to give them a comprehensive set of information that they fully understand. Those pupils then go on to get lower grades and are less likely to want to choose that subject for their career, for university or even for A-level, and then you have a shortage of the graduates who will become teachers, and so it goes on from generation to generation. It is therefore essential for the Welsh Assembly Government to manage to break that vicious circle.

Finally, relating to that, I want to emphasise that the latest Welsh Assembly Government statistics show that the gap in performance in the core subjects between those eligible for free school meals and the rest of the school population has widened at key stage 4.

TGAU yn ei chael yn fwy anodd, hyd yn oed pan fyddant yn cyrraedd y brifysgol, oherwydd nad ydynt wedi astudio'r pynciau sy'n atodol i'w prif bwnc, yn ddigon manwl.

I symud at y mater pwysig, sef nifer yr ysgolion a all gynnig gwyddoniaeth driphlyg a sicrhau, os na allant ei gynnig, y caiff ei gynnig mewn sefydliadau cyfagos, deufaf at fater craidd yr adroddiad hwn. Soniodd Gareth, fel cadeirydd, am bwysigrwydd brwdfrydedd athro am bwnc, ond ochr yn ochr â hynny, rhaid i'r athro fod â gwybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth o'r pwnc. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn dangos, yn rhy aml o lawer, bod gofyn i athrawon gwyddoniaeth ddysgu pynciau lle nad ydynt yn arbenigwyr. Gofynnir i athrawon mathemateg ddysgu gwyddoniaeth, gofynnir i athrawon gwyddoniaeth ddysgu mathemateg, ac yn y blaen. Dysgir technoleg gwybodaeth yn aml gan athrawon nad ydynt yn arbenigwyr. Mae pobl yn aml yn meddwl os ydych yn gymwys wrth ddefnyddio cyfrifiadur, y gallwch ddysgu TG, ond maent yn sgiliau gwahanol. Mae pynciau'n newid, ac mae unigolion yn newid ac yn dymuno dysgu pynciau eraill, ond rhaid sicrhau datblygiad proffesiynol a chefnogaeth cyn y gall pobl drosglwyddo'n foddhaol at bynciau eraill. Mae'n gylch dieflig, onid yw? Os oes gennych bobl nad ydynt yn gwbl gyfarwydd â'u pwnc neu sydd wedi cael eu drafftio ar y funud olaf i addysgu cwrs, a'u bod yn anfodlon gwneud hynny, byddant yn llai tebygol o ysbrydoli eu disgyblion neu i roi cyfres o wybodaeth gynhwysfawr y maent yn ei deall yn llawn, iddynt. Bydd y disgyblion hynny wedyn yn mynd ymlaen i gael graddau is, a byddant yn llai tebygol o fod eisiau dewis y pwnc ar gyfer eu gyrfa, eu cwrs prifysgol neu hyd yn oed ar gyfer eu lefel A, ac yna bydd prinder o raddedigion a fydd yn dod yn athrawon, ac felly mae'n trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'n hanfodol felly bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyddo i dorri'r cylch dieflig hwn.

Yn olaf, yn ymwneud â hynny, rwyf am bwysleisio bod ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos bod y bwlch o ran perfformiad yn y pynciau craidd rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gweddill y

Therefore, the problems that this report brings out are even more intense in relation to those pupils who come from the most disadvantaged homes. If we get it right, these should be the jobs that give people the greatest opportunity to make a success of life, to make progress and to earn a prosperous living.

Jeff Cuthbert: I am pleased to be able to contribute to this debate. I also add my thanks to Gareth for his extremely objective chairing of the committee's work, and I thank the clerk and her staff and all the witnesses who appeared before us to give us valuable evidence. I am a member of that committee and I feel privileged to have taken part in looking at the state of the STEM agenda in Wales. This was a positive, constructive and comprehensive report, looking at the breadth of the STEM agenda in Wales and how it can be strengthened and better rolled out in learning and working environments across the country. It ties in very much with our economic development and skills agenda, as we prepare ourselves to meet the challenges of the years ahead, and I am delighted that the Welsh Government has accepted the majority of the report's recommendations. We know well that our future economic performance and adaptability depends on the skill levels of our workforce. The teaching of science, technology, engineering and maths is a long-term cornerstone of this aspiration. We must ensure that it is built into the 14-19 learning pathways, the Welsh baccalaureate, and the college-based Pathways to Apprenticeships programme, as well as the more traditional school curriculum. Careers Wales also has a role to play here in actively encouraging young people to pursue careers in areas such as engineering and research and development, fostering the appropriate academic and vocational background in order to do so. I am therefore pleased that the Deputy Minister recognises this in her acceptance of recommendations 4, 5, 13 and 15.

How we teach STEM subjects is also vital. We should ensure that it is done in a way relevant to learners' practical interests and,

boblogaeth ysgol wedi ehangu yng nghyfnod allweddol 4. Felly, mae'r problemau sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad hwn hyd yn oed yn ddwysach mewn perthynas â'r disgyblion hynny sy'n dod o'r cartrefi mwyaf difreintiedig. Os byddwn yn gwneud hyn yn iawn, dylai'r rhain fod yn swyddi sy'n rhoi'r cyfle gorau i bobl lwyddo mewn bywyd, i wneud cynnydd ac i ennill bywoliaeth ffyniannus.

Jeff Cuthbert: Rwy'n falch o allu cyfrannu at y ddadl hon. Rwyf innau yn ychwanegu fy niolch i Gareth am ddull gwrthrychol iawn o gadeirio gwaith y pwyllgor, a hoffwn ddiolch i'r clerwr a'i staff ac i'r holl dystion a ymddangosodd ger ein bron i roi tystiolaeth werthfawr i ni. Rwy'n aelod o'r pwyllgor hwnnw ac rwy'n teimlo'n freintiedig o fod wedi cymryd rhan i edrych ar gyflwr yr agenda STEM yng Nghymru. Roedd hwn yn adroddiad cadarnhaol, adeiladol a chynhwysfawr, yn edrych ar ehangder yr agenda STEM yng Nghymru a sut y gellir ei gryfhau a'i gyflwyno'n well mewn sefyllfaoedd dysgu ac amgylcheddau gwaith ar draws y wlad. Mae'n clymu'n agos iawn â'n hagenda datblygiad economaidd a sgiliau, wrth ymbaratoi i gwrdd â her y blynyddoedd sydd i ddod, ac rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad. Gwyddom yn dda fod ein perfformiad o ran yr economi a chymhwysedd yn y dyfodol yn dibynnu ar lefelau sgiliau ein gweithlu. Mae addysgu gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg yn gonglfaen hir-dymor y dyhead hwn. Rhaid i ni sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn y llwybrau dysgu 14-19 oed, sef bagloriaeth Cymru, a Llwybrau at Brentisiaethau yn y colegau, yn ogystal â'r cwricwlwm ysgol mwy traddodiadol. Mae gan Gyrfa Cymru hefyd rôl i'w chwarae yn hyn o beth o ran annog pobl ifanc i ddilyn gyrfaoedd mewn meysydd fel peirianeg ac ymchwil a datblygu, i feithrin y cefndir academaidd a galwedigaethol priodol ar gyfer gwneud hynny. Rwy'n falch felly bod y Dirprwy Weinidog yn cydnabod hyn wrth iddi dderbyn argymhellion 4, 5, 13 a 15.

Mae sut yr ydym yn addysgu pynciau STEM yn hanfodol hefyd. Dylem sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n

wherever possible, that they are taught in fun ways. I am pleased that the Deputy Minister recognises this in her acceptance of recommendations 6, 11 and 14. On a similar note, television programmes such as the one about the big bang and Professor Brian Cox's series exploring the history of the solar system and the universe have helped to promote an interest in science among a wider audience. Meanwhile, the Bloodhound education programme has been rolling out to primary and secondary schools, as well as further and higher education institutions, in order to provide a new and engaging way of drawing in the next generation of engineers and scientists to these stimulating subjects by researching, designing, building and testing a car capable of reaching speeds of 1,000 mph. It has also introduced the notion of problem-solving and entrepreneurship through such considerations as what to make the wheels out of for a car that is capable of that kind of speed. Indeed, I am soon due to attend engineering excellence day at the Celtic Manor Resort in Newport, where schools, including the two Lewis schools in my constituency, have been taking part in Bloodhound with much enthusiasm.

Thanks to the UK Government's drastic spending cuts we face a tough economic climate in the years ahead. It is crucial that we have the right skills base for our workforce so that we can do our best to grow and export our way out of this. As chair of the Assembly's cross-party group on the built environment, I am regularly briefed by organisations in the construction sector that are concerned about the impact of cuts on capital budgets and our efforts to build ourselves out of recession. I am told that the Welsh Government has recently engaged closely with the Welsh built environment forum to look at ways of moving forward. This week, the Wales manufacturing forum has urged Welsh businesses to raise their game when it comes to exports, and entrepreneur Sir Terry Matthews has said that Wales has to keep its graduates working in its economy. Surely, STEM subjects are a fundamental part of meeting these challenges,

berthnasol i ddiddordebau dysgwyr ymarferol a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu bod yn cael eu haddysgu mewn ffyrdd hwyliog. Rwy'n falch bod y Dirprwy Weinidog yn cydnabod hyn wrth dderbyn argymhellion 6, 11 a 14. Ar nodyn tebyg, mae rhaglenni teledu fel yr un am y glec fawr a chyfres yr Athro Brian Cox sy'n archwilio hanes y system solar a'r bydysawd, wedi helpu i hybu diddordeb mewn gwyddoniaeth ymysg cynulleidfahangach. Yn y cyfamser, mae'r rhaglen deledu addysgol Bloodhound wedi cael ei dangos mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, er mwyn darparu ffordd newydd a diddorol o ddennu'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr a gwyddonwyr at y pynciau ysgogol hyn drwy ymchwilio i'w gefndir, dylunio, adeiladu a phrofi car a all gyrraedd cyflymder o 1,000 milltir yr awr. Mae hefyd wedi cyflwyno'r syniad o ddatrys problemau ac entrepreneuriaeth, drwy ystyriaethau fel beth y dylid ei ddefnyddio i wneud olwynion ar gyfer car a all gyrraedd y math hwnnw o gyflymder. Yn wir, yn fuan byddaf yn mynd i ddigwyddiad rhagoriaeth peirianeg yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd, lle mae ysgolion, gan gynnwys y ddwy ysgol Lewis yn fy etholaeth, wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Bloodhound gyda brwdfrydedd mawr.

Oherwydd toriadau gwariant eithafol Llywodraeth y DU byddwn yn byw mewn hinsawdd economaidd anodd dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n hanfodol bod gennym y sylfaen sgiliau cywir ar gyfer ein gweithlu, fel y gallwn wneud ein gorau i barhau i dyfu ac allforio yn y sefyllfa hon. Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol yn y Cynulliad ar yr amgylchedd adeiledig, byddaf yn cael gwybodaeth reolaidd gan sefydliadau yn y sector adeiladu yn ymwneud ag effaith y toriadau ar gyllidebau cyfalaf a'n hymdrechion i barhau i adeiladu yn ystod y cyfnod o ddirwasgiad. Dywedir wrthyf fod Llywodraeth Cymru wedi ymwneud yn agos â fforwm amgylchedd adeiledig Cymru yn ddiweddar, i edrych ar ffyrdd o symud ymlaen. Yr wythnos hon, mae fforwm gweithgynhyrchu Cymru wedi annog busnesau Cymru i ehangu eu gornelion o ran allforion, a dywedodd yr entrepreneur, Syr Terry Matthews fod yn rhaid i Gymru gadw

building on the recommendations of the Webb report and the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, we need to develop further measures to improve the links between industry and educational institutions and inculcate in our learners, both academic and vocational, a desire to pursue STEM subjects further, and apply them to practical solutions in everyday working life. Curricula and qualifications must be better aligned with the skills required for STEM employment, particularly in high-tech industries where knowledge transfer and the commercialisation of ideas into marketable, exportable products and services are vital. I am also pleased, therefore, that the Deputy Minister has recognised this with her acceptance of recommendations 9, 14, 18 and 19.

The STEM agenda is crucial for our economic future and skills development here in Wales. We want to be that small, clever country, and encourage more take-up of these subjects, which is crucial to our long-term success. We are no longer going to be able to compete with the emerging economies unless we tackle this, and I commend the report.

The Deputy Minister for Science, Innovation and Skills (Lesley Griffiths): I thank all Members who have contributed to the debate. The discussion that we have just had shows that there is consensus on one topic—namely, that in order to ensure Wales's success, and future economic growth, driving forward the STEM agenda is essential. I think that the National Science Academy has been established for less than a year, and the Chief Scientific Adviser for Wales has been in post for less than a year, but, between the both of these, we have succeeded a great deal, as Chris said. Taking account of everyone's contributions today, and the committee's recommendations, we can achieve much more.

5.15 p.m.

I agree with Gareth that we must enthuse our young people at an early age, and there are

ei graddedigion yn gweithio yn yr economi. Yn sicr, mae pynciau STEM yn rhan sylfaenol o ateb yr heriau hyn, a chan adeiladu ar argymhellion adroddiad Webb a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, rhaid i ni ddatblygu mesurau pellach i wella'r cysylltiadau rhwng diwydiant a sefydliadau addysgol ac ysgogi awydd i ddilyn pynciau STEM ymhellach ym meddwl ein dysgwyr, yn fyfyrwyr academiaidd a galwedigaethol, a defnyddio'r cysylltiadau hynny i ganfod atebion ymarferol mewn bywyd gwaith bob dydd. Rhaid i gwricwla a chymwysterau gydfynd yn well â'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cyflogaeth STEM, yn enwedig mewn diwydiannau uwch-dechnoleg lle mae trosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio syniadau yn gynnyrch a gwasanaethau masnachadwy y gellir eu hallforio yn hanfodol. Rwy'n falch hefyd, felly, bod y Dirprwy Weinidog wedi cydnabod hyn wrth dderbyn argymhellion 9, 14, 18 a 19.

Mae'r agenda STEM yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol economaidd ac i ddatblygu sgiliau yma yng Nghymru. Rydym yn awyddus i fod yn wlad fach, ddoeth, ac annog rhagor o bobl i fanteisio ar y pynciau hyn, sy'n hanfodol i'n llwyddiant hirdymor. Ni allwn gystadlu â'r economïau sy'n dod i'r amlwg oni bai ein bod mynd i'r afael â hyn, a chymeradwyaf yr adroddiad.

Y Dirprwy Weinidog Gwyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths): Diolch i bob Aelod sydd wedi cyfrannu at y ddatl. Roedd y drafodaeth yr ydym newydd ei chael yn dangos bod consensws ar un pwnc, sef, er mwyn sicrhau bod Cymru yn llwyddo, a bod twf economaidd yn y dyfodol, bod gyrru'r agenda STEM yn ei flaen yn hanfodol. Credaf fod yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi'i sefydlu ers llai na blwyddyn, ac mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru wedi bod yn ei swydd am lai na blwyddyn, ond, yn sgil y ddau beth, rydym wedi llwyddo i gyflawni cryn dipyn, fel y dywedodd Chris. Gan ystyried cyfraniadau pawb heddiw, ac argymhellion y pwyllgor, gallwn gyflawni llawer mwy.

Rwy'n cytuno â Gareth bod yn rhaid inni ennyn brwdfrydedd ein pobl ifanc o oedran

many excellent initiatives out there. Jeff referred to the F1 in Schools Bloodhound SSC challenge, which I have seen myself, which really enthuses young people. As many Members commented, in relation to employability skills, we cannot put too much emphasis on links between businesses and educational institutions. I know that employers who gave evidence to the committee raised that point and felt that the right STEM skills were lacking. Therefore, that is a key priority for us.

Chris referred to meaningful and inspiring work experience, which is essential. You mentioned the Real Conversation, which I could not attend yesterday due to Plenary. I went to an engineering workshop run by ARUP last week, where there were presentations given by three engineers, two of whom were women. They were very inspiring, and we all left thinking that we wanted to be engineers. Those sorts of events will encourage graduates to look at these sorts of careers.

Thank you all for your contributions today. There is clearly a huge amount of support for this agenda. I strongly believe that our investment in STEM activities will support our drive to build a stronger, more sustainable and resilient economy for the future. I thank the committee again for recognising the importance of this agenda.

Gareth Jones: I start by thanking all Members for their contributions this afternoon. We have been reminded by practically every one of our Members of the importance of the STEM agenda. The STEM programme needs to be well implemented and embedded in Wales, because, as you have stated this afternoon, it goes to the heart of our aspirations and to Wales's economic renewal.

Paul Davies reminded us of the significance and the quality of teaching, and how it can sometimes have an impact on the take-up of STEM subjects and in the interest shown in those subjects by pupils. He also noted the importance of Estyn reports and the

cynnar, ac mae llawer o fentrau rhagorol ar gael. Cyfeiriodd Jeff at her Schools Bloodhound SSC Fformiwla 1, yr wyf wedi'i weld fy hun, ac a oedd yn wir yn ennyn brwdfrydedd pobl ifanc. Fel y soniodd nifer o Aelodau, o ran sgiliau cyflogadwyedd, ni allwn roi gormod o bwyslais ar y cysylltiadau rhwng busnesau a sefydliadau addysgol. Gwn fod cyflogwyr a gyflwynodd dystiolaeth i'r pwyllgor wedi codi'r pwynt hwnnw a'u bod yn teimlo bod y sgiliau STEM cywir yn brin. Felly, mae hynny'n flaenoriaeth allweddol gennym.

Cyfeiriodd Chris at brofiad gwaith ystyrllon ac ysbrydoledig, sy'n hanfodol. Soniasoch am y Sgwrs Go Iawn, na allwn i fynd iddo ddoe oherwydd y Cyfarfod Llawn. Euthum i weithdy peirianeg, a drefnwyd gan ARUP, yr wythnos diwethaf, lle cafwyd cyflwyniadau gan dri pheiriannydd—yr oedd dwy ohonynt yn fenywod. Roeddent yn ysbrydoli pobl yn fawr, a gadawsom y lle yn teimlo ein bod yn awyddus i fod yn beirianwyr. Bydd digwyddiadau o'r fath yn annog graddedigion i edrych ar yrfaedd o'r math yma.

Diolch i chi gyd am eich cyfraniadau heddiw. Mae'n amlwg bod llawer iawn o gefnogaeth i'r agenda hwn. Credaf yn gryf y bydd ein buddsoddiad mewn gweithgareddau STEM yn cefnogi ein hymdrech i adeiladu economi gryfach, fwy cynaliadwy a gwydn ar gyfer y dyfodol. Diolchaf i'r pwyllgor unwaith eto am gydnabod pwysigrwydd yr agenda hwn.

Gareth Jones: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bob Aelod am eu cyfraniadau y prynhawn yma. Rydym wedi cael ein hatgoffa gan bron bob un o'n Haelodau am bwysigrwydd yr agenda STEM. Mae angen i raglen STEM gael ei gweithredu'n dda a'i gwreiddio yng Nghymru, oherwydd, fel y datganwyd y prynhawn yma, mae'n mynd at wraidd ein dyheadau a thug at adfywiad economaidd yng Nghymru.

Atgoffwyd ni gan Paul Davies am arwyddocâd yr addysgu a'i ansawdd, a sut y gall weithiau gael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar bynciau STEM ac ar y diddordeb a ddangosir yn y pynciau hynny gan ddisgyblion. Nododd hefyd bwysigrwydd

monitoring that we are able to do. Christine Chapman referred to the gender imbalance and the wasted opportunities and potential, which is a serious issue that needs to be addressed. I certainly agree with you that work placements need to be meaningful; the experience needs to be good and positive.

Jenny was quite right; we need to get this agenda right. She mentioned the primary school setting, where we need to be far more positive in our approach and in the way that science is taught. We have still not got to grips with that, and so it needs our consideration. You also mentioned that a lot of science is taught in our schools by non-specialists. Jeff Cuthbert, as one would expect, rightly told us to link skills with the economic development agenda, and to think of vehicles for doing that, such as the Welsh baccalaureate and Careers Wales. All of these are key components if we are to see STEM subjects being taught effectively in our schools.

I thank all Members for their contributions and the Deputy Minister for Science, Innovation and Skills for the way that she has received the recommendations and accepted most of them. We are in agreement, and she was right to remind us about exciting developments, such as the National Science Academy. I still think that it needs to be developed and honed, but it is there. We also have the Chief Scientific Adviser for Wales, and I very much hope that his outlook will incorporate the whole STEM agenda and not the narrower approach to science. You are quite right, Deputy Minister, there is consensus here and we are very pleased that the Welsh Assembly Government has accepted the recommendations. As we said, this matter is vital for us in Wales. I have great confidence, now that we have brought STEM subjects to the fore, as it were, that we are aware of it, and that we are now aware of what lies ahead and what the challenges are. I take this opportunity to ask whoever is here in the next Assembly to get to grips with what is an important issue for us.

adroddiadau Estyn a'r gwaith monitro y gallwn ni ei gyflawni. Cyfeiriodd Christine Chapman at yr anghydbwysedd rhwng y rhywiau ac at y cyfleoedd a'r potensial sy'n cael eu gwastraffu, sy'n fater difrifol y mae angen mynd i'r afael ag ef. Rwy'n sicr yn cytuno â chi bod angen i leoliadau profiad gwaith fod yn ystyrlon, a rhaid i'r profiad fod yn un da a chadarnhaol.

Mae Jenny yn llygad ei lle; mae angen inni wneud pethau'n gywir o ran yr agenda hwn. Soniodd am ysgolion cynradd, lle mae angen bod yn llawer mwy cadarnhaol yn ein dull o ddysgu gwyddoniaeth. Nid ydym wedi taro'r hoelen ar ei phen yn hynny o beth, ac felly mae angen inni ei ystyried. Soniasoch hefyd fod llawer o wyddoniaeth yn cael ei dysgu yn ein hysgolion gan unigolion nad ydynt yn arbenigwyr. Dywedodd Jeff Cuthbert yn gywir wrthym, fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, am gysylltu sgiliau â'r agenda datblygu economaidd, a meddwl am gyfryngau ar gyfer gwneud hynny, fel bagloriaeth Cymru a Gyrfa Cymru. Mae'r rhain i gyd yn elfennau allweddol os ydym am weld pynciau STEM yn cael eu haddysgu'n effeithiol yn ein hysgolion.

Diolchaf i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau ac i'r Dirprwy Weinidog Gwyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau am y ffordd y mae wedi gwrandao ar yr argymhellion a derbyn y rhan fwyaf ohonynt. Rydym yn cytuno, ac roedd hi'n gywir i'n hatgoffa am ddatblygiadau cyffrous, fel yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Rwy'n dal i feddwl bod angen i'r Academi gael ei datblygu a'i mireinio, ond mae yma o leiaf. Mae gennym Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru hefyd, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd ei weledigaeth yn ymgorffori agenda STEM yn gyfan, ac nid y dull mwy cyfyng o edrych ar wyddoniaeth. Rydych yn llygad eich lle, Ddirprwy Weinidog, mae consensws yma ac rydym yn falch iawn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn yr argymhellion. Fel y dywedasom, mae'r mater hwn yn hanfodol i ni yng Nghymru. Mae gennyf hyder mawr, nawr ein bod wedi dod â phynciau STEM i'r amlwg, a'n bod yn ymwybodol ohonynt, ac yn ymwybodol bellach beth sydd o'n blaen, a beth yw'r heriau. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ofyn i bwy bynnag fydd yma yn y

Cynulliad nesaf i fynd i'r afael â'r hyn sy'n fater pwysig i ni.

I will briefly thank all those who have expressed confidence in me. I am grateful for those kind words, but behind any successful committee is a hard-working team. I thank the clerk, her team, the excellent researchers, and everyone who has contributed through giving evidence, and in any other way, to the success of the Enterprise and Learning Committee.

Dim ond pwt o ddiolch i bawb sydd wedi mynegi hyder ynof i. Rwy'n ddiolchgar am y geiriau caredig hynny, ond y tu ôl i unrhyw bwyllgor llwyddiannus mae tîm gweithgar. Hoffwn ddiolch i'r clerch, ei thîm, yr ymchwilyr rhagorol, a phawb sydd wedi cyfrannu drwy roi tystiolaeth, ac mewn unrhyw ffordd arall, i lwyddiant y Pwyllgor Menter a Dysgu.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Enterprise and Learning Committee's report. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is agreed.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl Fer Short Debate

S4C—Fe Fydd y Chwyldro ar y Teledu S4C—The Revolution Will Be Televised

Bethan Jenkins: Yn gyntaf, bydd DVD byr yn cael ei ddangos sy'n cynnwys sylwadau pobl sy'n ymgychu dros ddyfodol S4C.

Bethan Jenkins: First, a brief DVD will be shown, which includes comments from people campaigning for S4C's future.

*Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn llythrennau italig isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD.
A DVD was shown. The transcription in italics below is a transcription of the oral contributions on the DVD.*

Ms Machreth: Mae gan S4C gyfle arbennig yn awr i ddatblygu ar gyfer y dyfodol, a chael mewnbyn llawer o bobl am sut y maent yn gweld dyfodol y sianel.

Ms Machreth: S4C now has a great opportunity to develop for the future, with the input of many people on how they see the channel's future.

Credaf nad oes angen brysio i wneud penderfyniadau mawr am ddyfodol y sianel. Mae'n bwysig iawn bod adolygiad annibynnol yn digwydd yn awr i edrych ar orffennol S4C ac efallai'r hyn sydd wedi mynd o'i le, ac i edrych i'r dyfodol. Mae hynny'n bwysig, a byddai'n syniad gwell na newid S4C a newid Deddf S4C yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd. Nid yw'n addas bod S4C yn cael ei gynnwys yn y Mesur; mae angen

I do not think that there is a need to rush to make big decisions on the channel's future. It is very important that an independent review is now held to look at S4C's past, perhaps looking at what has gone wrong, and to look to the future. That is important, and would be better than changing S4C and changing the S4C Act by way of the Public Bodies Bill currently going through Westminster. It is not appropriate to include S4C in that Bill; the future of a channel as unique and valuable as

trafod dyfodol sianel mor unigryw a gwerthfawr â S4C mewn cyd-destun synhwyrol, ac mewn cyd-destun ymgynghoriad eang yng Nghymru. Credaf fod gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl arbennig i'w chwarae yn yr adolygiad hwnnw.

Gan ein bod wedi cael sianel deledu ers blynyddoedd, efallai ein bod wedi bod yn araf yn symud tuag at yr oes ddigidol newydd a symud y Gymraeg ymlaen ar y we. Mae gan S4C gyfle arbennig yn awr i ddatblygu yn y meysydd hynny. Nid ydym eisiau i'r Gymraeg gael ei chadw'n ôl gan fod yn iaith un sianel deledu; yr ydym eisiau iddi fod yn iaith fyw ym mhob sffêr o fywyd, yn enwedig yn yr oes ddigidol, ac ar y we, gan mai dyna'r cyfryngau y mae pobl yn ymwneud â hwy. Felly, mae cyfle i S4C ddatblygu yn y meysydd hynny ar hyn o bryd.

Ni all wneud hynny heb yr adnoddau digonol. Rhaid gallu ariannu swyddi ac ariannu datblygu'r dechnoleg, a rhaid sicrhau bod arian i greu'r pethau hyn er mwyn cadw'r safon. Y peth gwaethaf a allai ddigwydd yw bod safon pethau Cymraeg yn is na safon pethau Saesneg, neu bod llai o ddarpariaeth yn y Gymraeg nag yn y Saesneg. Byddai hynny'n effeithio urddas y Gymraeg, a hyder pobl ynddi. Felly, mae angen gweledigaeth newydd ar S4C ar gyfer yr oes newydd.

Mr Owen: *S4C is operating on a model that is 40 years old now, and you ask yourself 'Is it the model that we want to have in 40 years' time?' Clearly, the answer has to be 'no'. We only have to look at the Ofcom data on what is happening in 2011 to realise that what was happening in 1980 does not apply any more, and something has to change.*

Bethan Jenkins: *Diolch i Menna Machreth a Martin Owen am eu sylwadau. I'r rheini ohonoch nad ydych yn gyfarwydd â chân Gil Scott-Heron, *The Revolution will not be Televised*, mae teitl y ddadl fer hon yn addasiad o'r gân ysbrydoledig honno. Mae gwahaniaeth amlwg, wrth gwrs, yng nghyd-destun y drafodaeth ar S4C. Bydd chwyldro S4C yn digwydd o flaen ein llygaid, ar ein*

S4C needs to be debated in a sensible context, and in the context of wide public consultation in Wales. I believe that the National Assembly has an essential role to play in such a review.

Given that we have had a television channel for many years, we may have been slow in embracing the new digital age and developing the Welsh language on the internet. S4C now has a real opportunity to develop in these areas. We do not want to see the Welsh language being held back to be the language of only one television channel; we want it to be a living language in all spheres, especially in the digital age and on the internet, as those are the media to which people relate. There is, therefore, currently an opportunity for S4C to develop in those areas.

That cannot be done without adequate resources. Jobs and technological developments must be funded, and money must be secured to maintain standards in these areas. The worst thing that could happen would be for standards to be lower in Welsh than in English, or for there to be less provision in Welsh than in English. That would impact upon the dignity of the Welsh language, and people's confidence in it. Therefore, S4C needs a new vision for the new age.

Mr Owen: *Mae S4C yn gweithredu ar fodel sydd yn 40 mlwydd oed bellach, a gofynnwch i chi'ch hunain 'Ai dyma'r model yr ydym am ei gael mewn 40 mlynedd?' Yn amlwg, yr ateb yw 'na'. Nid oes ond rhaid i ni edrych ar ddata Ofcom ar yr hyn sy'n digwydd yn 2011 i sylweddoli nad yw'r hyn oedd yn digwydd yn 1980 yn berthnasol mwyach, a rhaid newid rhywbeth.*

Bethan Jenkins: *I thank Menna Machreth and Martin Owen for their comments. For those of you not familiar with Gill Scott-Heron's song, *The Revolution will not be Televised*, the title of this short debate is an adaptation of that inspirational song. There is an obvious difference, of course, in the context of the debate on S4C. The S4C revolution will be televised on our screens.*

sgriniau. Byddwch yn gallu aros ym moethusrwydd eich tai i wyllo, a bydd uchafbwyntiau ar y newyddion nos, ond yr wyf yn amau'n fawr mai Johnny Cash a fydd yn ysgrifennu'r gerddoriaeth.

You will be able to stay in the comfort of your own homes to watch this revolution, and there will be highlights on the evening news, but I doubt whether Johnny Cash will write the theme tune.

Yr hyn y mae angen ei drafod heddiw yw pa fath o chwyldro y mae ei angen er mwyn tynnu S4C i mewn i'r unfed ganrif ar hugain, a sut y bydd y sianel, ein gwleidyddion a'r boblogaeth yn gyffredinol yn ymateb i'r her honno.

What we need to discuss today is what sort of revolution is required in order to bring S4C into the twenty-first century, and how the channel, our politicians and the general population respond to that challenge.

Nid oes angen imi ailadrodd hanes sefydlu S4C er mwyn deall ei phwysigrwydd fel sianel inni fel Cymry, o gofio'r protestiadau iaith a'r ymgyrchu a welwyd yn y 1970au. Nid oes ond angen yngan yr enw Gwynfor Evans, a'i benderfyniad i ymrydrio yn 1980 pe na byddai S4C yn cael ei chreu, i ddeall na allwn ymdrin â'r pwnc hwn yn ddiemosiwn ac i ddeall na allwn ddiystyru'r frwydr a fu i greu S4C yn y lle cyntaf.

I do not need to rehearse the history of the establishment of S4C in order to understand its importance as a channel for us as the people of Wales, given the language protests and the campaigns of the 1970s. I only need to mention the name of Gwynfor Evans, and his decision to go on hunger strike in 1980 unless S4C was created, to understand that we cannot debate this subject without emotion and to understand that we cannot ignore the battle fought to establish S4C in the first place.

Wrth gwrs, mae S4C wedi esblygu. Ein sialens, yn awr, yw edrych i'r dyfodol yn ein trafodaeth ar S4C. Heb os, mae'n orfodol inni warchod dyfodol S4C fel endid annibynnol—o ran ei harweinyddiaeth, ei chyllideb a'i hannibyniaeth olygyddol—sy'n rhydd o ymyrraeth weithredol gan y BBC. Mae'n sgandal bod y Tori Jeremy Hunt wedi cynnig system ariannol ar gyfer clymu'r BBC ag S4C, a hynny heb ymgynghoriad eang a thryloyw. Beth fydd yn digwydd wedi 2015, pan nad oes sicrwydd ariannol i'r sianel?

S4C has, of course, evolved. Our challenge is now to look to the future as we discuss S4C. Without doubt, we need to protect the future of S4C as an independent entity—in terms of leadership, budget and editorial independence—without intervention from the BBC. It is a scandal that the Tory Jeremy Hunt has proposed a funding system that ties S4C to the BBC without any broad and transparent consultation. What will happen after 2015, when there is no financial guarantee for the channel?

Mae'n orfodol ein bod ni, Aelodau Cynulliad o bob plaid, yn unfryd yn ein barn nad yw'n dderbyniol i Lywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain dorri cyllideb S4C o 24.4 y cant, neu 42.5 y cant mewn termau real. Mae'r cynllun hwn yn annerbyniol. Ar ddiwedd y dydd, mae S4C yn fwy na sianel deledu yn unig. Mae'n ymgorfforiad o'n diwylliant, ac yn bwysig o ran adfer yr iaith Gymraeg a sicrhau ei thwff yn y tymor hir. Mae Plaid Cymru yn brwydro ar bob lefel i wrthod y toriadau hyn i S4C, yn lobbio i ddatganoli darlledu i'r Cynulliad ac yn galw am Ddeddf darlledu newydd, er mwyn sicrhau na fydd S4C yn rhan o Fesur Cyrff Cyhoeddus y Llywodraeth yn Llundain.

It is required of us, as Assembly Members of all parties, to be unanimous in our view that it is not acceptable for the Tory and Liberal Democrat Government in London to cut the S4C budget by 24.4 per cent, or 42.5 per cent in real terms. That is unacceptable. Ultimately, S4C is more than just a television channel. It is a symbol of our culture and is important in terms of rejuvenating the Welsh language and ensuring its long-term growth. Plaid Cymru is, therefore, fighting on all levels to oppose the cuts to S4C, lobbying to devolve broadcasting to the Assembly and calling for a new broadcast Act so that S4C is not part of the Public Bodies Bill proposed by the London Government.

Wedi dweud hynny, mae angen cydnabod y ffaith nad ydym am warchod S4C er mwyn i bethau barhau fel ag y maent yn bresennol. Mae'r slogan 'Na i doriadau—Ie i S4C newydd' yn bwysig.

Mae nifer o raglenni gwych wedi'u cynnwys yn rhan o arlwy S4C, fel *Pen Talar*, *Alys* a *Caerdydd*. Mae gan Gymru dalent yn y sector hwn. Serch hynny, mae angen adolygiad llawn o strwythur y sianel fel y gellir ei datblygu i'r dyfodol. Yn ôl pobl sy'n gweithio yn y maes, mae system gomisiynu S4C yn drwsogl iawn ar hyn o bryd. Gwelwyd tystiolaeth o'r sefyllfa hon yn natganiad diweddaraf S4C. Rhoddwyd pythefnos yn unig i gwmmiau ymateb i ymgynghoriad ar y ffordd ymlaen i'r sianel. Yn ogystal, yr oedd un o'r opsiynau yn golygu bygythiad i'r rhaglen lwyddiannus *Wedi 3*.

Yn sgîl hyn, mae angen cynnal arolwg annibynnol o'r modd y mae S4C yn gweithredu ei phroses gomisiynu, yn ogystal ag archwilio perthynas busnes S4C â'r pum cwmni cynhyrchu mawr. Yr wyf yn deall mai'r opsiwn y byddai S4C yn ei ffafrio yw'r cynnig i ehangu ar yr arlwy o raglenni rygbi a rhaglenni plant—ond i wneud hynny heb ymgynghori â'r cyhoedd unwaith eto. Mae angen ymchwilio i'r budd economaidd y mae cwmnïau fel Tinopolis yn ei greu yng nghadarnleoedd yr iaith Gymraeg, fel Llanelli a Rhydaman, a'r bygythiad i'r iaith fel iaith fyw pe byddai swyddi sy'n gysylltiedig â *Wedi 3* yn cael eu colli. Datganoli swyddi allan o Gaerdydd ddylai fod ar frig yr agenda, yn hytrach nag edrych i dorri swyddi yn yr ardaloedd hyn.

Mae'n deg i ddweud nad yw S4C wedi manteisio ar y cyfle, hyd yn hyn, i ddatblygu ei gwaith digidol aml-gyfrwng. Yr wyf yn deall, serch hynny, bod S4C.com yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Beth am i'r S4C newydd gofleidio'r syniad a gynigwyd am gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol? Cynigwyd cynllun ar gyfer cynnwys di-Gymraeg ar ITV, gan annog cwmnïau yn y maes creadigol i roi syniadau gerbron Awdurdod S4C am raglenni newydd ar y sianel a syniadau i ddatblygu allbwn S4C ar y we, drwy ddefnyddio gwasanaethau

Having said that, we need to recognise the fact that we do not want to protect S4C so that things continue as they currently exist. The slogan 'No to cuts—Yes to a new S4C' is important.

Many excellent programmes are broadcast on S4C, such as *Pen Talar*, *Alys* and *Caerdydd*. There is huge talent in the sector in Wales. However, we need a full review of the structure of the channel in order to develop it for the future. According to those working in the field, S4C's commissioning system is currently very cumbersome. We see evidence of this in S4C's latest announcement. Independent companies were only given two weeks to respond to a consultation on the way forward for the channel. In addition, one of the options included a threat to the continuation of the successful *Wedi 3* programme.

As a result, we need an independent review of how S4C operates its commissioning process, as well as looking at S4C's business relationship with the five major independent production companies. I understand that S4C's option of choice is the proposal to expand rugby broadcasting and children's broadcasting—but to do so, once again, without consultation with the public. We need to look into the economic benefits that companies such as Tinopolis bring to the Welsh-language heartlands, such as Llanelli and Ammanford, and the threat that exists to the language as a living language if jobs related to *Wedi 3* are cut. The devolution of jobs from Cardiff should be at the top of the agenda, rather than looking to cut jobs in those areas.

It is fair to say that S4C has not taken full advantage, to date, of the opportunity to develop its multiplatform digital work, although I understand that S4C.com is in development. Why does S4C not grasp the proposal for independently funded news consortia? Non-Welsh-language content was proposed for ITV, encouraging companies in the creative sector to put ideas before the S4C Authority for new programming on the channel and ideas for the development of S4C online output, using local and indigenous journalism services.

newyddiaduraeth lleol a chynhenid.

Roedd cynigion Taliesin, UTV a Tinopolis yn rhan o'r broses IFNC. Yr oedd pob un ohonynt yn sôn am greu cynnwys aml-gyfrwng, gyda phwyslais cryf ar gyfryngau cymdeithasol. Mae rheolwyr S4C yn derbyn cyflog hael—digon hael iddynt fod wedi gallu symud gyda'r amser. Nid yw'r *status quo* yn ddigonol mwyach. Mae'r drafodaeth genedlaethol hon ar S4C yn gyfle i newid strwythur rheoli S4C ac i ddechrau o'r newydd. Serch hynny, sut y gellir newid a chreu S4C cynrychioladwy heb ddeall barn y gwylwyr?

5.30 p.m.

Yr wythnos diwethaf, gofynais i bobl gysylltu â mi i nodi eu syniadau am ddyfodol S4C, yn benodol drwy ddefnyddio 'hashtag' cynhenid ar wefan Twitter i'w ddefnyddio yn y ddadl fer hon, sef *#chwyldros4c*. Mae nifer fawr o bobl wedi rhannu eu sylwadau, a diolch iddynt am wneud. Dywedodd Dyl Mei ar Twitter y dylai'r bobl fawr hynny a oedd yn gerddorion, actorion ac artistiaid, cyn rhedeg pethau, gofio o le y maent yn dod, a dywedodd Elliw Iwan bod angen dychymyg a gwreiddioldeb wrth greu rhaglenni newydd. Yr oedd nifer o'r cyfraniadau ar Twitter yn sôn am raglenni llwyddiannus o'r gorffennol fel *C'mon Midffild* a *Hapus Dyrfa*, tra bod eraill wedi tynnu sylw at yr angen am raglenni newydd, yn enwedig yn y maes gwyddoniaeth. Yr oedd neges i S4C i beidio ag addasu rhaglenni cyfrwng Saesneg sydd ar sianeli eraill, ac yr oedd un *tweet* yn canu cloch, sef y dylai awdurdod S4C ddarllen yr awgrymiadau ar Twitter, gwrandao ar farn pobl greadigol sy'n gweithio yn y diwydiant, a gwrandao mwy ar farn y gwylwyr wrth greu rhaglenni newydd, cyfoes. Heb os, uchelgais S4C ddylai fod i dyfu yn ganolbwynt i'r iaith Gymraeg ac i'w thwf ar hyd a lled y wlad. Dylai'r sianel geisio creu cynnwys mor effeithiol fel ei fod nid yn unig yn cefnogi'r iaith, ond yn lladmerydd er ei datblygiad, gan ennyn mwy o bobl i ddysgu'r iaith. Yn ogystal, dylai ddatblygu ei chysylltiadau gydag ysgolion a cholegau yn fwy eang yn y maes addysg.

The proposals put forward by Taliesin, UTV and Tinopolis were part of the IFNC process. They all mentioned creating multiplatform content, with a strong emphasis on social media. S4C managers are paid high salaries—high enough for them to be able to move with the times. The status quo is no longer adequate. The national debate on S4C is an opportunity to change the management structure of S4C and to start anew. But how can we change and create a representative S4C without knowing what the viewers think?

Last week, I asked people to get in touch with me with their ideas about the future of S4C, by specifically creating a hashtag on Twitter for that purpose, to be used for today's short debate, namely *#chwyldros4c*. A great many people have shared their views, and I thank them for doing so. Dyl Mei said on Twitter that those great people who are musicians, actors and artists, should remember where they come from before running things, and Elliw Iwan said that imagination and originality are needed in the creation of new programmes. Several contributions on Twitter mentioned successful programmes of the past, such as *C'mon Midffild* and *Hapus Dyrfa*, while others drew attention to the need for new programmes, especially in the field of science. There was a message to S4C not to adapt English-medium programmes that have been on other channels, and one tweet rang a bell, saying that the S4C authority should read the suggestions on Twitter, listen to the opinions of creative people who work in the industry, and listen more to the opinions of viewers in creating new, modern programmes. Without a doubt, S4C's ambition should be to grow to be a focus for the Welsh language and to its growth across the country. The channel should try to create such effective content that it not only supports the language, but advocates its development, encouraging more people to learn the language. It should also develop its relations with schools and colleges more widely in the field of education.

Yn anffodus, y broblem tymor byr yw bod

Unfortunately, the short-term problem is that

S4C ar hyn o bryd yn prysur drafod cynlluniau'r sianel ar gyfer y blynyddoedd i ddod heb gadeirydd ar yr awdurdod, gyda phrif weithredwr dros dro, a heb bennaeth rhaglenni parhaol. Paratowyd y ddogfen weledigaeth, a gyhoeddwyd ar 6 Mawrth, heb drafodaeth gyda'r gynulleidfa, y cynhyrchwyr na'r bobl greadigol sy'n ffurfio asgwrn cefn y diwydiant. Y ffaith syml yw nad oes angen rhuthro i benderfyniadau a allai gael effaith tymor hir ar ddiwylliant Cymru a'r diwydiannau creadigol. Mae S4C yn rhy bwysig i hynny.

Mae angen llechen lân yn awr ac, wedi trafod, mae barn glir yn tyfu bod angen dechrau gyda thîm creadigol newydd yng nghanol y sianel, gan glustnodi cyfnod derbyniol o amser ar gyfer trafod sut y bydd yr S4C newydd yn gweithredu. Mae angen i'r Cynulliad gymryd rôl fwy gweithredol yn y trafodaethau ar ddyfodol S4C. Ni allwn adael hynny i Lywodraeth yn Llundain nad yw'n rhoi ein buddiannau ni fel Cymry ar flaen yr agenda. Bydd hyn nid yn unig o fudd i S4C a'r cwmnïau hynny sy'n gweithio gyda'r sianel, ond er budd pawb yng Nghymru. Dim ond ar ôl cymryd y camau hyn y bydd y chwyldro yn llwyddiannus.

Credaf fod Eleanor Burnham am ddweud ychydig o eiriau.

Eleanor Burnham: Diolch yn fawr. Yr oeddwn yn meddwl eich bod wedi anghofio amdanaf. Yr wyf wedi anfon neges atoch i ofyn pam nad oeddwn yn cael siarad, ond peidiwch â phoeni am y neges honno yn awr.

Nid wyf yn arbenigwr ar S4C, ond credaf fod y pleidiau i gyd o blaid yn union beth yr ydych wedi bod yn sôn amdano, sef cael gwell trefn ar S4C. Yr wyf yn siomedig nad ydym, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi ein hargyhoeddi o ran unrhyw beth sy'n cael ei yrru ymlaen yn S4C, oherwydd nad oedd neb yn siarad â ni. Wrth gwrs, oherwydd bod y mater heb ei ddatganoli, mae'n anodd ymyrryd, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn dweud rhywbeth tebyg. Fodd bynnag, mae hwn yn fater rhy bwysig i fod yn bleidiol. Yr wyf yn deall eich pryderon ynghylch Llundain. Yr ydym ni fel plaid wedi bod yn gwithio ar hyn yn ein cynhadledd diweddar ac yr ydym wedi bod yn siarad â

S4C is currently busy discussing the channel's plans for the coming years even though the authority does not have a chair, it has a temporary chief executive, and it does not have a permanent head of programming. The vision document, published on 6 March, was prepared without consultation with the audience, the producers or the creative people who are the backbone of the industry. The simple fact is that there is no need to rush to decisions that could have a long-term effect on the culture of Wales and the creative industries. S4C is too important for that.

A clean slate is now needed and, having discussed it, a clear view emerges that we need to start with a new creative team at the heart of the channel, earmarking an acceptable period of time for discussing how the new S4C will operate. The Assembly needs to play a more operational part in the discussions on the future of S4C. We cannot leave that to the Government in London that does not put our interests as Welsh people at the top of the agenda. This will benefit not only S4C and those companies that work with the channel, but everyone in Wales. It is only after these steps have been taken that the revolution will succeed.

I believe that Eleanor Burnham wishes to say a few words.

Eleanor Burnham: Thank you. I thought that you had forgotten about me. I have sent you a message asking why I was not to speak, but you can forget about that message now.

I am not an expert on S4C, but I think that all of the parties are in favour of exactly what you have been discussing, that is, getting S4C in better order. I am disappointed that we have not, over the past few years, been convinced by anything being driven forward in S4C, because no-one was talking to us. Of course, as this is a non-devolved matter, it is difficult to intervene, and I am sure that the Minister will say something to that effect. However, this is too important an issue to be left to party politics. I understand your concerns about London. We as a party have been applying pressure on this in our recent conference and we have been talking to Nick and others. Therefore, we will do our best,

Nick a phobl eraill. Felly, yr ydym yn gwneud ein gorau, oherwydd credaf fod amser creadigol cyffrous o'n blaen. Mae eisiau cymryd yr awenau, os gallwn. Gyda'r drefn newydd, gyda mwy o ddatganoli a phŵer i'r Cynulliad, gobeithiaf y bydd llawer mwy o bŵer gennym er mwyn i ni allu dylanwadu yn fwy na sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Diolch, Bethan.

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Diolch i Bethan am ddod â'r ddadl hon ger ein bron. Yn ddi-os, mae angen i S4C ymateb i'r her syfrdanol sy'n wynebu'r diwydiant teledu yn fwy cyffredinol. Mae'r modd yr ydym yn gwyllo teledu yn newid a bydd angen i S4C, fel pob darlledwr arall, adlewyrchu hynny a chyflwyno ei gwasanaeth ar aml lwyfan. Yr wyf yn ofni y bydd amryw o'r pethau y byddaf yn eu dweud yn debyg iawn i'r pethau yr oeddet ti yn eu dweud. Mae consensws eithaf eang yng Nghymru ar nifer o'r pynciau sydd wedi cael eu crybwyll y prynhawn yma. Arwydd o'r cytundeb hwnnw yw bod arweinwyr y pedair plaid yma wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yn galw am adolygiad annibynnol o S4C. Yr oedd hyn yn ddatblygiad arwyddocaol a oedd yn tanlinellu gwerthfawrogiad y pleidiau i gyd o'r hyn y mae S4C wedi ei gyfrannu ac yn parhau i'w gyfrannu at ein hiaith, ein diwylliant a'n ffyniant economaidd.

Mae safbwynt y Llywodraeth ar S4C yn hollol glir ac nid wyf yn bwriadu ailadrodd heddiw popeth yr wyf wedi ei ddweud yn y Siambr hon yn y misoedd diwethaf. Mae'n hanfodol bod S4C yn parhau fel darlledwr annibynnol gyda'i chyllideb ei hun a gyda'r rhyddid golygyddol i benderfynu sut y dylai wneud penderfyniadau golygyddol. Credaf fod honno'n farn a rennir yn gyffredinol yng Nghymru. Fel Llywodraeth, yr ydym hefyd wedi bod yn pwysleisio'r angen am blwraliaeth ym maes darlledu yng Nghymru. Mae dyfodol ITV Cymru'n parhau'n ansicr ac er mor bwysig yw cyfraniad y BBC yng Nghymru, ni fyddai'n sefyllfa iach pe bai'r BBC yng Nghymru, neu'n gyffredinol, yn cael ei weld fel y corff â rheolaeth golygyddol a/neu ariannol dros S4C. Mae annibyniaeth golygyddol yn un o'r hanfodion yr ydym yn galw amdanynt.

Fel y dywedaist, Bethan, mae sicrwydd

because I think that an exciting and creative period is ahead of us. We need to take charge, if we can. With the new system, with greater devolution and powers for the Assembly, I hope that we will have far more power in order to be able to exert greater influence than has been the case in the past. Thank you, Bethan.

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): Thanks to Bethan for bringing forward this debate. Without a doubt, S4C needs to respond to the startling challenge that is facing the television industry more generally. The way in which we watch television is changing and S4C, like every other broadcaster, will need to reflect that and present its service on multiple platforms. I am afraid that many of the things that I will be saying will be very similar to the things that you were saying. There is quite a broad consensus in Wales on many of the points that have been raised this afternoon. A sign of that consensus is that the leaders of the four parties here have written to the Prime Minister calling for an independent review of S4C. This was a significant development that underlined the extent to which all parties appreciate what S4C has contributed and continues to contribute to our language, culture and economic prosperity.

The Government's position on S4C is completely clear and I do not intend to repeat today everything that I have said in the Chamber over the past few months. It is essential that S4C continues as an independent broadcaster with its own budget and the editorial freedom to decide how it makes editorial decisions. I think that that is a belief that is shared across Wales. As a Government, we have been emphasising the need for plurality in broadcasting in Wales. The future of ITV Wales continues to be uncertain and despite the importance of the BBC's contribution in Wales, it would not be a healthy situation for the BBC in Wales or in general to be seen as the body with editorial and/or financial control over S4C. Editorial independence is one of the essential elements that we are calling for.

As you mentioned, Bethan, long-term

ariannu tymor hir i'r sianel yn holl bwysig. Mater i'r darlledwyr yw dod i gytundeb ar y manylion sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd, ond mae angen sicrhau annibyniaeth y sianel drwy'r trafodaethau hynny. Yr ydym yn croesawu adroddiad diweddar Syr Jon Shortridge ar lywodraethiant corfforaethol y sianel. Cymerwyd camau eisoes i wynebu hynny ac yr wyf yn llongyfarch yr awdurdod ar gymryd y camau hynny. Mae'r ffaith fod Syr Jon wedi clustnodi'n glir y diffygion oedd yn bodoli o fewn strwythur S4C yn caniatáu i'r awdurdod symud yn ei flaen.

Un o'r pethau a bwysleisiaist, Bethan, y byddwn innau am ei bwysleisio hefyd yw'r angen i'r sianel fynd â'r gynulleidfa gyda hi wrth iddi frwydro'r sialensiau ariannol a gwleidyddol anodd mae'n ei hwynebu. Nid yw S4C wedi llwyddo i wneud hyn yn ystod blynyddoedd diweddar, ac mae angen ymgynghori a chreu cysylltiadau gyda'r gynulleidfa Gymraeg—y gynulleidfa sydd eisoes yn dilyn rhaglenni S4C a'r gynulleidfa botensial. Mae'n rhaid cynnwys y bobl hynny yn y trafodaethau er mwyn cael cefnogaeth i S4C ac er mwyn cynnal y cytundeb wnaed gyda phobl Cymru pan sefydlwyd S4C yn ôl ar ddechrau'r 1980au. Y rheswm a wnaethpwyd y cytundeb hwnnw, a gafodd ei gadarnhau wedyn mewn Deddf, oedd i dynnu unrhyw gecru ynglŷn â'r arian ac yn y blaen allan o'r ddadl flynyddol ynglŷn ag ariannu gwahanol wasanaethau. Credaf, rhywsut neu'i gilydd, dylid cael yr un math o gadernid a sicrwydd i'r sianel yn unrhyw drefniant newydd a wneir, neu mi fyddwn yn ôl yn yr un twll blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn amlwg, mae'n rhaid i'r sianel barhau i gomisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr ym mhob rhan o Gymru, yn rhannol er mwyn adlewyrchu Cymru gyfan—y gorllewin, y gogledd, y dwyrain a'r de. O ran amseriad y penderfyniadau, credaf fod hwn yn gyfnod o newid mawr. Yn yr wythnosau nesaf, yr ydym yn disgwyl cyhoeddiad ynglŷn â chadeirydd newydd i'r sianel. Nid oes ganddi brif weithredwr ar hyn o bryd. Yr wyf yn gwybod am sefyllfa'r BBC, bod cadeirydd yr ymddiriedolaeth yn sefyll i lawr. Mae hwn yn gyfnod o newid mawr ac yr wyf yn meddwl ei fod yn gyfnod i bwylllo. Mae'n iawn i S4C edrych i'r dyfodol a chynnal trafodaethau

funding for the channel is crucial. It is a matter for the broadcasters to reach an agreement on the details that are currently being discussed, but we need to ensure the channel's independence through those discussions. We welcome Sir Jon Shortridge's recent report on the corporate governance of the channel. Steps have already been taken to deal with that issue and I congratulate the authority for taking those steps. The fact that Sir Jon has identified clearly the deficiencies that existed within S4C structures will allow the authority to move on.

One of the things that you emphasised, Bethan, and which I would also emphasise, is the need for the channel to take the audience with it as it battles the financial and political challenges it faces. This is not something that S4C has succeeded in doing in recent years, and there is a need to consult and build relationships with the Welsh audience—the audience that is already following the S4C programmes and the potential audience. Those people must be included in the discussions in order to have that support for S4C and to support the agreement made with the people of Wales when S4C was established at the beginning of the 1980s. The reason that agreement was made, which was confirmed later in an Act, was to remove any arguments about funding and so on out of the annual debate on the funding of various services. I think that, somehow or other, any new arrangement must give the same sort of strength and certainty to the channel or we will only find ourselves back in the same situation year after year.

Of course, the channel must continue to commission programmes by producers in all parts of Wales, partly in order to reflect all of Wales—the west, the north, the east and the south. On the timings of those decisions, this is a period of great change. Over the next few weeks, we expect an announcement on a new chair for the channel, which does not have a chief executive at the moment. I know the situation with the BBC, that the chair of the trust is standing down. It is a period of great change and I think that it is a time to pause. It is right for S4C to be looking to the future and holding discussions about the way forward and the choices it faces, but I doubt

ynglŷn â'r ffordd ymlaen a'r dewisiadau, ond go brin mai hwn yw'r amser gorau i wneud penderfyniadau pellgyrhaeddol ynglŷn â dyfodol y sianel a'i siâp i'r dyfodol.

that this is the best time to be making far-reaching decisions about the future of the channel and its shape in that future.

Mae penderfyniadau anodd yn wynebu'r awdurdod, ac mae'n allweddol fod y sianel yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector cynhyrchu annibynnol wrth benderfynu ar ba fodelau sy'n briodol ar gyfer y dyfodol. Rhaid i mi ddweud ei bod yn anodd plesio cynhyrchwyr annibynnol, fel un oedd yn un ohonynt rywfaint o amser yn ôl. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cynnal hyder ar y ddwy ochr wrth i ni fwrw ymlaen i wynebu'r heriau y cyfeiriwyd atynt yn barod. Nid ar chwarae bach y mae trawsnewid teledu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ymateb i'r cyfarfod diweddar yn Llandrindod yn tanlinellu'r her sy'n wynebu'r sianel a'r ffaith bod ein galwad am adolygiad annibynnol o'r sianel yn gywir ac yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd ym mis Hydref. Diolch i ti unwaith eto, Bethan, am ddod â'r ddadl hon gerbron, gan fod y mater hwn o'r pwys mwyaf, nid yn unig i S4C a'r cynhyrchwyr sy'n ynghlwm â hi, ond hefyd o ran creu strategaeth gynaliadwy i'r Gymraeg dros y degawd nesaf.

The authority faces difficult decisions, and it is crucial that the channel works in partnership with the independent production sector to decide what models are appropriate for the future. I have to say that it is difficult to please independent producers, as someone who was one of them some time ago. However, it is important that we support confidence on both sides as we go on to face the challenges that have already been referred to. Transforming Welsh-medium television is no mean feat. The response to the recent meeting in Llandrindod underlines the challenge that the channel faces and the fact that our call for an independent review of the channel is as correct and relevant today as it was in October. Thank you once again, Bethan, for bringing this debate forward, as it is a matter of the greatest importance, not only for S4C and the producers who are involved with it, but also to creating a sustainable strategy for the Welsh language over the next decade.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.41 p.m.
The meeting ended at 5.41 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asgar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)